Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

## GŴYS A RHAGLEN

**ar gyfer**

**CYFARFOD CYFFREDINOL O GYNGOR SIR YNYS MÔN**

**ar**

**DYDD MAWRTH**
**23 MAI 2023**
**am 10:30 o'r gloch**

## SUMMONS AND AGENDA

**for an**

**ORDINARY MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL**

**on**

**TUESDAY**
**23 MAY 2023**
**at 10:30 am**

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod.***

**R H A G L E N**

**1. COFNODION**

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2023.

**2. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR**

**4. RHYBUDD O GYNNIG YN UNOL Â RHEOL 4.1.13 .1 Y CYFANSODDIAD**

**Derbyn y Rhybudd o Gynnig isod gan y Cynghorydd Llinos Medi:-**

*"Rydym fel Cyngor Sir Ynys Môn yn gwahodd Eisteddfod Genedlaethol yr URDD i Ynys Môn yn 2026 mewn egwyddor . Mae'r Eisteddfod yn un o brif ddigwyddiadau ieuenctid drwy Ewrop a does unman gwell na Môn er mwyn llwyfannu digwyddiad Cymreig i bobl ifanc Cymru."*

**Derbyn y Rhybudd o Gynnig isod gan y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas: -**

*"Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru I ail ymweld ar y penderfyniad i ddod a chymorth cyllid BES3 I ben 24/07/23 i fysus Cyhoeddus. Mae'r cyllid yn hanfodol bwysig i ddiogelu gwasanaethau bysiau ar yr ynys."*

**5. CYFLWYNO DEISEBAU**

Derbyn unrhyw ddeiseb yn unol â Pharagraff 4.1.11 y Cyfansoddiad.

**6. ADRODDIAD BLYNYDDOL ARWEINYDD Y CYNGOR 2022/23**

Ystyried Adroddiad Blynyddol Arweinydd y Cyngor yn unol â Pharagraff 4.1.11 o'r Cyfansoddiad.

**7. CYNLLUN LLESIANT BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD AC YNYS MÔN 2023-28**

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr.

**8. HUNAN ASESIAD CORFFORAETHOL 2023**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Professiwn, AD a Thrawsnewid.

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2023

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Dafydd Roberts (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Margaret Murley Roberts (Isgadeirydd)<br><br>Cynghorwyr Geraint Bebb, Non Dafydd, Paul Ellis, Jeff M Evans, Neville Evans, Douglas Massie Fowlie, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, John Ifan Jones, A M Jones, G O Jones, Dyfed Wyn Jones, Llinos Medi, Euryn Morris, Llio Angharad Owen, Derek Owen, Gary Pritchard, Dylan Rees, Alun Roberts, Keith Roberts, Nicola Roberts, Ken Taylor, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams, Robin Williams, Liz Wood ac Arfon Wyn |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd,<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai,<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,<br>Rheolwr Adnoddau Dynol (CW) (ar gyfer eitem 13 yn unig),<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ) (ar gyfer eitem 13 yn unig),<br>Cyfreithiwr – Llywodraethu Corfforaethol a Chontractau (MY) (ar gyfer eitem 14 yn unig),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Mr John R Jones (Cadeirydd y Pwyllgor Safonau) arsylwr. |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr Carwyn Jones, R Ll Jones, Jackie Lewis, Pip O'Neill ac Alwen Pennant Watkin. |

**1. COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor Sir yn gywir:-

- 6 Rhagfyr, 2022
- 26 Ionawr, 2023 (Arbennig).

**2. DATGAN DIDDORDEB**

Bu'r Prif Swyddogion ddatgan diddordeb personol ac un a oedd yn rhagfarnu mewn perthynas ag Eitem 13 – Datganiad Polisi Tâl 2023 ac fe wnaethant adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ddilynol.

**3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR**

Darllenodd y Prif Weithredwr ddatganiad ar y cyd gan Gwmni 2 Sisters ac Undeb Unite, a dderbyniwyd cyn y cyfarfod, a oedd yn nodi hyd yma na fu dewisiadau hyfyw eraill ond cau'r ffatri yn Llangefni. Yn ôl y datganiad, er budd gorau'r holl weithlu, bod cyfnod dirwyn i ben mor fyr ag sy'n weithredol bosibl, a'r bwriad yw mai'r dyddiad olaf o gynhyrchu fydd 31 Mawrth.

Gwnaeth y Cadeirydd y cyhoeddiadau canlynol:-

- Llongyfarchiadau mawr i Mr Wil Stewart sy'n Warden ym Mharc y Morglawdd yng Nghaergybi ar gael ei gydnabod am ei waith gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn ddiweddar.

- Llongyfarchiadau mawr i Mr Owain Evans o Langefni, cyn ddisgybl o Ysgol Llangefni a oedd yn aelod o garfan rygbi Dan 20 Cymru yn y Chwe Gwlad yn ddiweddar.

- Llongyfarchiadau mawr i Casi Evans o Benysarn, disgybl yn Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch a gynrychiolodd dîm Pêl-droed Cymru Dan 17 mewn cystadleuaeth ym Mhortiwgal fis Chwefror. Chwaraeodd yn erbyn Serbia, y Weriniaeth Tsiec a Phortiwgal.

- Llongyfarchiadau i Glwb Ffermwyr Ifanc Bodedern a fu'n cystadlu mewn noson adloniant cenedlaethol yn Pontio penwythnos diwethaf.

- Llongyfarchiadau i Gôr Ieuenctid Môn am ennill yng Ngŵyl Côr Gogledd Cymru (Lleisiau Ifanc) yn ddiweddar.

- Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran yn Hanner Marathon Môn yn ddiweddar.

- Dymunai'r Cadeirydd ddiolch i blant Môn a gerddodd drwy'r trefi a'r pentrefi i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ar 1 Fawrth. Diolchodd i Fenter Iaith Môn am drefnu'r gorymdeithiau ac i staff MônActif am eu cefnogaeth.

- Dymuniadau gorau i Mr William Young o Gaergybi sy'n perfformio rhan 'Lenni' yn y cynhyrchiad 'Of Mice and Men' yn Theatr Birmingham. Mae William yn gyn-ddisgybl o Ysgol Bodedern ac yn aelod o *Hijinx Theatre North Academy* ers 2014.

*   *   *   *

Estynnwyd cydymdeimladau i deulu Mr Llŷr Bryn Roberts a oedd yn gweithio yn yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol.

Estynnwyd cydymdeimladau i unrhyw Aelod o'r Cyngor neu'r Staff oedd wedi cael profedigaeth.

Cododd Aelodau a Swyddogion ar eu traed i dalu teyrnged mewn tawelwch.

## 4. CYFLWYNO DEISEBAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddeisebau.

## 5. RHYBUDD O GYNNIG YN UNOL Â RHEOL 4.1.13.1 O'R CYFANSODDIAD

Cyflwynwyd – y Rhybudd o Gynnig canlynol gan y Cynghorydd Llinos Medi:-

*‘Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad brys i wytnwch cysylltiad Ynys Môn a’r tir mawr. Mae sefyllfa Ynys Môn yn unigryw i unrhyw ardal arall yng Nghymru oherwydd dim ond dau gyswllt yn unig sydd, nid yn unig er mwyn cyrraedd ail borthladd prysuraf y Deyrnas Unedig ond hefyd fel y gall trigolion yr ynys fyw eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae angen sicrhau bod trigolion yr ynys yn gallu cael mynediad i waith, addysg a gwasanaethau brys. Hefyd, mae angen sicrhau cysylltiad economaidd i’r ynys o bersbectif twristiaeth a’r cais am Borthladd rhydd. Mae dyfodol economaidd a llesiant trigolion yr ynys yn ddibynnol ar y cysylltiad.’*

Eiliwyd y Cynnig gan y Cynghorydd Dafydd R Thomas.

Dywedodd y Cynghorydd Aled M Jones ei fod yn cefnogi bod angen edrych ar fyrder ar wydnwch y cysylltiad rhwng Ynys Môn a'r tir mawr a'r effaith ar drigolion lleol a thrigolion Ynys Môn pan gaewyd Pont Grog Menai ar fyr rybudd. Argymhellodd y Cynghorydd Jones y dylid diwygio'r Cynnig fel bod pwysau yn cael ei roi ar Lywodraeth Cymru i ddigolledu'r busnesau ym Mhorthaethwy ynghyd â chynnig parcio am ddim am flwyddyn yn y meysydd parcio y mae'r Awdurdod yn gyfrifol amdanynt er mwyn annog pobl i'r siopau sydd wedi cael eu heffeithio.

Eiliwyd y Cynnig gan y Cynghorydd Derek Owen.

Mewn ymateb, dywedodd Arweinydd y Cyngor fod y trafodaethau'n dal i barhau ynglŷn â'r gefnogaeth i'r busnesau ym Mhorthaethwy gan nad yw'r gwaith angenrheidiol ar Bont Menai wedi'i orffen eto. Roedd yn ystyried bod yr adolygiad i wytnwch y cysylltiad rhwng Ynys Môn a'r tir mawr yn fater gwahanol.

Dywedodd y Prif Weithredwr fod achos wedi'i anfon ymlaen at Weinidog Economi Llywodraeth Cymru am gymorth i fusnesau ym Mhorthaethwy yn dilyn gwaith a wnaed i gasglu gwybodaeth ac adolygiad gyda busnesau yn y Dref. Ond mae'r ddadl dros iawndal wedi ei wrthod gan nad yw polisi Llywodraeth Cymru yn digolledu busnesau sydd wedi eu heffeithio yn sgil ffyrdd ar gau.

Dywedodd y Cadeirydd ei fod, yn dilyn y cyngor cyfreithiol, o'r farn bod y Cynnig a gyflwynid gan yr Arweinydd a'r gwelliant gan Grŵp yr Wrthblaid yn faterion gwahanol ac o dan ddau Weinidog ar wahân o fewn Llywodraeth Cymru. Fel Cadeirydd fe wrthododd y gwelliant i'r Cynnig.

Dywedodd yr Arweinydd fod cymorth wedi dod i law'r holl wasanaethau brys ynglŷn ag adolygu gwytnwch y cysylltiad rhwng yr Ynys a'r tir mawr. Dywedodd ymhellach fod angen sicrhau bod trigolion yr ynys yn gallu cael mynediad i waith yn ogystal â bod cenedlaethau’r dyfodol yn gallu cael cysylltiadau â'r tir mawr.

Yn dilyn pleidlais unfrydol:-

**Pasiwyd y Cynnig.**

## 6. RHYDDHAU BALANSAU’R CYNGOR I ARIANNU COSTAU CYFLOG YCHWANEGOL MEWN YSGOLION

Cyflwynwyd – adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Adran 151 Swyddog mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid fod diffyg ariannol yng nghyllidebau ysgolion oherwydd cost y dyfarniad cyflog i staff addysgu a staff

nad ydynt yn addysgu.  Y dybiaeth oedd y byddai cyflog yn cynyddu 2.5%, i'r ddau gategori o weithwyr, fodd bynnag, mae'r dyfarniad cyflog, sy'n cael ei argymell i Lywodraeth Cymru gan gorff tâl annibynnol, wedi pennu'r dyfarniad cyflog ar 5%.  Argymhellodd y Pwyllgor Gwaith fod y Cyngor Llawn yn cau'r bwlch hwnnw gydag arian o gronfa gyffredinol y Cyngor gyda'r dyraniad ychwanegol i'w ddosbarthu i ysgolion drwy'r fformiwla ariannu.

**PENDERFYNWYD rhyddhau £1.7m o'r balansau cyffredinol er mwyn ariannu'r costau ychwanegol a wynebir gan ysgolion.**

## 7. ADRODDIAD CANOL BLWYDDYN AR REOLI'R TRYSORLYS 2022/23

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 2 Mawrth, 2023 i'r Cyngor ei gymeradwyo.

**PENDERFYNWYD:-**

- **derbyn yr Adroddiad Adolygiad Canol Blwyddyn ar Reoli'r Trysorlys 2022/23.**
- **cymeradwyo'r newid yn y terfyn gwrthbarti i awdurdodau lleol eraill yn unol ag adran 5.3.**

## 8. DATGANIAD AR STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2023/24

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 2 Mawrth, 2023 i'r Cyngor ei gymeradwyo.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2023/2024.**

## 9. STRATEGAETH GYFALAF

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 2 Mawrth, 2023 i'r Cyngor ei gymeradwyo.

Dywedodd Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid ei bod yn ofynnol o dan God Darbodus diwygiedig CIPFA (Medi 2017), fod pob awdurdod yn llunio strategaeth gyfalaf. Yn y strategaeth gyfalaf hon, rhaid amlinellu'r cyd-destun tymor hir i benderfyniadau am wariant cyfalaf a buddsoddi. Pwrpas y gofyniad hwn yw sicrhau bod awdurdodau'n gwneud penderfyniadau ar gyfalaf a buddsoddi yn unol ag amcanion gwasanaethau ac yn rhoi ystyriaeth briodol i stiwardiaeth, gwerth am arian, doethineb ariannol, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd.  Cyfeiriodd yr Aelod Portffolio ymhellach fod nifer o'r strategaethau hyn wedi'u cynnwys o fewn Cynllun y Cyngor.

Er ei fod yn cefnogi'r Strategaeth Gyfalaf tynnwyd sylw gan y Cynghorydd Aled M Jones at y cyfeiriad o fewn yr adroddiad at unedau busnes ym Mryn Cefni, Llangefni a Phenrhos, Caergybi a'i fod yn credu bod unedau busnes hefyd ar gael yn Amlwch.  Nododd fod angen cyfeirio at unedau bach yng Ngogledd Môn gan fod yr NDA wedi rhoi arian am yr ail flwyddyn tuag at ddatblygiadau o'r fath yn Amlwch.

Mewn ymateb, dywedodd yr Arweinydd fod gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i godi unedau diwydiannol bychain yn Amlwch.  Nododd fod Cynllun y Cyngor yn cyfeirio at y ffaith fod yr Awdurdod yn ystyried datblygiad economaidd ar draws yr Ynys a'i fod yn rhan o'r Strategaeth Gyfalaf.

**PENDERFYNWYD derbyn y Strategaeth Gyfalaf.**

## 10. CYLLIDEB 2023/24

Cyflwynodd Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid gynigion y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y Gyllideb Refeniw a'r Dreth Gyngor ar gyfer 2023/2024, Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ddiweddaraf y Cyngor a defnyddio unrhyw gronfeydd untro i ategu'r gyllideb - Eitem 10 (a) i (c) o fewn yr Agenda. Dywedodd fod y Pwyllgor Gwaith yn trafod cynigion cychwynnol y gyllideb yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ionawr, 2023 a'r setliad cyllideb dros dro yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i gyhoeddi ar 14 Rhagfyr, 2022. Cynigiodd y Pwyllgor Gwaith gyllideb ar gyfer 2023/2024 o £172.438m ac, o ystyried yr AEF dros dro o £123.555m, byddai angen cynnydd o 5% yn y Dreth Gyngor a defnyddio £1.78m o falansau cyffredinol y Cyngor i gydbwyso'r gyllideb. Fodd bynnag, bu newid sylweddol sydd wedi effeithio ar y gyllideb ers cyflwyno'r cynigion drafft cychwynnol yn deillio o'r cyhoeddiad bythefnos yn ôl i gynnig cyflog cychwynnol i staff y Cyngor nad ydynt yn addysgu ar gyfer 2023/24 sy'n gyfystyr â chynnydd cyfartalog o ran tua 7%; Mae'r cyflogwr wedi cyflwyno hyn fel "cynnig llawn a therfynol". O ystyried bod cyllideb ddrafft 2023/24 yn caniatáu codiad cyflog o 3.5%, mae hyn yn golygu bod pwysau o £2m yn ychwanegol ar y gyllideb. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi ystyried sut y gellir ariannu'r gost ychwanegol hon ac mae'n cynnig gwneud hyn trwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn oherwydd ystyrir bod canfod £2m o arbedion heb ei gynllunio yn y cyfnod hwyr hwn yn afrealistig a bod cynnydd uwch yn y Dreth Gyngor yn annerbyniol. Derbyniodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror, 2023 yr argymhellion.

Pwysleisiodd yr Aelod Portffolio bwysigrwydd cael digon o arian wrth gefn i dalu costau ychwanegol o'r fath ac yn enwedig pan fo sefyllfaoedd annisgwyl yn codi. Yn sgil defnydd darbodus o arian y Cyngor yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu modd cynyddu cronfeydd wrth gefn ac mae'r adnoddau ariannol hynny bellach ar gael i helpu'r Cyngor yn ystod cyfnodau anodd ac i roi sicrwydd ariannol iddo i'r dyfodol. Cynigiodd yr argymhellion i'r Cyngor llawn.

Eiliodd yr Arweinydd y cynnig a dymunai ddiolch i'r Aelod Portffolio, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a'i staff am eu gwaith yn cyflwyno'r gyllideb cyn y cyfarfod.

Dywedodd y Cynghorydd Aled M Jones fod cyllideb y Cyngor bron yn £175m, fodd bynnag, mae'n rhaid ystyried sut y bydd y Cyngor yn gwario'r adnoddau i gyd. Cyfeiriodd at y cyfanswm sy'n cael ei wario ar gyflogi staff asiantaeth o fewn gwasanaethau'r Cyngor gan fod modd i bob gwasanaethau gyflogi staff asiantaeth heb orfod cadarnhau gyda'r Adran Adnoddau Dynol. Roedd o'r farn y dylai pobl leol gael y cyfle i allu gwneud cais am y swyddi hyn a pheidio â llenwi'r swyddi gyda staff asiantaeth. Gofynnodd y Cynghorydd Jones am adroddiad ar nifer y swyddi o fewn y Cyngor sy'n cael eu llenwi gyda staff asiantaeth. Hefyd dywedodd fod angen cynnig gwaith sy'n ofynnol gan y Cyngor i fusnesau lleol ar yr Ynys. Dywedodd y Cynghorydd Jones ymhellach, fel y nodwyd yn yr adroddiad, fod dros £14m wedi'i ddefnyddio o gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, ac roedd o'r farn bod trigolion yr Ynys wedi wynebu Treth Cyngor ormodol dros y blynyddoedd.

Dywedodd y Cynghorydd Jeff Evans nad oedd yn gallu cefnogi'r gyllideb a gyflwynwyd gan fod pobl eisoes ddim yn gallu fforddio cynnydd yn y Dreth Gyngor oherwydd yr argyfwng costau byw gydag ynni a phrisiau bwyd yn cynyddu.

Mewn ymateb, dywedodd Aelod Portffolio Cyllid, Busnes y Cyngor a Phrofiad Cwsmeriaid fod staff asiantaeth yn hanfodol ar adegau, a bod costau cyflogi staff asiantaeth yn cael eu hadrodd o fewn yr Adroddiad Monitro Chwarterol ar gyfer Chwarter 3 ac o fewn yr Adroddiad Monitro Refeniw ar ddiwedd y flwyddyn. Dywedodd ei fod yn ymwybodol bod 5 aelod o staff asiantaeth wedi cael eu cyflogi o fewn yr Adran Gyllid i gynorthwyo gyda'r gwaith cynyddol sy'n gysylltiedig â grantiau, y gwaith sy'n cronni o ran y Dreth Gyngor gan

fod y staff sydd fel arfer yn gwneud y gwaith yma bellach yn gyfrifol am sicrhau bod grantiau Costau Byw ar gael i drigolion yr Ynys. Dywedodd ymhellach fod pob ymdrech yn cael ei gwneud i roi gwaith i fusnesau lleol, fodd bynnag, mater i'r busnesau hyn yw tendro am y gwaith sydd ar gael ac mae'r cytundebau'n cael eu hysbysebu drwy'r 'Gwerthwch i Gymru' a'r broses gaffael. Ailadroddodd yr Aelod Portffolio fod cyfradd y Dreth Gyngor ar Ynys Môn gyda'r isaf yng Ngogledd Cymru, a'r 18 isaf allan o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Ystyrir mai'r cynnydd o 5% yw'r lefel i fynd i'r afael â'r pwysau ar wasanaethau'r Awdurdod ac yn enwedig ar Wasanaeth Cymdeithasol.

Dywedodd Aelod Portffolio Gwasanaethau Plant ei fod yn ymwybodol bod 4 aelod o staff asiantaeth yn cael eu cyflogi o fewn Gwasanaethau Plant, fodd bynnag, mae 2 o'r staff yma yn gweithio ar draws y ddau wasanaeth gyda'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol mewn nifer o rolau. Nododd nad yw cyflogi staff asiantaeth yn unigryw ar gyfer yr Awdurdod hwn yn unig. Mae'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn ceisio annog pobl ifanc i ystyried swyddi o fewn maes Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol fel cyfleoedd gyrfa.

Yn dilyn y bleidlais roedd 23 o blaid, roedd 1 yn erbyn a bu i 5 ymatal eu pleidlais.

**Penderfynwyd:-**

- **Cymeradwyo'r gyllideb gyfalaf ar gyfer 2023/2024.**
- **Derbyn y Datrysiad ar y Dreth Gyngor drafft fel y nodwyd yn (C) ar yr agenda:-**

**1. PENDERFYNWYD**

**(a)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith, mabwysiadu Cyllideb 2023/24, yn Adran 4, fel Strategaeth Cyllideb oddi mewn i ystyr a roddir yn y Cyfansoddiad, a chadarnhau y daw'n rhan o'r fframwaith cyllidebol ac eithrio'r ffigyrau a ddisgrifir fel rhai cyfredol.

**(b)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith, mabwysiadu cyllideb refeniw 2023/24 fel y gwelir honno yn 4.2, Adran 4 o adroddiad y Gyllideb 2023/24, Atodiad 1 ac Atodiad 2.

**(c)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith, mabwysiadu cyllideb gyfalaf fel y gwelir yn adroddiad Adroddiad y Gyllideb Gyfalaf 2023/24.

**(ch)** Dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Cyllid 151 y pŵer i wneud addasiadau rhwng penawdau yn y Gyllideb Arfaethedig Derfynol ar gyfer 2023/24 yn Atodiad 3 er mwyn gweithredu penderfyniadau'r Cyngor. Yn ychwanegol at hyn, dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 y pŵer i drosglwyddo hyd at £50k yr eitem o'r gronfa wrth gefn gyffredinol. Bydd unrhyw eitem sy'n fwy na £50k angen cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn y gwneir unrhyw drosglwyddiad o'r gronfa wrth gefn gyffredinol.

**(d)** Dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith, ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24, y pwerau i drosglwyddo cyllidebau rhwng penawdau fel a ganlyn:-

**(i)** pwerau dilyffethair i wario pob pennawd cyllidebol unigol yn Atodiad 2 Cyllideb Arfaethedig Terfynol 2023/24 yn erbyn pob gwasanaeth unigol, ar y gwasanaeth perthnasol;
**(ii)** pwerau i gymeradwyo'r defnydd o'r arian wrth gefn clustnodedig a rhai gwasanaeth i gyllido cynigion gwariant untro sy'n cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cyngor a gwella gwasanaethau;
**(iii)** pwerau i drosglwyddo o ffynonellau incwm newydd neu uwch.

**(dd)** Dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith, mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2023/24 ac yn unol â chyngor y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau), y pŵer i ryddhau hyd at £250k o falansau cyffredinol i ymdrin â blaenoriaethau sy'n codi yn ystod y flwyddyn.

**(e)** Dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith mewn perthynas â'r cyfnod hyd at 31 Mawrth 2024, y pwerau canlynol:-

- **(i)** pwerau i wneud ymrwymiadau newydd o gyllidebau refeniw y dyfodol hyd at y symiau a nodir ar gyfer Blaenoriaethau Newydd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol;
- **(ii)** y pwerau a'r ddyletswydd i baratoi cynlluniau i gyflawni arbedion cyllidebol refeniw fel yr awgrymir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol;
- (iii) pwerau i drosglwyddo cyllidebau rhwng prosiectau cyfalaf yn Adroddiad Cyllideb Cyfalaf 2023/24 ac ymrwymo adnoddau yn y blynyddoedd dilynol gan gydymffurfio gyda'r fframwaith cyllidebol.

**(f)** Pennu a chymeradwyo'r dangosyddion darbodus a rhai'r trysorlys sy'n amcangyfrifon a therfynau ar gyfer 2023/24 a thu hwnt fel sy'n ymddangos yn yr adroddiad Datganiad ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023/24.

(ff) Cymeradwyo'r Datganiad ar Strategaeth Rheoli'r Trysorlys am 2023/24 a Strategaeth Gyfalaf 2023/24.

(g) Cadarnhau y bydd eitemau 1(b) i (ff) yn dod yn rhan o'r fframwaith cyllidebol.

**2.** **PENDERFYNWYD** mabwysiadu a chadarnhau i bwrpas blwyddyn ariannol 2022/23 benderfyniad y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 1998, i bennu lefel y disgownt sy'n gymwys i Ddosbarth rhagnodedig A a Dosbarth rhagnodedig B o anheddau o dan Adran 12 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (a ddiwygiwyd), a ddisgrifir gan Reoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998, fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Dosbarth Rhagnodedig A | Dim Disgownt |
| Dosbarth Rhagnodedig B | Dim Disgownt |

**3.** **PENDERFYNWYD** mabwysiadu a chadarnhau i bwrpas blwyddyn ariannol 2022/23 benderfyniad y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2007 i bennu lefel disgownt sy'n gymwys i Ddosbarth rhagnodedig C o anheddau o dan Adran 12 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (fel y'i diwygiwyd), a ddisgrifir gan y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2004, fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Dosbarth Rhagnodedig C | Dim Disgownt |

**4.** **PENDERFYNWYD** dileu unrhyw ddisgownt(au) a ganiatawyd i anheddau gwag tymor hir ac anheddau a ddefnyddir yn achlysurol (a elwir fel arfer yn ail gartrefi) ac amrywio penderfyniad y Cyngor llawn a wnaed ar 28 Chwefror 2018 ac ym mlwyddyn ariannol 2023/24 a gosod swm uwch o'r Dreth Gyngor (a elwir yn Bremiwm y Dreth Cyngor) o 100% o gyfradd safonol y Dreth Gyngor ar gyfer anheddau gwag hirdymor neu ar gyfer anheddau a ddefnyddir yn achlysurol (a elwir fel arfer yn ail gartrefi) i gymhwyso swm uwch o Dreth Gyngor (a elwir yn Bremiwm y Dreth Gyngor) o 75% o dan Adrannau 12A a 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 fel y'i mewnosodwyd gan Adran 139 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

**5.** Nodi bod y Cyngor, yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 1996, wedi penderfynu na fydd yn trin unrhyw gostau a wynebir gan y Cyngor mewn rhan o'i ardal nac wrth sicrhau unrhyw ardoll neu ardoll arbennig fel costau arbennig a bod y penderfyniadau i barhau mewn grym hyd oni fyddant yn cael ei diddymu'n benodol.

**6.** Nodi bod y Pwyllgor Gwaith, yn ei gyfarfod ar 29 Tachwedd 2022, wedi cymeradwyo'r symiau a gyfrifwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn fel sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer 2022/23 a nodi ymhellach bod y Cyngor llawn, yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr 2018, wedi cymeradwyo y bydd y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn lleol yn parhau fel y mae am y blynyddoedd dilynol oni bai y caiff ei newid sylweddol. Nodwyd hefyd fod y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2018 wedi mabwysiadu a chymeradwyo Polisi Dewisol Dreth Gyngor lleol o dan Adran 13A Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 gan ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith y pŵer i

ddirymu, ailddeddfu ac/neu ddiwygio'r Polisi. Diwygiodd y Pwyllgor Gwaith y Polisi yma ar 03 Mawrth 2022.

**7.** Yn ei gyfarfod ar 29 Tachwedd 2022, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith, yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor)(Cymru) 1995 (SI19956/2561) fel y'i diwygiwyd gan SI1999/2935 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthiadau Rhagnodedig ar Anheddau)(Cymru)(Diwygio) 2004, a'r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor)(Cymru)(Diwygio) 2016, gymeradwyo'r symiau a gyfrifwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn fel sylfaen y dreth ac ar gyfer rhannau o'r ardal, am y flwyddyn 2022/23, fel a ganlyn:-

**a)** **32,819.56** yw'r swm a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith fel sylfaen y dreth gyngor Cyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn.

**b)** Y rhannau o ardal y Cyngor, sef y symiau a gyfrifwyd gan y Pwyllgor Gwaith fel y sylfaen ar gyfer treth gyngor Cyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal lle mae un neu fwy o eitemau arbennig yn berthnasol, yw fel a ganlyn:-

| **Ardaloedd Cynghorau Tref/Cymuned** | **Syflaen y Dreth 2023/24** |
|---|---:|
| Amlwch | 1,561.06 |
| Biwmares | 1,102.52 |
| Caergybi | 4,161.60 |
| Llangefni | 2,111.52 |
| Porthaethwy | 1,489.58 |
| Llanddaniel-fab | 377.55 |
| Llanddona | 418.99 |
| Cwm Cadnant | 1,203.84 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | 1,338.51 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 711.47 |
| Bodorgan | 476.72 |
| Llangoed | 690.37 |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | 645.45 |
| Llanidan | 426.02 |
| Rhosyr | 1,055.40 |
| Penmynydd | 259.29 |
| Pentraeth | 596.47 |
| Moelfre | 672.00 |
| Llanbadrig | 702.26 |
| Llanddyfnan | 531.14 |
| Llaneilian | 614.45 |
| Llannerch-y-medd | 539.14 |
| Llaneugrad | 193.38 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | 1,936.09 |
| Cylch y Garn | 411.89 |
| Mechell | 588.55 |
| Rhos-y-bol | 485.78 |
| Aberffraw | 306.64 |
| Bodedern | 429.12 |
| Bodffordd | 420.51 |
| Trearddur | 1,419.34 |
| Tref Alaw | 273.58 |
| Llanfachraeth | 237.27 |

| Ardaloedd Cynghorau Tref/Cymuned | Syflaen y Dreth 2023/24 |
|---|---|
| Llanfaelog | 1,389.80 |
| Llanfaethlu | 277.23 |
| Llanfair-yn-Neubwll | 585.82 |
| Y Fali | 1,048.41 |
| Bryngwran | 365.06 |
| Rhoscolyn | 383.28 |
| Trewalchmai | 382.46 |
| **Cyfanswm Sylfaen y Dreth** | **32,819.56** |

**8.** Bod y symiau a ganlyn bellach yn cael eu pennu gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2023/24, yn unol ag Adrannau 32 i 36 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992:-

**a)** £237,917,684 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(2) (a) i (d) y Ddeddf.

**b)** £65,279,022 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(3) (a) a (c) y Ddeddf.

**c)** £172,638,662 sef y swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm 8(a) uchod a chyfanswm 8(b) uchod, a bennwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32(4) y Ddeddf, yn gyllideb angenrheidiol ar gyfer y flwyddyn.

**ch)** £123,664,913 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y byddant yn daladwy yn ystod y flwyddyn i Gronfa'r Cyngor gyda golwg ar drethi annomestig a ail-ddosberthir, grant cynnal refeniw a grant arbennig, gan dynnu unrhyw swm a bennwyd yn unol ag Adran 33(3) y Ddeddf.

**d)** £1,492.21 sef y swm yn 8(c) uchod llai'r swm yn 8(ch) uchod, gan rannu'r cyfan â'r swm a nodir yn 7(a) uchod, a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 33(1) y Ddeddf, sef swm sylfaenol y dreth gyngor am y flwyddyn.

**dd)** £ 1,849,456 sef cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1) y Ddeddf.

**e)** £ 1,435.86 sef y swm yn 8(d) uchod llai'r canlyniad a geir wrth rannu'r swm yn 8(dd) uchod â'r swm yn 7(a) uchod, a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 34(2) y Ddeddf, sef sŵn sylfaenol y dreth gyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'r ardal lle na fo unrhyw eitem arbennig yn berthnasol.

f)

| | | **Band D cyfatebol fesul ardal gan gynnwys Cyngor Ynys Mon ac elfennau Cyngor Cymuned / Tref** |
|---|---|---|
| Amlwch | £ | 1,437.84 |
| Biwmares | £ | 1,395.45 |
| Caergybi | £ | 1,517.31 |
| Llangefni | £ | 1,495.35 |
| Porthaethwy | £ | 1,459.98 |
| Llanddaniel-fab | £ | 1,398.87 |
| Llanddona | £ | 1,387.71 |
| Cwm Cadnant | £ | 1,395.81 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 1,414.53 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | £ | 1,402.29 |

| | | |
|---|---|---|
| Bodorgan | £ | 1,392.66 |
| Llangoed | £ | 1,399.59 |
| Llangristiolus a Cherrig Ceinwen | £ | 1,379.88 |
| Llanidan | £ | 1,402.92 |
| Rhosyr | £ | 1,391.13 |
| Penmynydd | £ | 1,400.22 |
| Pentraeth | £ | 1,396.98 |
| Moelfre | £ | 1,385.91 |
| Llanbadrig | £ | 1,413.18 |
| Llanddyfnan | £ | 1,387.26 |
| Llaneilian | £ | 1,402.47 |
| Llannerch-y-medd | £ | 1,403.91 |
| Llaneugrad | £ | 1,388.16 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 1,398.78 |
| Cylch y Garn | £ | 1,384.47 |
| Mechell | £ | 1,385.28 |
| Rhos-y-bol | £ | 1,383.93 |
| Aberffraw | £ | 1,406.61 |
| Bodedern | £ | 1,402.38 |
| Bodffordd | £ | 1,398.33 |
| Trearddur | £ | 1,392.84 |
| Tref Alaw | £ | 1,392.12 |
| Llanfachraeth | £ | 1,401.48 |
| Llanfaelog | £ | 1,399.14 |
| Llanfaethlu | £ | 1,389.06 |
| Llanfair-yn-Neubwll | £ | 1,396.44 |
| Y Fali | £ | 1,412.28 |
| Bryngwran | £ | 1,407.15 |
| Rhoscolyn | £ | 1,385.73 |
| Trewalchmai | £ | 1,404.09 |

sef y symiau a geir trwy ychwanegu at y swm a geir yn 8(e) uchod, symiau'r eitem neu'r eitemau arbennig sy'n berthnasol i anheddau yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor y cyfeiriwyd atynt uchod wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn 8(b) uchod, a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith yn unol ag Adran 34(3) y Ddeddf, sef symiau sylfaenol y dreth gyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol

**Bandiau Prisio**

| | | Y Dreth Gyngor fesul Band, fesul Ardal, sy'n cynnwys elfen Cyngor Sir Ynys Môn a phraeseptau Cyngor Cymuned/Cyngor Tref | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
| Amlwch | £ | 958.56 | 1,118.32 | 1,278.08 | 1,437.84 | 1,757.36 | 2,076.88 | 2,396.40 | 2,875.68 | 3,354.96 |
| Biwmares | £ | 930.30 | 1,085.35 | 1,240.40 | 1,395.45 | 1,705.55 | 2,015.65 | 2,325.75 | 2,790.90 | 3,256.05 |
| Caergybi | £ | 1,011.54 | 1,180.13 | 1,348.72 | 1,517.31 | 1,854.49 | 2,191.67 | 2,528.85 | 3,034.62 | 3,540.39 |
| Llangefni | £ | 996.90 | 1,163.05 | 1,329.20 | 1,495.35 | 1,827.65 | 2,159.95 | 2,492.25 | 2,990.70 | 3,489.15 |
| Porthaethwy | £ | 973.32 | 1,135.54 | 1,297.76 | 1,459.98 | 1,784.42 | 2,108.86 | 2,433.30 | 2,919.96 | 3,406.62 |
| Llanddaniel-fab | £ | 932.58 | 1,088.01 | 1,243.44 | 1,398.87 | 1,709.73 | 2,020.59 | 2,331.45 | 2,797.74 | 3,264.03 |
| Llanddona | £ | 925.14 | 1,079.33 | 1,233.52 | 1,387.71 | 1,696.09 | 2,004.47 | 2,312.85 | 2,775.42 | 3,237.99 |
| Cwm Cadnant | £ | 930.54 | 1,085.63 | 1,240.72 | 1,395.81 | 1,705.99 | 2,016.17 | 2,326.35 | 2,791.62 | 3,256.89 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 943.02 | 1,100.19 | 1,257.36 | 1,414.53 | 1,728.87 | 2,043.21 | 2,357.55 | 2,829.06 | 3,300.57 |
| Llanfihangel | £ | 934.86 | 1,090.67 | 1,246.48 | 1,402.29 | 1,713.91 | 2,025.53 | 2,337.15 | 2,804.58 | 3,272.01 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgeifiog | | | | | | | | | | |
| Bodorgan | £ | 928.44 | 1,083.18 | 1,237.92 | 1,392.66 | 1,702.14 | 2,011.62 | 2,321.10 | 2,785.32 | 3,249.54 |
| Llangoed | £ | 933.06 | 1,088.57 | 1,244.08 | 1,399.59 | 1,710.61 | 2,021.63 | 2,332.65 | 2,799.18 | 3,265.71 |
| Llangristiolus & Cerrig Ceinwen | £ | 919.92 | 1,073.24 | 1,226.56 | 1,379.88 | 1,686.52 | 1,993.16 | 2,299.80 | 2,759.76 | 3,219.72 |
| Llanidan | £ | 935.28 | 1,091.16 | 1,247.04 | 1,402.92 | 1,714.68 | 2,026.44 | 2,338.20 | 2,805.84 | 3,273.48 |
| Rhosyr | £ | 927.42 | 1,081.99 | 1,236.56 | 1,391.13 | 1,700.27 | 2,009.41 | 2,318.55 | 2,782.26 | 3,245.97 |
| Penmynydd | £ | 933.48 | 1,089.06 | 1,244.64 | 1,400.22 | 1,711.38 | 2,022.54 | 2,333.70 | 2,800.44 | 3,267.18 |
| Pentraeth | £ | 931.32 | 1,086.54 | 1,241.76 | 1,396.98 | 1,707.42 | 2,017.86 | 2,328.30 | 2,793.96 | 3,259.62 |
| Moelfre | £ | 923.94 | 1,077.93 | 1,231.92 | 1,385.91 | 1,693.89 | 2,001.87 | 2,309.85 | 2,771.82 | 3,233.79 |
| Llanbadrig | £ | 942.12 | 1,099.14 | 1,256.16 | 1,413.18 | 1,727.22 | 2,041.26 | 2,355.30 | 2,826.36 | 3,297.42 |
| Llanddyfnan | £ | 924.84 | 1,078.98 | 1,233.12 | 1,387.26 | 1,695.54 | 2,003.82 | 2,312.10 | 2,774.52 | 3,236.94 |
| Llaneilian | £ | 934.98 | 1,090.81 | 1,246.64 | 1,402.47 | 1,714.13 | 2,025.79 | 2,337.45 | 2,804.94 | 3,272.43 |
| Llannerch-y-medd | £ | 935.94 | 1,091.93 | 1,247.92 | 1,403.91 | 1,715.89 | 2,027.87 | 2,339.85 | 2,807.82 | 3,275.79 |
| Llaneugrad | £ | 925.44 | 1,079.68 | 1,233.92 | 1,388.16 | 1,696.64 | 2,005.12 | 2,313.60 | 2,776.32 | 3,239.04 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 932.52 | 1,087.94 | 1,243.36 | 1,398.78 | 1,709.62 | 2,020.46 | 2,331.30 | 2,797.56 | 3,263.82 |
| Cylch y Garn | £ | 922.98 | 1,076.81 | 1,230.64 | 1,384.47 | 1,692.13 | 1,999.79 | 2,307.45 | 2,768.94 | 3,230.43 |
| Mechell | £ | 923.52 | 1,077.44 | 1,231.36 | 1,385.28 | 1,693.12 | 2,000.96 | 2,308.80 | 2,770.56 | 3,232.32 |
| Rhos-y-bol | £ | 922.62 | 1,076.39 | 1,230.16 | 1,383.93 | 1,691.47 | 1,999.01 | 2,306.55 | 2,767.86 | 3,229.17 |
| Aberffraw | £ | 937.74 | 1,094.03 | 1,250.32 | 1,406.61 | 1,719.19 | 2,031.77 | 2,344.35 | 2,813.22 | 3,282.09 |
| Bodedern | £ | 934.92 | 1,090.74 | 1,246.56 | 1,402.38 | 1,714.02 | 2,025.66 | 2,337.30 | 2,804.76 | 3,272.22 |
| Bodffordd | £ | 932.22 | 1,087.59 | 1,242.96 | 1,398.33 | 1,709.07 | 2,019.81 | 2,330.55 | 2,796.66 | 3,262.77 |
| Trearddur | £ | 928.56 | 1,083.32 | 1,238.08 | 1,392.84 | 1,702.36 | 2,011.88 | 2,321.40 | 2,785.68 | 3,249.96 |
| Tref Alaw | £ | 928.08 | 1,082.76 | 1,237.44 | 1,392.12 | 1,701.48 | 2,010.84 | 2,320.20 | 2,784.24 | 3,248.28 |
| Llanfachraeth | £ | 934.32 | 1,090.04 | 1,245.76 | 1,401.48 | 1,712.92 | 2,024.36 | 2,335.80 | 2,802.96 | 3,270.12 |
| Llanfaelog | £ | 932.76 | 1,088.22 | 1,243.68 | 1,399.14 | 1,710.06 | 2,020.98 | 2,331.90 | 2,798.28 | 3,264.66 |
| Llanfaethlu | £ | 926.04 | 1,080.38 | 1,234.72 | 1,389.06 | 1,697.74 | 2,006.42 | 2,315.10 | 2,778.12 | 3,241.14 |
| Llanfair-yn-Neubwll | £ | 930.96 | 1,086.12 | 1,241.28 | 1,396.44 | 1,706.76 | 2,017.08 | 2,327.40 | 2,792.88 | 3,258.36 |
| Y Fali | £ | 941.52 | 1,098.44 | 1,255.36 | 1,412.28 | 1,726.12 | 2,039.96 | 2,353.80 | 2,824.56 | 3,295.32 |
| Bryngwran | £ | 938.10 | 1,094.45 | 1,250.80 | 1,407.15 | 1,719.85 | 2,032.55 | 2,345.25 | 2,814.30 | 3,283.35 |
| Rhoscolyn | £ | 923.82 | 1,077.79 | 1,231.76 | 1,385.73 | 1,693.67 | 2,001.61 | 2,309.55 | 2,771.46 | 3,233.37 |
| Trewalchmai | £ | 936.06 | 1,092.07 | 1,248.08 | 1,404.09 | 1,716.11 | 2,028.13 | 2,340.15 | 2,808.18 | 3,276.21 |

**9.** Dylid nodi, ar gyfer y flwyddyn 2023/24, fod Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi nodi'r symiau a ganlyn mewn praesept a roddwyd i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, ar gyfer pob un o'r categorïau o anheddau a ddangosir isod:-

**Awdurdod Praeseptio** **Bandiau Prisio**

| | | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru | £ | 222.06 | 259.07 | 296.08 | 333.09 | 407.11 | 481.13 | 555.15 | 666.18 | 777.21 |

**10.** Wedi pennu'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau yn 8(ff) a 9 uchod, bod y Cyngor, yn unol ag Adran 30(2) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, drwy hyn yn pennu'r symiau a ganlyn ar gyfer y dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn 2022/23 ar gyfer pob categori o anheddau a ddangosir isod:-

| | | Y Dreth Gyngor fesul Band, fesul Ardal, sy'n cynnwys elfen Cyngor Sir Ynys-Mon, Praeseptau Cyngor Cymunedol / Tref a Phraesept Heddlu Gogledd Cymru | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
| Amlwch | £ | 1,180.62 | 1,377.39 | 1,574.16 | 1,770.93 | 2,164.47 | 2,558.01 | 2,951.55 | 3,541.86 | 4,132.17 |
| Biwmares | £ | 1,152.36 | 1,344.42 | 1,536.48 | 1,728.54 | 2,112.66 | 2,496.78 | 2,880.90 | 3,457.08 | 4,033.26 |
| Caergybi | £ | 1,233.60 | 1,439.20 | 1,644.80 | 1,850.40 | 2,261.60 | 2,672.80 | 3,084.00 | 3,700.80 | 4,317.60 |
| Llangefni | £ | 1,218.96 | 1,422.12 | 1,625.28 | 1,828.44 | 2,234.76 | 2,641.08 | 3,047.40 | 3,656.88 | 4,266.36 |
| Porthaethwy | £ | 1,195.38 | 1,394.61 | 1,593.84 | 1,793.07 | 2,191.53 | 2,589.99 | 2,988.45 | 3,586.14 | 4,183.83 |
| Llanddaniel-fab | £ | 1,154.64 | 1,347.08 | 1,539.52 | 1,731.96 | 2,116.84 | 2,501.72 | 2,886.60 | 3,463.92 | 4,041.24 |
| Llanddona | £ | 1,147.20 | 1,338.40 | 1,529.60 | 1,720.80 | 2,103.20 | 2,485.60 | 2,868.00 | 3,441.60 | 4,015.20 |
| Cwm Cadnant | £ | 1,152.60 | 1,344.70 | 1,536.80 | 1,728.90 | 2,113.10 | 2,497.30 | 2,881.50 | 3,457.80 | 4,034.10 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 1,165.08 | 1,359.26 | 1,553.44 | 1,747.62 | 2,135.98 | 2,524.34 | 2,912.70 | 3,495.24 | 4,077.78 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | £ | 1,156.92 | 1,349.74 | 1,542.56 | 1,735.38 | 2,121.02 | 2,506.66 | 2,892.30 | 3,470.76 | 4,049.22 |
| Bodorgan | £ | 1,150.50 | 1,342.25 | 1,534.00 | 1,725.75 | 2,109.25 | 2,492.75 | 2,876.25 | 3,451.50 | 4,026.75 |
| Llangoed | £ | 1,155.12 | 1,347.64 | 1,540.16 | 1,732.68 | 2,117.72 | 2,502.76 | 2,887.80 | 3,465.36 | 4,042.92 |
| Llangristiolus & Cerrig Ceinwen | £ | 1,141.98 | 1,332.31 | 1,522.64 | 1,712.97 | 2,093.63 | 2,474.29 | 2,854.95 | 3,425.94 | 3,996.93 |
| Llanidan | £ | 1,157.34 | 1,350.23 | 1,543.12 | 1,736.01 | 2,121.79 | 2,507.57 | 2,893.35 | 3,472.02 | 4,050.69 |
| Rhosyr | £ | 1,149.48 | 1,341.06 | 1,532.64 | 1,724.22 | 2,107.38 | 2,490.54 | 2,873.70 | 3,448.44 | 4,023.18 |
| Penmynydd | £ | 1,155.54 | 1,348.13 | 1,540.72 | 1,733.31 | 2,118.49 | 2,503.67 | 2,888.85 | 3,466.62 | 4,044.39 |
| Pentraeth | £ | 1,153.38 | 1,345.61 | 1,537.84 | 1,730.07 | 2,114.53 | 2,498.99 | 2,883.45 | 3,460.14 | 4,036.83 |
| Moelfre | £ | 1,146.00 | 1,337.00 | 1,528.00 | 1,719.00 | 2,101.00 | 2,483.00 | 2,865.00 | 3,438.00 | 4,011.00 |
| Llanbadrig | £ | 1,164.18 | 1,358.21 | 1,552.24 | 1,746.27 | 2,134.33 | 2,522.39 | 2,910.45 | 3,492.54 | 4,074.63 |
| Llanddyfnan | £ | 1,146.90 | 1,338.05 | 1,529.20 | 1,720.35 | 2,102.65 | 2,484.95 | 2,867.25 | 3,440.70 | 4,014.15 |
| Llaneilian | £ | 1,157.04 | 1,349.88 | 1,542.72 | 1,735.56 | 2,121.24 | 2,506.92 | 2,892.60 | 3,471.12 | 4,049.64 |
| Llannerch-y-medd | £ | 1,158.00 | 1,351.00 | 1,544.00 | 1,737.00 | 2,123.00 | 2,509.00 | 2,895.00 | 3,474.00 | 4,053.00 |
| Llaneugrad | £ | 1,147.50 | 1,338.75 | 1,530.00 | 1,721.25 | 2,103.75 | 2,486.25 | 2,868.75 | 3,442.50 | 4,016.25 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 1,154.58 | 1,347.01 | 1,539.44 | 1,731.87 | 2,116.73 | 2,501.59 | 2,886.45 | 3,463.74 | 4,041.03 |
| Cylch y Garn | £ | 1,145.04 | 1,335.88 | 1,526.72 | 1,717.56 | 2,099.24 | 2,480.92 | 2,862.60 | 3,435.12 | 4,007.64 |
| Mechell | £ | 1,145.58 | 1,336.51 | 1,527.44 | 1,718.37 | 2,100.23 | 2,482.09 | 2,863.95 | 3,436.74 | 4,009.53 |
| Rhos-y-bol | £ | 1,144.68 | 1,335.46 | 1,526.24 | 1,717.02 | 2,098.58 | 2,480.14 | 2,861.70 | 3,434.04 | 4,006.38 |
| Aberffraw | £ | 1,159.80 | 1,353.10 | 1,546.40 | 1,739.70 | 2,126.30 | 2,512.90 | 2,899.50 | 3,479.40 | 4,059.30 |
| Bodedern | £ | 1,156.98 | 1,349.81 | 1,542.64 | 1,735.47 | 2,121.13 | 2,506.79 | 2,892.45 | 3,470.94 | 4,049.43 |
| Bodffordd | £ | 1,154.28 | 1,346.66 | 1,539.04 | 1,731.42 | 2,116.18 | 2,500.94 | 2,885.70 | 3,462.84 | 4,039.98 |
| Trearddur | £ | 1,150.62 | 1,342.39 | 1,534.16 | 1,725.93 | 2,109.47 | 2,493.01 | 2,876.55 | 3,451.86 | 4,027.17 |
| Tref Alaw | £ | 1,150.14 | 1,341.83 | 1,533.52 | 1,725.21 | 2,108.59 | 2,491.97 | 2,875.35 | 3,450.42 | 4,025.49 |
| Llanfachraeth | £ | 1,156.38 | 1,349.11 | 1,541.84 | 1,734.57 | 2,120.03 | 2,505.49 | 2,890.95 | 3,469.14 | 4,047.33 |
| Llanfaelog | £ | 1,154.82 | 1,347.29 | 1,539.76 | 1,732.23 | 2,117.17 | 2,502.11 | 2,887.05 | 3,464.46 | 4,041.87 |
| Llanfaethlu | £ | 1,148.10 | 1,339.45 | 1,530.80 | 1,722.15 | 2,104.85 | 2,487.55 | 2,870.25 | 3,444.30 | 4,018.35 |
| Llanfair-yn-Neubwll | £ | 1,153.02 | 1,345.19 | 1,537.36 | 1,729.53 | 2,113.87 | 2,498.21 | 2,882.55 | 3,459.06 | 4,035.57 |
| Y Fali | £ | 1,163.58 | 1,357.51 | 1,551.44 | 1,745.37 | 2,133.23 | 2,521.09 | 2,908.95 | 3,490.74 | 4,072.53 |
| Bryngwran | £ | 1,160.16 | 1,353.52 | 1,546.88 | 1,740.24 | 2,126.96 | 2,513.68 | 2,900.40 | 3,480.48 | 4,060.56 |
| Rhoscolyn | £ | 1,145.88 | 1,336.86 | 1,527.84 | 1,718.82 | 2,100.78 | 2,482.74 | 2,864.70 | 3,437.64 | 4,010.58 |
| Trewalchmai | £ | 1,158.12 | 1,351.14 | 1,544.16 | 1,737.18 | 2,123.22 | 2,509.26 | 2,895.30 | 3,474.36 | 4,053.42 |

## 11. RHANNU SWYDDI AR Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 2 Mawrth, 2023 i'r Cyngor ei gymeradwyo.

Dywedodd Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid fod Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn cynnwys gofyniad i awdurdodau lleol gynnwys trefniadau sy'n galluogi dau neu ragor o gynghorwyr i rannu swydd ar Bwyllgor Gwaith. Tra bod Cyfansoddiad y Cyngor yn cynnwys darpariaeth i'r Arweinydd rannu swydd ac i ddau neu fwy o Gynghorwyr rannu swydd fel Aelodau Gweithredol: nid oes darpariaeth benodol ar gyfer rhannu rôl y Dirprwy Arweinydd.

**PENDERFYNWYD cytuno ir newidiadau Cyfansoddiadol er mwyn:-**

- **caniatáu i un neu ragor o aelodau rannu swydd fel arweinydd, dirprwy arweinydd ac fel aelodau portffolio o'r Pwyllgor Gwaith;**
- **caniatáu i'r uchafswm o aelodau a ganiateir ar y Pwyllgor Gwaith gael ei ddiwygio i adlewyrchu'r uchafswm statudol pan fo aelodau o'r Pwyllgor Gwaith yn rhannu swydd; a**
- **manylu ar y trefniadau mewn perthynas â chworwm a phleidleisio pan fo aelodau o'r Pwyllgor Gwaith yn rhannu swydd; a:-**

  **(a) yn unol â'r geiriad yn Atodiad 1 yn yr adroddiad;**
  **(b) unrhyw newidiadau sydd eu hangen o ganlyniad i'r penderfyniad hwn.**

**Os bydd unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud drwy drefniadau rhannu swyddi a/neu nifer yr unigolion sy'n derbyn cyflog uwch oherwydd trefniadau rhannu swyddi, bydd y Cyngor yn hysbysu Panel Taliadau Annibynnol Cymru (IRPW) ac yn rhoi cyhoeddusrwydd prydlon i hynny.**

## 12. CYNLLUN Y CYNGOR 2023-2028

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 2 Mawrth, 2023 i'r Cyngor ei gymeradwyo.

Dywedodd Aelod Portffolio Cyllid, Busnes y Cyngor a Phrofiad Cwsmeriaid fod yr adroddiad yn benllanw 12 mis o waith paratoi, ac yn ystod y cyfnod yma, mae wedi bod yn broses o ddeall beth yr hoffai staff, cynghorwyr a thrigolion Ynys Môn weld y Cyngor yn canolbwyntio arno dros y pum mlynedd nesaf, yn ystod cyfnod Cynllun y Cyngor. Cafodd y broses ymgynghori ei hamlygu o fewn yr adroddiad.

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at nodau ac amcanion strategol lefel uchel y Cyngor sef:-

- Y Gymraeg – mwy o gyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith
- Gofal Cymdeithasol a Llesiant – darparu'r cymorth cywir ar yr adeg cywir
- Addysg – sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol
- Tai – sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref
- Economi – hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys
- Newid Hinsawdd – ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at fod yn sefydliad sero net erbyn 2030.

Amlinellodd y Prif Weithredwr y bydd Cynllun y Cyngor yn gosod cyfeiriad, yn dylanwadu ac yn llywio gwaith a phenderfyniadau staff ac aelodau etholedig dros y 5 mlynedd nesaf i alluogi'r Ynys i fod yn ffyniannus a sicrhau y gall pawb ffynnu.

Dywedodd y Cynghorydd Aled M Jones fod angen sicrhau bod darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus ar yr Ynys yn ddigonol i alluogi trigolion i allu mynd i'r gwaith ac yn benodol y llwybrau bysiau y mae'r Awdurdod yn gyfrifol amdanynt ar yr Ynys.

Mewn ymateb, dywedodd Aelod Portffolio Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff fod yr Awdurdod yn cynnal adolygiad o ddarpariaeth trafnidiaeth ar draws yr Ynys gyda'r nod o hybu pobl i gerdded, defnyddio cerbydau trydan, trafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau bysiau cymunedol.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023 – 2028.**

## 13. DATGANIAD POLISI TÂL 2023

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid i'r Cyngor gan Aelod Portffolio Cyllid, Busnes y Cyngor a Phrofiad Cwsmeriaid.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Datganiad ar Bolisi Tâl y Cyngor ar gyfer 2023.**

## 14. SEFYDLU PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO NEWYDD I GYNGOR SIR YNYS MÔN

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 2 Mawrth, 2023 i'r Cyngor ei gymeradwyo.

Dywedodd Aelod Portffolio Cynllunio a Newid Hinsawdd fod penderfyniad wedi ei wneud gan Gyngor Môn a Gwynedd i derfynu'r cytundeb cydweithredu ar faterion polisi cynllunio ar 31 Mawrth, 2023. Bydd yn rhaid i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd presennol gael ei ddiddymu a bydd angen i'r awdurdodau perthnasol wneud trefniadau newydd i gyfrannu tuag at greu Cynllun Datblygu Lleol newydd a gwaith cynllunio cysylltiedig.

**Penderfynwyd:-**

- **Sefydlu Pwyllgor Polisi Cynllunio newydd ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn.**
- **Diwygio'r Cyfansoddiad i ddiddymu'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd a dirprwyo pwerau i'r Swyddog Monitro i weithredu'r newidiadau yma.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.55 pm

**CYNGHORYDD DAFYDD ROBERTS**
**CADEIRYDD**

# ADRODDIAD BLYNYDDOL ARWEINYDD,

# CYNG. LLINOS MEDI

**Rhagair**

Mae'n anodd credu ein bod flwyddyn i mewn i'r weinyddiaeth Newydd. Rydym fel yr arfer wedi cael blwyddyn brysur fel awdurdod. Byddaf yn trio crynhoi'r prif lwyddiannau yn fy adroddiad, ond mae'n bwysig pwysleisio bod llawer mwy o waith yn mynd rhagddo yma yn y Cyngor ac mae'n amhosib cyflwyno'r cyfan mewn adroddiad.

Cyn cychwyn yr adroddiad hoffwn ddweud gair o ddiolch i bawb sy'n gweithio i sicrhau llwyddiant yr awdurdod ac oherwydd hynny yn gwella ansawdd bywyd yma ar yr ynys. Rydym yn ffodus iawn ein bod yn drigolion 'gwlad y medra' a dyma yw'n ethos ni bellach, ein bod yn medru cyflawni drwy gydweithio yn aeddfed a dangos i Gymru gyfan ein grym a'n gallu fel ynys fach.

**Economi**

Rydym wedi derbyn newyddion trychinebus o drist yn ystod y flwyddyn gyda chwmnïau yn cau oherwydd yr amgylchedd heriol, hynny yw, costau ynni, chwyddiant ac ansicrwydd cyffredinol yn Economi yn y Deyrnas Unedig. Rwyf eisiau yn fy adroddiad estyn fy nghydymdeimlad dwysaf gyda'r unigolion a'u teuluoedd sydd wedi talu'r pris llawn am y sefyllfa bresennol. Hoffwn hefyd fachu ar y cyfle i ddiolch i'r holl bartneriaid ddoth at ei gilydd yn sydyn iawn i ymateb i'r newyddion a rhoi Cefnogaeth uniongyrchol i'r gweithwyr. Cefais gyfarfod gydag un Gweinidog o San Steffan a nodwyd and oedd o erioed wedi gweld esiampl ble roedd y gefnogaeth yn ei le mor sydyn. Mae'n diolch i staff y Cyngor a'r partneriaid am sicrhau'r gorau ar amser hynod anodd.

**Unedau busnes**

Er y newyddion trist, rydym fel Cyngor wedi llwyddo i ddatblygu mwy o unedau busnes gyda 6 uned busnes Newydd yn Llangefni wedi'i adeiladu a'i gosod. Rydym hefyd yn y broses o ddatblygu 7 uned busnes arall yng Nghaergybi.

**Ynys Ynni**

Mae'r rhaglen wedi parhau gyda nifer o gynlluniau yn gwneud cynnydd megis Morlais, ble welwyd Gwaith paratoi safle yn mynd rhagddo. Hwb Hydrogen Caergybi yn derbyn cefnogaeth bellach gan y sector breifat. Rydym yn parhau yn y drafodaeth am ddyfodol safle Wylfa ac yn cyfrannu'n Brydeinig I'r polisi Ynni. Nifer o gynlluniau solar ac ynni'r môr yn galw ar amser y swyddogion er mwyn sicrhau bo buddiannau'r ynys yn cael eu diogelu wrth sicrhau ein rhan yn ddiogelwch ynni.

**Cyllid grantiau**

Rydym yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi gweld newid yn y modd mae arian grant yn cael ei wasgaru sydd wedi creu pwysau ychwanegol 'I'r Cyngor. Hynny yw, Gronfa Ffyniant Cymunedol, Cronfa Rhannu Ffyniant a'r Gronfa Gwasdadu. Hoffwn longyfarch y Cyngor are u llwyddiant yn tynnu arian i lawr i'r ynys ar ben eu Gwaith dydd i ddydd. Mae'n amhosib rhoi i eiriau'r pwysau ychwanegol mae hyn yn creu ar dîm yr economi ond hefyd yn yr Adran Gyllid.

**Canol Trefi**

Rydym wedi mynd allan i ymgynghori ar Strategaeth Ganol Trefi, bydd yr wybodaeth hon yn ein galluogi i ymgeisio am arian ychwanegol i gyflawni'r weledigaeth unwaith bydd llais trigolion a busnesau Môn wedi ymateb.

**Gogledd yr ynys**

Rydym wedi gwneud llawr o waith yng Ngogledd yr ynys er mwyn cyflawni'r cynlluniau sydd yng nghynllun adfywio gogledd Môn. Mae'r strategaeth arwyddion bellach wedi'i chyflawni yn dilyn adborth gan y Cyngor Tre a bydd gosod yr arwyddion yn digwydd yn 23/34. Agorwyd Hwb gyda Môn CF yng nghanol dref Amlwch yn Fehefin 2022. Hoffwn ddiolch I NDA am yr arian grant er mwyn sicrhau cyflawniad y gwaith.

**Porthladd Rhydd**

Rydym wedi llwyddo fel Cyngor ar y cyd efo Stena i gyflawni'r cam cyntaf i greu Porthladd Rhydd ar dir yng Nghaergybi, Rhosgoch ac Msparc yng Ngaerwen. Unwaith yn rhagor roedd hyn yn waith ychwanegol ar ben y swyddogaeth dydd i ddydd i staff y Cyngor a hoffwn eu llongyfarch am gyflawni'r cais. Nawr rydym yn y broses o roi'r achos busnes i mewn er mwyn rhyddhau'r cyllid i gychwyn ar y Gwaith.

**Arfor**

Rydym wedi sicrhau arian ychwanegol I gynllun Arfor bydd yn sicrhau grantiau i'r economi a chryhau'r Gymraeg.

## Gwasanaethau Cymdeithasol

**Oedolion**

Rydym eleni wedi derbyn canlyniad y cyfrifiad sydd wedi amlygu'r newid demograffeg ar yr ynys gyda nifer o oedolion hyn yr ynys yn cynyddu. Mae hyn yn rhoi mwy o bwyslais ar greu gwasanaethau oedolion o ansawdd ac yn hyrwyddo annibyniaeth o fewn ein cymunedau. Dyma rhai o lwyddiannau'r flwyddyn -

**Adroddiad CIW – Cadarnhaol**

Yn ystod mis Medi cafodd yr Adran adroddiad cadarnhaol iawn gan CIW yn amlygu cynnydd yn y modd mae gwasanaethau yn cael ei darparu. Mae hyn yn rhoi hyder i ni fel Awdurdod yn ystod cyfnod heriol ym maes gwasanaethau cymdeithasol.

**Ynys Oed Cyfeillgar**

Cynhaliwyd cynhadledd i roi sylw i weithgareddau a phartneriaethau adeiladol gyda mudiadau 3ydd Sector ar Ynys Môn. Braf oedd cael canmoliaeth gan Gomisiynydd Pobl Hyn am y gwaith partneriaeth gadarn sydd yn digwydd ar yr ynys.

**Cyd Gronfa Achosion Anabledd Dysgu**

Mae'r Cyngor wedi cyd weithio gyda'r Bwrdd Iechyd i sefydlu cronfa ar y cyd i ariannu achosion cymhleth yn y maes anabledd dysgu gan sicrhau fod gwasanaethau yn cael ei chydgomisiynu. Bydd hwn yn cael ei weld fel arfer da drwy'r gogledd.

**Tai Gofal Ychwanegol**

Cadarnhad o fwriad i symud ymlaen i ddatblygu 3ydd cynllun tai gofal ychwanegol ar yr ynys. Bydd hyn eto yn cyfrannu at yr her newid demograffeg yr ynys.

**Adolygiad o Weithgareddau Dydd**

Cwblhawyd adolygiad annibynnol o weithgareddau er mwyn ceisio rhoi cyfeiriad o ran datblygu gwasanaethau at y dyfodol a llunio cyswllt agosach gyda hybiau cymunedol.

**Tai a Chefnogaeth**

Rydym wedi dadansoddi anghenion defnyddwyr at y dyfodol ac yn gweithio ar gynlluniau i foderneiddio a thrawsnewid a gwella ansawdd tai. Bydd datblygiad cyntaf yn Llangefni yn barod yn ystod yr Haf a bydd datblygiadau pellach dros y blynyddoedd nesaf.

**Cytundeb Gofal Cartref**

Mae cytundeb darparu wedi adolygu a'i ail dendro a bydd cytundeb diwygiedig mewn lle o fis Mehefin.

**Plant a Theuluoedd**

Rydym yn ymwybodol yr her mae'r Gwasanaethau Plant yn ei wynebu'n ddyddiol ac rydym yn falch o'r siwrne gwella gadarnhaol. Mae'n hanfodol bwysig ein bod yn sicrhau bo'r plant sydd angen eu diogelu yn derbyn y gefnogaeth a bo'r teuluoedd yn gallu troi at ein gwasanaethau am gefnogaeth amserol. Dyma rhai o lwyddiannau'r flwyddyn

**Cartrefi Clyd Môn**

Rydym wedi derbyn Gwobrau yng Ngwobrau Plant a Phobl Ifanc Nawr 2022 am y prosiect arloesol sy'n caniatáu i blant Ynys Môn barhau i fyw ar Ynys Môn pan ddônt i ofal yr Awdurdod Lleol. Mae'r cynllun yma yn un i ni gyd ymfalchïo ynddo. Mae'n plant yn haeddu'r gorau.

**Agor ein 3ydd Cartref Clyd**

Rydym yn edrych ymlaen at groesawu o leiaf dau o'n plant mewn gofal i'w aelwyd newydd. Rhywle iddyn ei alw'n gartref yng nghymunedau Môn.

**Arolygaeth Gofal Cymru**

Fe wnaeth Arolygiaeth Gofal Cymru gynnal Gwiriad Sicrwydd a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ganfod bod y Cyngor Sir wedi parhau i gyflawni ei ddyletswyddau statudol yn ystod amgylchiadau hynod heriol.

**Recriwtio a chadw Gofalwyr Maeth**

Mae tîm Maethu Cymru Môn wedi parhau i recriwtio gofalwyr maeth newydd i ymuno â'n teulu maethu ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae 3 aelwyd maethu newydd wedi'u cymeradwyo.  Rydym hefyd wedi bod yn cynnig nifer o ddiwrnodau gweithgaredd dros y 12 mis diwethaf ar draws Ynys Môn i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau i'n Plant sy'n Derbyn Gofal a hefyd i gynnig cefnogaeth anffurfiol i'n Gofalwyr Maeth.

**Addysgu ein plant mewn gofal**

Rydym yn falch o fod gyda Llywodraeth Cymru fel maes peilot wrth ddarparu cefnogaeth i'n Plant sy'n Derbyn Gofal a gwella eu cyrhaeddiad addysg a'u sgiliau cymdeithasol.

**Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol – Pobl Ifanc ar eu pen eu hunain sy'n Ceisio Lloches**

Rydym wedi cefnogi nifer o bobl ifanc sydd wedi cyrraedd Ynys Môn naill ai drwy'r porthladd neu drwy'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol.

**Ynys Ymwybyddiaeth Trawma**

Mae pob un o ysgolion Ynys Môn wedi derbyn hyfforddiant ar sail trawma ac mae'r uchelgais i fod yn Ynys Ymwybyddiaeth o Drawma erbyn 2025 ar y gweill.  Mae staff o Blant a Theuluoedd, Gwasanaethau Ieuenctid, Canolfannau Hamdden a'r trydydd sector wedi cael eu hyfforddi a bydd hyn yn ein galluogi ni fel Ynys i fod yn fwy ymwybodol o'r effeithiau y mae trawma yn eu cael ar ein plant.

**Hamdden**

Rydym fel Awdurdod yn falch iawn o’n gwasanaeth hamdden ac mae presenoldeb tîm Môn Actif ar hyd a lled yr ynys yn sicrhau cyfleoedd i bawb o bob oed ymgymryd ag ymarfer corff. Rhai o lwyddianau’r flwyddyn .

**Buddsoddi**

Rydym wedi parhau i fuddsoddi yn ein canolfannau hamdden yn y flwyddyn ddiwethaf (ac eleni) yn cynnwys gwaith toi ym Mhlas Arthur a Caergybi yn ogystal â gwaith moderneiddio'r caffi, toiledau’r dderbynfa ac ystafell newid anabl y pwll nofio yn Amlwch. Yn ogystal â hyn mae gwaith arbed ynni o ran gosod ffenestri newydd, gwaith insiwleiddio wedi cymryd lle. Rydym hefyd wedi rhoi ystafell ffitrwydd newydd yng Nghanolfan Hamdden David Hughes.

**Caeau 3G**

Mi wnaethom ni greu cae 3G maint 7 bob ochr yn Amlwch. Rydym wedi derbyn grant er mwyn creu cae 3G 7 bob ochr a chae 2G 7 bob ochr yn Ysgol Uwchradd Bodedern.

**Cynnydd defnydd**

Mae ffigwr defnydd ein canolfannau hamdden eleni wedi cyrraedd lefel uwch na cyn COVID sef 539,031 gyda dros 400 o blant yn ychwanegol yn ein gwersi nofio wythnosol. Mae hyn yn hanfodol bwysig os yr ydym am weld ynys sy'n iach a ffyniannus.

**Cydweithio Addysg a'r cymunedau**

Mae'r tîm Datblygu Chwaraeon wedi gwneud gwaith gwych yn ein hysgolion a chymuned yn cynnwys creu ardal chwaraeon yn Sioe Mon, sesiynnau "Swim Safe" ar gyfer ysgolion yn Bae Trearddur, a llu o weithgareddau eraill er mwyn cadw ein plant a phobl ifanc yn actif.

**Cydweithio gofal ac iechyd**

Mae'r tîm Cynllun Cyfeirio i Ymarfer yn parhau i wneud gwaith gwych yn cefnogi ein cymuned yn cynnwys arwain ar waith Dementia Actif Môn a chreu sesiynau ar gyfer pobl dros 60 oed.

**Addysg**

Roedd 2022 yn flwyddyn hanesyddol i ni yn Ynys Môn, cawsom adroddiad Estyn gwych oedd yn cymryd lle adroddiad beirniadol pan fu'r awdurdod i'w harolygu'n flaenorol. Pleser oedd darllen canmoliaeth am arweinyddiaeth gadarn. Roedd cyfeiriad at arfer dda yn yr adroddiad yn wrthgyferbyniad llwyr i'r adroddiad blaenorol. Balchder enfawr o'r tîm oedd gennyf yng nghyfarfod adborth Estyn yn clywed y gydnabyddiaeth o'r gwaith da yn yr awdurdod ac yn amlygu'r siwrne wella rydym wedi bod arno. Hoffwn ddiolch i'r ysgolion i gyd, yr adran Addysg a'r Cyngor I gyd am eu cyfraniad i'r llwyddiant.

**Cytundeb Cydweithio**

Rydym bellach wedi arwyddo cytundeb cydweithio gyda Choleg Llandrillo Menai ar ddechrau 2023. Mae hyn yn rhoi cyfle i ni gryfhau'r perthynas sy'n bodoli er lles addysgu pobl ifanc Môn.

**Agor ysgol Corn Hir**

Cawsom gyfle anhygoel i fynychu ysgol Corn Hir ar ddiwedd mis Mawrth cyn i'r plant gychwyn ar ôl Pasg. Roedd cael gweld y weledigaeth i roi'r cyfleoedd gorau i'n plant a staff yn cael ei wireddu yn wych. Braf hefyd oedd clywed y geiriau positif gan y gymuned am yr adnoddau a'r cyfleoedd roeddynt yn gweld yn yr adeilad newydd.

**Swyddi allweddol a strategol**

Rydym fel awdurdod wedi llwyddo i ddenu Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc newydd hefo profiad eang o'r byd Addysg. Mae cyfleoedd i weithio yn fwy strategol wedi ei fanteisio arno hefyd e.e. Prif Archifydd bellach yn Uwch Reolwr Archifa, Amgueddfeydd ag Oriel. Hefyd, mae'r rôl uwch Reolwr Llesiant wedi ei addasu i fod yn Uwch Reolwr Iechyd, Llesiant a Diogelu er mwyn gallu ymateb i feysydd twf penodol ym myd addysg. Yn olaf, er mwyn gweithio mwyn dull mwy integredig, mae Rheolwr Gwasanaeth Addysg Plant Mewn Gofal, Ieuenctid a Lles Plant a Phobol Ifanc yn aelod o Uwch Dim Arweinyddiaeth y Gwasanaeth Dysgu a Gwasanaeth Phlant a Theuluoedd.

**Cinio Am Ddim**

Rydym wedi sicrhau, gyda'r Adran Eiddo, fod plant ym mhob ysgol yn Ynys Môn yn y Blynyddoedd Derbyn, Blwyddyn 1 a 2 i gyd yn gallu derbyn cinio ysgol am ddim drwy'r cynllun cenedlaethol newydd.

**Ysgolion Bro**

Rydym wedi manteisio ar y grant Ysgolion Bro i fuddsoddi £390k ar draws 16 ysgol er mwyn sicrhau gwell defnydd cymunedol. Hefyd yn cyflogi dau swyddog ymgysylltu teuluol i gefnogi ardaloedd penodol ar yr ynys.

**Y Gymraeg**

Rydym fel Cyngor wedi creu Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg 2022-32 sydd bellach wedi ei fabwysiadu ag yn weithredol. Mae strwythur clir rhanbarthol-sirol–dalgylchol wedi ei sefydlu ar gyfer Y Gymraeg. Mae'r Ganolfan Iaith (Moelfre a Cybi) wedi cynnal a throchi 120 o ddisgyblion dros y flwyddyn. Bydd aelodau'r tîm hefyd yn cefnogi 89 newydd-ddyfodwyr ar ôl mynychu'r Ganolfan drwy gynllun ôl-ofal er mwyn sicrhau parhad mewn datblygiad iaith.

**Archifau a'r Oriel**

Mae'r Archifau wedi cyflwyno ei gais achredu ac mae'r ddau wasanaeth wedi creu Cytundeb Lefel Gwasanaeth newydd er mwyn cefnogi ysgolion gyda'r cwricwlwm newydd, gwella gwerth am arian a chynyddu ymwelwyr. Mae'r Oriel hefyd wedi bod yn hynod o lwyddiannus wrth ail-dendro'r caffi i gael ei defnyddio gan gwmni lleol

**Llyfrgelloedd**

Rydym wedi datblygu fwy o gyfleoedd addysg oedolion ar draws yr ynys er mwyn ymateb i flaenoriaeth "cenedl o ail gyfle" Llywodraeth Cymru. Hefyd, mae'r Llyfrgelloedd wedi creu Cytundeb Lefel Gwasanaeth newydd er mwyn cefnogi ysgolion gyda'r cwricwlwm newydd.

## Gwasanaeth Tai

Hoffwn ar gychwyn y darn hwn talu teyrnged i'r cyn deilydd portffolio, Alun Mummery. Roedd ei ymrwymiad a'i frwdfrydedd tuag at y gwasanaeth yn amlwg i bawb. Mae'r hyn rwyf am adrodd yn yr isod yn ddiolch iddo am ei waith diflino.

### Costau Byw

Mae'r gwasanaeth Tai ar y cyd gyda'r Adran gyllid wedi cyflawni tasg enfawr wrth sicrhau bo'r gefnogaeth a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru wedi mynd i'r unigolion oedd wir angen. Hynny o'n rhieni maeth i rai gyda chyflyrau iechyd yr arenau. Hefyd o gefnogaeth costau ynni i gefnogi banciau bwyd. Rydym yn ffodus iawn o'r gwaith partneriaeth rhwng holl asiantaethau sydd ar yr ynys er mwyn diogelu'r rhai sydd wir mewn angen.

### Ffoaduriaid Wcráin

Rydym fel ynys wedi croesawu 89 o bobl a phlant o'r Wcráin i'w cartrefi fel ymateb i'r Rhyfel yn Wcráin. Mae'r Adran Dai wedi rhoi cefnogaeth i deuluoedd ac unigolion.

### Digartrefedd

Mae'r argyfwng digartrefedd yn effeithio ni yma ar yr ynys hefyd gyda 85 o unigolion yn cael eu cartrefu mewn llety argyfwng sydd 6 gwaith mwy na'r niferoedd cyn Cofid. Mae 1,002 o bobl wedi cael cefnogaeth drwy Grant Cymorth Tai er mwyn helpu i atal neu ddelio gyda digartrefedd.

### Tai yn ôl i ddefnydd.

Mae 80 o dai gwag wedi dod yn ôl i ddefnydd ers mis Ebrill flwyddyn ddiwethaf gyda 28 o heini yn derbyn grant i brynwyr tro cyntaf gan ddefnyddio arian o'r Premiwm Treth Cyngor. Rydym hefyd wedi creu 3 o gartrefi i brynwyr tro cyntaf yn ystod y cyfnod, 1 yn Nwyran a 2 ym Mhenmon.

### Polisi rhannu ecwiti

Rydym wedi lawnsio Cynllun Cymorth Prynu Môn i roi  cymorth i brynwyr tro cyntaf i brynu cartref yma ar yr ynys drwy ddefnydd y premiwm treth Cyngor.

### Prynu ac adeiladu

Rydym wedi prynu 17 o gyn tai Cyngor yn ôl ers Mis Mai 2022.  Rydym wedi adeiladu 34 o Dai Cyngor newydd sef Erw Lon yr Ysgol, Llanfachraeth - 8 a Stad Ysgol Llaingoch - 26. Rydym ar safle yn datblygu ar hyn o bryd yng Nghysgod yr Eglwys, Biwmares - 6 fflat, Plas Alltran, Caergybi - 4 fflat, Parc y Coed, Llangefni - 14  a Llys Llwydiarth, Pentraeth - 10.

## Hinsawdd a'r Amgylchedd

Rydym wedi datgan ein bwriad i leihau Carbon ers nifer o flynyddoedd ac yn cymryd camau breision fel awdurdod. Mae'r Adran Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff wedi chwarae rhan flaenllaw yn cyflawni'r nod.

### Gwireddu Cynllun Re-Fit

Rydym wedi datblygu systemau arbed ynni a lleihau allyriadau carbon adeiladau Cyhoeddus drwy osod Air Source Heat pumps mewn adeiladau'r Cyngor a gosod paneli solar mewn sawl amryw o safleoedd.

### Pwyntiau Gwefru Trydan

Rydym wedi lleoli pwyntiau gwefru mewn nifer o leoliadau'r Cyngor, ond hefyd wedi cydweithio gyda Menter Môn a chymunedau'r ynys er mwyn lleoli rhai yn ein pentrefi a threfi.

### Cerbydau trydan

Rydym fel Awdurdod wedi prynu mwy o gerbydau trydan ac eleni prynwyd peiriant trydan i'r canolfannau ail gylchu.

### Casglu data

Er ei fod yn swnio'n ddiflas, mae sicrhau ein bod yn ymwybodol o'n gwaelodlin garbon fel Awdurdod yn hanfodol. Mae pob Adran wedi cydweithio'n agos er mwyn dod i adnabod y gwir sefyllfa ac i sicrhau'r cynllun gweithredu yn realistig.

### Strydoedd glan

Rydym wedi derbyn adroddiad allanol gan LEAMS Cadwch Gymru'n daclus yn dangos fod holl strydoedd yr Ynys wedi cyrraedd lefel 'Da' o lendid.

### Plannu Coed a Bioamrywiaeth

Rydym wedi plannu coed ar safleoedd y Cyngor yn cynnwys safle Penhesgyn. Rydym wedi derbyn adroddiad blynyddol cadarnhaol ble mae cawsom enghreifftiau o diroedd yr ynys wedi'i gadael i dyfu'n wyllt er budd yr amgylchedd.

## Gair i gloi

Rwyf yn amlwg wedi canolbwyntio’n fawr ar waith y Cyngor yma ar yr ynys dros y 12 mis diwethaf. Rwyf hefyd yn yr amser yna wedi gweithredu ar lefel Rhanbarthol, Cenedlaethol ac ar lefel y Deyrnas Unedig er mwyn sicrhau buddiannau’r Cyngor a’r Ynys. Drwy gydol yr amser hynny rwyf wedi sicrhau bo llais yr ynys yn gryf ym mhob trafodaeth. Ond, un neges bwysig hoffwn gloi arno ydi fy malchder o gael arwain yr awdurdod a chael bod yn rhan o dîm sy’n gwneud eu gorau glas i ddiogelu ein hynys, ei phobl a’i hiaith. Er I hwn fod yn fy chweched flwyddyn fel Arweinydd nid wyf byth yn anghofio’r fraint o gael cyflawni’r swydd dros fy ynys a fy nghartref. Diolch I bawb am y fraint o gael cydweithio a sicrhau ein bod yn Wlad y Medra. DIOLCH!

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Cyngor Llawn** |
| Dyddiad: | **23/05/23** |
| Pwnc / Testun: | **Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn 2023-28** |
| Deilydd(ion) Portffolio: | **Y Cynghorydd Llinos Medi Huws** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Dylan Williams,**<br>**Prif Weithredwr** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | **Sandra Thomas, Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn**<br>**Sandralynnethomas@gwynedd.llyw.cymru** |
| Aelodau Lleol: | **Dim yn berthnasol** |

| A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau |
|---|
| I'r Cyngor fabwysiadu Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn 2023-28. |

| B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi creu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru er mwyn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithio gyda'i gilydd i greu gwell dyfodol i bobl Cymru. Mae Gwynedd a Môn yn gweithio gyda'u gilydd fel un Bwrdd. Mae Bwrdd Gwynedd a Môn yn cynnwys cynrychiolaeth ar y lefel uchaf o fewn y ddau Gyngor Sir, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyfoeth Naturiol Cymru ynghyd â nifer o sefydliadau eraill e.e. Grŵp Llandrillo Menai, Heddlu Gogledd Cymru, Mantell Gwynedd, Medrwn Môn, Prifysgol Bangor, cynrychiolwyr y sector dai ayyb.<br><br>Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gyhoeddi Cynllun Llesiant bob pum mlynedd sy'n amlinellu sut y bwriedir gwella llesiant trigolion yr ardal. Mae cyfnod cynllun llesiant presennol y Bwrdd am y cyfnod 2018-2023 yn dod i ben, disgwylir i bob Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus gyhoeddi Cynllun Llesiant newydd erbyn mis Mai 2023.<br><br>Nod y Cynllun Llesiant yw gosod allan sut yr ydym fel Bwrdd am weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod ein cymunedau yn ffynnu ac yn llewyrchus i'r hir dymor, a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau trigolion Gwynedd a Môn. |

Rhan gyntaf y gwaith o lunio'r Cynllun Llesiant oedd cynnal asesiad o lesiant lleol gan wneud gwaith ymchwil er mwyn deall a dysgu mwy am yr ardaloedd hynny. Mae'n bwysig nodi fod cydweithio agos wedi bod gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol wrth ymgymryd a'r gwaith hyn. Rhoddwyd cyfle i drigolion leisio barn ac ystyriwyd casgliadau ymchwil ac asesiadau eraill megis gwaith Cynllunio Lle ac Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru ac Asesiad Anghenion Poblogaeth Oedolion Môn yn y maes iechyd a gofal.

Ym mis Hydref 2021 cynhaliwyd Asesiadau o Lesiant Lleol ar gyfer ardaloedd Gwynedd ac Ynys Môn gyda'r ddwy sir wedi eu rhannu yn 14 o ardaloedd llai (Wyth yng Ngwynedd a chwech ym Môn).

Wedi ystyried y data a barn pobl yn lleol roedd naw prif neges yn cael eu hamlygu yn yr asesiadau ar gyfer yr ardal gyfan. Cynhaliwyd cyfres o weithdai pellach gydag Aelodau'r Bwrdd yn ystod 2022 ar sail y prif negeseuon a adnabuwyd er mwyn blaenoriaethu a thrafod sut y byddai modd ymateb i'r materion a amlygwyd.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r wybodaeth uchod gan y Bwrdd wrth lunio Cynllun Llesiant Drafft ar gyfer Gwynedd a Môn a gyhoeddwyd yn Rhagfyr 2022. Yn unol a gofynion y Ddeddf cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y cynllun drafft am gyfnod o 12 wythnos hyd ddechrau Mawrth 2023.

Yn y drafft diweddaraf hwn o'r Cynllun Llesiant fe amlinellir sut mae'r Bwrdd yn bwriadu gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau trigolion trwy gydweithio er mwyn cyflawni ar gyfer yr ardal gyfan. Wrth ddefnyddio'r dystiolaeth yn yr Asesiadau llesiant, mae'r Bwrdd wedi adnabod **tri Amcan Llesiant**:

- *Rydym am weithio gyda'n gilydd i liniaru effaith **tlodi** ar lesiant ein cymunedau.*
- *Rydym am weithio gyda'n gilydd i wella lles a llwyddiant ein **plant a phobl ifanc** er mwyn gwireddu eu llawn botensial.*
- *Rydym am weithio gyda'n gilydd i gefnogi ein gwasanaethau a'n cymunedau i symud tuag at **Sero Net Carbon**.*

Mae'r **iaith Gymraeg** yn llinyn euraidd sy'n rhedeg drwy'r Cynllun. Rydym yn hyrwyddo'r defnydd o'r iaith ym mhob maes o'n gwaith ac yn gweithio gyda chymunedau i ddatblygu gwasanaethau a gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gyfle i rannu ymarfer da, hyrwyddo'r iaith a sicrhau bod gan drigolion y ddwy sir fynediad i holl wasanaethau cyhoeddus drwy'r Gymraeg. Enghraifft dda o hyn ydi'r gwaith sydd wedi ei gwblhau gan yr Is-grŵp Iaith i ysgogi a grymuso cwsmeriaid i ddefnyddio'r Gymraeg wrth fynychu derbynfeydd ein partneriaid. Byddwn hefyd yn mynd i'r afael ag ysgogi siaradwyr Cymraeg i wneud cais am swyddi lle mae'r Gymraeg yn sgil allweddol. Mae gweithrediadau penodol i'r Gymraeg o dan bob amcan.

Cred y Bwrdd fod y rhain yn feysydd y gellir cydweithio yn well ynddynt, mewn cyfnod o leihad sylweddol yn adnoddau'r sector gyhoeddus, er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i drigolion Gwynedd a Môn.

Bydd disgwyl i holl Aelodau Statudol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fabwysiadu'r Cynllun Llesiant a bydd hyn yn digwydd mewn cyfres o gyfarfodydd sydd wedi eu rhaglennu rhwng mis Ebrill a Mai 2023.

Mae'r amcanion llesiant a amlygir uchod a'r gweithgareddau y bydd y Bwrdd yn eu cyflawni yn gyson â'r meysydd blaenoriaeth/amcanion llesiant sydd o fewn Cynllun y Cyngor 2023-2028 sydd wedi eu mabwysiadu gan Cyngor Môn.

Mae'n bwysig nodi hefyd fod y Cynllun Llesiant yn ddogfen fyw fydd yn newid a datblygu dros amser. Gweler gopi o'r Cynllun Llesiant yn **Atodiad 1.**

**Canlyniad yr Ymgynghoriad:**

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus am gyfnod o 3 mis ar y Cynllun Llesiant drafft rhwng 12 Rhagfyr 2022 a 6 Mawrth 2023.

Darparwyd cyfleoedd priodol i unigolion, grwpiau diddordeb a sefydliadau i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad drwy gynnal gweithdai a sesiynau gwybodaeth. Roedd hefyd holiadur oedd ar gael ar wefan y Bwrdd neu gopïau papur oedd ar gael mewn prif swyddfeydd y Cyngor a llyfrgelloedd. Roedd modd gwneud cais am gopïau ar ffurf amgen.

Bu i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio adolygu cynnwys y Cynllun Llesiant Drafft yn y cyfarfod ar 17 Ionawr 2023. Cynigwyd nifer o newidiadau, sydd wedi eu adlewyrchu yn y fersiwn diweddaraf o'r Cynllun Llesiant.

Derbyniwyd 499 o ymatebion i'r holiadur fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus gyda nifer o'r sylwadau yn cefnogi'r hyn sy'n cael ei gynnig. Cafwyd adborth gan oddeutu 200 pellach trwy ymgysylltu megis gweithdai a sesiynau gwybodaeth a gynhaliwyd trwy Fforymau Pobl Hŷn, ymgysylltu gyda myfyrwyr Grŵp Llandrillo Menai yn Llangefni, grŵp o bobl ifanc digartref, a chyflwyno i Grŵpiau Trydydd Sector, a Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned.

Rhoddwyd sylw i'r ymgynghoriad trwy ddatganiad i'r Wasg, rhannu gyda holl Aelodau Etholedig ar ffurf e-bost ac e-bost i holl Gynghorau Tref a Chymuned Gwynedd a Môn. Bu sawl neges ar gyfrifon cymdeithasol y Bwrdd a rhannwyd rhain gan Aelodau eraill y Bwrdd ar eu cyfryngau hwy.

Mae'r Cynllun Llesiant bellach yn adlewyrchu nifer o'r sylwadau a gafwyd o'r ymgynghoriad. Bydd y Bwrdd yn rhoi sylw i'r adborth i gyd eto dros y flwyddyn nesaf yn benodol wrth ddarparu Cynllun Gweithredu ar gyfer y meysydd blaenoriaeth.

Atodir adroddiad yn crynhoi ymatebion o'r holiadur ymgynghori yn **Atodiad 2.**

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Cyngor Llawn?

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gyhoeddi Cynllun Llesiant sy'n amlinellu sut y bwriedir gwella llesiant trigolion yr ardal. Mae Cyngor Sir Ynys Mon yn un o bump Aelod Statudol o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac mae cymeradwyo'r cynllun terfynol ar gyfer ei gyhoeddi gan y Bwrdd yn fater i'r Cyngor Llawn drwy arweiniad statudol.

| |
|---|
| Yr Aelodau Statudol eraill ydi:<br>• Cyngor Gwynedd<br>• Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr<br>• Cyfoeth Naturiol Cymru<br>• Gwasanaeth Tan ag Achub Gogledd Cymru<br><br>Unwaith bydd Byrddau Strategol/Cyngor Llawn yr Aelodau Statudol wedi cymeradwyo'r Cynllun Llesiant bydd yn cael ei gyhoeddi diwedd mis Mai 2023 yn unol a'r Ddeddf Llesiant. |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Mae darparu a mabwysiadu'r Cynllun Llesiant yn galluogi'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswyddau statudol yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac mae'n ffrwyth llafur mecanwaith sy'n galw ar gyrff cyhoeddus i gydweithio i fabwysiadu amcanion llesiant cyffredin. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Nodir bydd y dasg o lunio rhaglen waith fanwl yn cychwyn pan fydd y cyrff perthnasol wedi mabwysiadu'r Cynllun Llesiant yma. Felly, tra na fydd mabwysiadu'r Cynllun Llesiant yn creu ymrwymiadau ariannol ynddo'i hun, bydd yn gosod cyd-destun i'r Cyngor wrth flaenoriaethau ei adnoddau dros oes y cynllun. |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r Cynllun llesiant yn ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n gosod allan yr heriau tymor hir yn ogystal a chynnig datrysiadau i gydweithio gyda partneriaid er budd ein cymunedau, |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Dim yn berthnasol |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – yn cynnwys Medrwn Mon, Coleg Llandrillo Menai, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Prifysgol Bangor, Heddlu Gogledd Cymru, Cynrychiolwyr y Sector Dai |

| | | |
|---|---|---|
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Cyfnod ymgynghorol o 3 mis gyda holiadur hygyrch yn ogystal a sawl cyfle i fynychu sesiwn wyneb yn wyneb. |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r Gymraeg. | Gweler yr Asesiad Effaith Cynhwysfawr |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Gweler yr Asesiad Effaith Cynhwysfawr |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Gweler yr Asesiad Effaith Cynhwysfawr |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Tim Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol) | TA wedi cadarnhau y bod yr Amcanion Llesiant yn plethu gyda Amcanion Cynllun y Cyngor 2023-28. |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Ni fydd mabwysiadu'r Cynllun Llesiant yn creu ymrwymiadau ariannol ynddo'i hun. |
| 3 | Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro yn cadarnhau dyletswydd y Cyngor Llawn i fabwysiadu'r Cynllun Llesiant fel un o Aelodau Statudol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Dim yn berthnasol |
| 5 | Eiddo | Dim yn berthnasol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) a Chyfathrebu | Dim yn berthnasol |
| 7 | Caffael | Dim yn berthnasol |
| 8 | Sgriwtini | Mae'r Pwyllgor Sgrwtini wedi craffu'r Cynllun drafft yn fanwl ac wedi cadarnhau y meysydd blaenoriaeth. Y Pwyllgor yn awgrymu dylid ehangu'r ymgysylltu parhaus i gynnwys grwpiau o wahanol oedrannau. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? | Beth oedd eu sylwadau? | |
|---|---|---|
| 9 | Aelodau Lleol | Dim yn fater lleol ond mae'r Aelodau wedi eu cynnwys yn yr ymgynghoriad swyddogol. |

| **F - Atodiadau:** | |
|---|---|
| Atodiad 1 – | Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn 2023-28 |
| Atodiad 2 – | Crynodeb o'r Ymgynghoriad Cyhoeddus |
| Atodiad 3 – | Asesiad Effaith Cydraddoldeb (fersiwn NWPSEN) |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |

BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD AC YNYS MÔN

# CYNLLUN LLESIANT GWYNEDD A MÔN 2023-2028

**Cynnwys**


| | |
|---|---|
| **1** | **Rhagair gan Gadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus** |
| **2** | **Cefndir i'r Cynllun Llesiant** |
| **3** | **Yr Asesiadau Llesiant Lleol** |
| **4** | **Ein Hamcanion Llesiant** |
| **5** | **Sut wnaethom ddatblygu'r Amcanion Llesiant** |
| **6** | **Y camau nesaf** |
| **Atodiad 1:** | **Prif negeseuon o'r Asesiadau Llesiant 2022** |
| **Atodiad 2:** | **Sut byddwn yn gweithredu i'r dyfodol (y pum ffordd o weithio)** |


## 1. Rhagair gan Gadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC)

**Mae gennym weledigaeth i weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod ein cymunedau yn ffynnu ac yn llewyrchus i'r hir dymor.** Nod y Cynllun Llesiant yw amlinellu sut yr ydym am gyflawni hyn a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau trigolion Gwynedd a Môn.  Fel darparwyr gwasanaethau cyhoeddus byddwn yn cydweithio i gyflawni uchelgais cyffredin ar gyfer y rhanbarth cyfan.

Bydd y sefydliadau unigol yn parhau i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau fydd yn cyflawni eu hamcanion llesiant unigol yn ogystal â chyfrannu at amcanion llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.  Mae ymgysylltu gyda chymunedau yn greiddiol i lwyddiant y cynllun, ac mae'r Bwrdd yn ymrwymo i ddarparu arweiniad clir er mwyn cyrraedd ei amcanion.

Mae gennym gymunedau cryf a balch gyda thraddodiad o helpu'n gilydd a chydweithio. Bydd rôl y cymunedau hyn yn ganolog wrth gyflawni'r amcanion llesiant sydd wedi eu nodi yn y cynllun hwn.

Dylai'r amcanion a'r camau i'w cyflawni, ar ôl eu cwblhau, gysylltu a chefnogi ei gilydd oherwydd natur drawsbynciol yr amcanion. Dylai pob aelod o'r BGC allu chwarae eu rhan yn llawn wrth gyflawni'r hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gan y cynllun.

Ers i ni ddechrau edrych ar yr hyn y gallem ei wneud i wella lles yng Ngwynedd a Môn, mae'r rhyfel yn Wcráin a'r argyfwng costau byw wedi gwneud bywydau pobl hyd yn oed yn anoddach. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n cymunedau wrth weithredu'r cynllun llesiant dros y pum mlynedd nesaf.

**Aled Jones-Griffiths**
**Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn**

## 2. Cefndir i'r Cynllun Llesiant

Yn 2015, sefydlodd Llywodraeth Cymru gyfraith newydd yng Nghymru o'r enw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Digwyddodd hyn yn dilyn sgyrsiau gyda miloedd lawer o bobl ledled Cymru am y "Cymru yr ydym ei eisiau".


Mae'r gyfraith hon yn rhoi dinasyddion Cymru yng nghanol pob peth y mae gwasanaethau cyhoeddus yn ei wneud i wella Cymru yn economaidd, yn gymdeithasol, yn amgylcheddol ac yn ddiwylliannol, ac mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ei chalon. Golyga hyn fod angen i bob gwasanaeth cyhoeddus weithio mewn ffordd sy'n gwella lles pobl heddiw heb wneud unrhyw beth a allai wneud pethau'n waeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol o fabanod, plant, pobl ifanc, oedolion a phobl hŷn; mewn geiriau eraill, ein teuluoedd, ifanc a hen, a'n ffrindiau a'n cymdogion i gyd.

Mae'r Ddeddf yn amlygu saith nod llesiant cenedlaethol a phum ffordd o weithio er mwyn rhoi pwrpas cyffredin i gyrff cyhoeddus. Mae hefyd yn ceisio sicrhau ein bod yn well am wneud penderfyniadau drwy osod dyletswydd ar sefydliadau i feddwl am y tymor hir, i gydweithio ac i ystyried pobl o bob oedran wrth ddatrys ac atal problemau.

Gyda'i gilydd, mae'r saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio wedi eu cynllunio i gefnogi cyrff cyhoeddus i gwrdd ag anghenion presennol eu cymunedau, a sicrhau nad yw penderfyniadau heddiw yn niweidiol i genedlaethau'r dyfodol. Dyma'r saith nod llesiant cenedlaethol:




Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd yn gofyn i wasanaethau cyhoeddus unigol weithredu'n gynaliadwy a defnyddio'r pum ffordd ganlynol o weithio:




Yn ogystal â'r disgwyliad i weld pob gwasanaeth cyhoeddus yn gweithio yn y modd hwn, mae'r Ddeddf hefyd yn sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cydweithio i greu dyfodol gwell i bobl Cymru. Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn wedi penderfynu cydweithio fel un Bwrdd ar y cyd er mwyn sicrhau bod cyrff cyhoeddus ar draws yr ardal yn gweithio gyda'i gilydd i greu dyfodol gwell ar gyfer pobl Gwynedd a Môn.

Mae'n rhaid i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus asesu llesiant ein hardal a chreu Cynllun Llesiant gyda'r nod o gydweithio i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol y bobl a chymunedau yn ein hardal ni.

**Aelodaeth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn:**

Pum aelod statudol y Bwrdd yw:

- Cyngor Sir Ynys Môn
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Cyngor Gwynedd
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Aelodau gwahoddedig y Bwrdd yw:

- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Grŵp Llandrillo Menai
- Mantell Gwynedd
- Medrwn Môn
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Prifysgol Bangor
- Llywodraeth Cymru
- Cynrychiolydd landlordiaid cymdeithasol cofrestredig Gogledd Cymru
- Heddlu Gogledd Cymru
- Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
- Gwasanaeth Prawf Cymru

Mae cyfle i wahodd cyrff / mudiadau / sefydliadau / partneriaid eraill i eistedd ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn pan fydd amcanion a chamau gweithredu penodol yn dod i'r amlwg.

## 3. Yr Asesiadau Llesiant Lleol

Ym mis Mai 2022, cyhoeddwyd Asesiadau Llesiant Lleol ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi rhannu'r ddwy sir yn 14 o ardaloedd llai a chafodd gwaith ymchwil ei wneud er mwyn deall a dysgu mwy am lesiant yr ardaloedd hynny. Mae wyth o'r ardaloedd yma yng Ngwynedd a chwech ar Ynys Môn.  Mae'r wybodaeth yn dod â data lleol, negeseuon o waith ymgysylltu â chymunedau a gwaith ymchwil cenedlaethol ynghyd. Mae'r Llyfrynnau Gwybodaeth ar gyfer pob ardal ar gael ar ein gwefan.  [www.llesiantgwyneddamon.org/cy](www.llesiantgwyneddamon.org/cy)

Man cychwyn yn unig oedd yr asesiad – braslun o lesiant yr ardal oedd yn mynd law yn llaw â'r llyfrynnau ardal er mwyn helpu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i ddeall Gwynedd a Môn yn well. Wedi ystyried y data a barn pobl leol, daeth y Bwrdd i'r casgliad mai dyma yw'r materion sy'n bwysig i drigolion Gwynedd a Môn:

- Ymateb i dlodi a chostau byw
- Gwella iechyd a llesiant plant a phobl ifanc
- Gwella iechyd a lles meddyliol
- Newid hinsawdd – cefnogi cymunedau i gyrraedd targedau net sero
- Hybu defnydd o'r iaith Gymraeg
- Galluogi profiad cyfartal a mynediad i natur
- Cynllunio gweithlu i'r dyfodol sy'n ateb anghenion y gymuned a'r economi leol
- Sicrhau tai i bobl leol
- Dylanwadu ar flaenoriaethau ariannol cyrff cyhoeddus

Gwelwch **Atodiad 1** am fanylion pellach ar y prif negeseuon a gasglwyd o'r Asesiadau Llesiant.

## 4. Ein Hamcanion Llesiant:

Wrth ddefnyddio’r dystiolaeth yn yr Asesiadau llesiant, mae’r Bwrdd wedi adnabod **tri Amcan Llesiant**:

- Rydym am weithio gyda’n gilydd i liniaru effaith **tlodi** ar lesiant ein cymunedau.
- Rydym am weithio gyda’n gilydd i wella lles a llwyddiant ein **plant a phobl ifanc** er mwyn gwireddu eu llawn botensial.
- Rydym am weithio gyda’n gilydd i gefnogi ein gwasanaethau a’n cymunedau i symud tuag at **Sero Net Carbon**.

Mae’r **iaith Gymraeg** yn llinyn euraidd sy’n rhedeg drwy’r cynllun. Rydym yn hyrwyddo’r defnydd o’r iaith ym mhob maes o’n gwaith ac yn gweithio gyda chymunedau i ddatblygu gwasanaethau a gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gyfle i rannu ymarfer da, hyrwyddo’r iaith a sicrhau bod gan drigolion y ddwy sir fynediad i holl wasanaethau cyhoeddus drwy’r Gymraeg. Enghraifft dda o hyn ydi’r gwaith sydd wedi ei gwblhau gan yr Is-grŵp Iaith i ysgogi a grymuso cwsmeriaid i ddefnyddio’r Gymraeg wrth gysylltu â sefydliadau cyhoeddus. Byddwn hefyd yn mynd i’r afael ag ysgogi siaradwyr Cymraeg i wneud cais am swyddi lle mae’r Gymraeg yn sgil allweddol. Mae gweithrediadau penodol i’r Gymraeg o dan bob amcan isod.

Ar gyfer y tri amcan, mae'r tablau isod yn darparu mwy o wybodaeth ynglŷn â pham y cawsant eu dewis a pha gamau yr ydym yn ystyried eu cymryd i'w cyflawni. Bydd sut maent yn cyfrannu at bob un o'r Nodau Llesiant yn cael eu nodi yn ddiweddarach.

| **Amcan Llesiant 1: Rydym am weithio gyda’n gilydd i liniaru effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau** |
|---|
| **Uchelgais:**<br>Byddwn yn datblygu dealltwriaeth fanwl o sut mae tlodi yn effeithio ar ein hardaloedd ac yn ceisio sicrhau bod y gwaith sy’n digwydd yn y maes ar draws y cyrff cyhoeddus yn fwy effeithiol er mwyn lliniaru effaith hirdymor tlodi. Byddwn cydweithio i geisio cael dealltwriaeth fanwl o’r goblygiadau o fyw mewn tlodi yn ein gwahanol ardaloedd. Byddwn yn parhau i ddatblygu’r Asesiadau Llesiant i gael darlun manwl o ble mae’r diffyg mynediad at wasanaethau yn fwy heriol oherwydd tlodi. |
| **Be fyddwn yn ei wneud dros gyfnod pum mlynedd y Cynllun:**<br>• Byddwn ni'n gweithio gyda'n gilydd i optimeiddio'r defnydd o ddata sydd ar gael er mwyn cael dealltwriaeth fanwl o oblygiadau byw mewn tlodi yn ein cymunedau. Dylai hyn gynnwys:<br>    o Deall y grwpiau yn y boblogaeth a’r ardaloedd daearyddol sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan dlodi a'r mecanweithiau y mae hyn yn digwydd drwyddo<br>    o Mapio allan gwasanaethau cymorth sydd ar gael rŵan i fynd i'r afael â thlodi ar draws y ddwy sir<br>    o Cynnal dadansoddiad o’r bylchau a nodi cyfranogwyr i gefnogi datrysiadau cyffredinol a datrysiadau wedi'u targedu<br>• Byddwn yn gweithredu fel llais i'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan dlodi a chaledi yng Ngwynedd a Môn gan wybod beth sydd ei angen ar gymunedau a dinasyddion a'r wybodaeth sydd gan bartneriaid.<br>• Byddwn yn gweithredu caffael cyhoeddus sy'n gymdeithasol gyfrifol, er budd y gadwyn gyflenwi leol a hyrwyddo economi gylchol yn lleol. |

- Byddwn yn cynnig swyddi amrywiol, o safon, gyda chyflogau da sydd yn rhan allweddol o gadw pobl yn eu cymunedau, ac o ganlyniad yn cael effaith gadarnhaol ar gynnal yr iaith Gymraeg.
- Byddwn yn ymrwymo i ddatblygu meddylfryd gwaith teg, rhoi gwaith teg wrth wraidd polisïau a chynlluniau, creu gwaith teg a bod yn esiamplau o waith teg yng Ngwynedd a Môn gan arddangos gwerth dull gweithredu o'r fath i fusnesau a'r gymuned a hyrwyddo mynediad i waith teg i bawb.
- Byddwn yn cefnogi cynhwysiant digidol ac yn hyrwyddo gwytnwch i droseddu seiber drwy rannu gwybodaeth am sgamiau ar-lein.

**Sut y byddwn yn gwybod ein bod yn gwneud cynnydd?**
Rydym yn gweithio ar gyfres o ddangosyddion mesuradwy i gyd-fynd â'r cynllun gweithredu manwl ym mis Awst 2023.

## Amcan Llesiant 2: Rydym am weithio gyda'n gilydd i wella lles a llwyddiant ein plant a phobl ifanc er mwyn gwireddu eu llawn botensial

**Uchelgais:**
Byddwn yn cyd-gynllunio gwasanaethau a gweithgareddau ataliol i gefnogi teuluoedd cyn i'r angen am wasanaethau dwys godi. Byddwn yn annog plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i wella eu hiechyd er mwyn iddynt allu byw yn iach ac yn annibynnol o fewn eu cymunedau i'r hir dymor. Byddwn yn gweithio i sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc yn cael profiadau cadarnhaol yn ystod eu plentyndod ac yn rhoi blaenoriaeth i gefnogi teuluoedd er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd. Byddwn hefyd yn sicrhau bod gweledigaeth glir ymysg y partneriaid allweddol i sicrhau'r canlyniadau gorau i blant a phobl ifanc.

**Be fyddwn yn ei wneud dros gyfnod pum mlynedd y Cynllun:**

- Byddwn ni'n cwmpasu datblygiad Strategaeth Blynyddoedd Cynnar ac yn gweithredu cynlluniau i fynd i'r afael â bylchau o ran darparu gwasanaethau a chymorth i sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.
- Byddwn ni'n hyrwyddo strategaethau i gefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i gynnal pwysau iach.
- Byddwn yn gweithredu i drosglwyddo'r iaith Gymraeg o un genhedlaeth i'r nesaf drwy greu cyfleoedd i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd i ddysgu, clywed a defnyddio'r iaith tu hwnt i giatiau'r ysgol.
- Byddwn yn edrych i gefnogi cyfleoedd i bobol ifanc ddatblygu i fod yn arweinwyr y dyfodol.
- Byddwn yn ymrwymo i gynlluniau'r Bwrdd Bregusrwydd a Cham-fanteisio Gogledd Cymru sy'n cwmpasu'r gweithgarwch i amddiffyn poblogaeth gogledd Cymru gan gynnwys gwaith penodol i ddiogelu pobl ifanc.
- Byddwn yn cefnogi'r Strategaeth Genedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.
- Byddwn yn gweithio i sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd, gan gynnwys y rhai sy'n agored i niwed neu yn ein gofal, yn wydn ac yn barod ar gyfer cyflogaeth, addysg bellach neu hyfforddiant. Mae hyn yn cynnwys edrych ar Sgiliau Gwyrdd a sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer y dyfodol.
- Byddwn yn sicrhau bod partneriaid allweddol yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau nad yw'r cymunedau gwledig yn cael eu hamddifadu o gyfleoedd cymdeithasol a diwylliannol yn y Gymraeg.
- Byddwn yn darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli o safon, profiad gwaith a phrentisiaethau ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

- Byddwn yn codi ymwybyddiaeth yn y system am effeithiau Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod (ACE) a thrawma, a'r cyfleoedd i atal amlygiad, lliniaru risgiau a mynd i'r afael a niwed.
- Rydym yn ymrwymo i fod yn Fwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus sy'n Wybodus am Drawma.
- Rydym yn ymrwymo i hyrwyddo'r fframwaith Pum Ffordd i Lesiant ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud.

**Sut y byddwn yn gwybod ein bod yn gwneud cynnydd?**
Rydym yn gweithio ar gyfres o ddangosyddion mesuradwy i gyd-fynd â'r cynllun gweithredu manwl ym mis Awst 2023.

## Amcan Llesiant 3: Rydym am weithio gyda'n gilydd i gefnogi ein gwasanaethau a'n cymunedau i symud tuag at Sero Net Carbon

**Uchelgais:**
Byddwn yn cydweithio yn lleol i gefnogi ein cymunedau i leihau allyriadau carbon a cheisio lliniaru effaith newid hinsawdd. Mae'r Bwrdd yn ystyried bod gwarchod yr amgylchedd naturiol yn rhan amlwg o gyflawni ei flaenoriaethau a bydd yn thema gyffredin sy'n rhedeg ar draws yr holl amcanion llesiant.

**Be fyddwn yn ei wneud dros gyfnod pum mlynedd y Cynllun:**

- Byddwn yn cynnal Asesiad Risg Newid Hinsawdd Lleol.
- Byddwn yn ceisio cyflawni gweithgaredd datgarboneiddio o fewn ein gwasanaethau a'n cymunedau.
- Byddwn yn cefnogi'r gwaith ar adnabod ein rhwydweithiau ynni lleol.
- Byddwn yn defnyddio ein tirwedd i storio carbon a lliniaru effeithiau newid hinsawdd.
- Byddwn yn hyrwyddo a gweithredu Siarter Teithio Llesol Gogledd Cymru.
- Byddwn yn optimeiddio cyfleoedd iechyd gwyrdd trwy bresgripsiwn cymdeithasol.
- Byddwn yn gwarchod a gwella bioamrywiaeth a chynefinoedd naturiol, tra'n cynyddu ac annog mynediad cyfartal i'n hamgylchedd naturiol. Mae hyn yn cynnwys mynediad i fannau gwyrdd o gefn gwlad a mannau arfordirol glas.
- Byddwn yn gwneud y mwyaf o'r buddion a ddaw yn sgil ein hasedau naturiol unigryw a chynyddu ein harlwy twristiaeth gynaliadwy.
- Byddwn yn gweithio gydag ac yn cefnogi cymunedau sydd eisiau rheoli a gwella eu hamgylchedd lleol ac yn grymuso pawb, gan gynnwys pobl ifanc, i wella mannau cymunedol.
- Byddwn yn cydweithio ar gamau gweithredu yn deillio o Strategaeth (drafft) Llywodraeth Cymru ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd i weithredu ar y newid yn yr hinsawdd.
- Byddwn yn cydweithio i gynyddu a gwella sgiliau er mwyn cael gweithlu lleol fedr ymateb i'r anghenion i redeg economi werdd.

**Sut y byddwn yn gwybod ein bod yn gwneud cynnydd?**
Rydym yn gweithio ar gyfres o ddangosyddion mesuradwy i gyd-fynd â'r cynllun gweithredu manwl ym mis Awst 2023.

## 5. Sut wnaethom ddatblygu'r Amcanion Llesiant:

Wedi ystyried y prif negeseuon a amlygwyd yn yr Asesiadau Llesiant, cynhaliwyd cyfres o weithdai dros Haf 2022 gydag aelodau'r Bwrdd er mwyn canfod barn ynglŷn â pha feysydd i'w blaenoriaethu. Gyda chefnogaeth Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru, rhoddodd y gweithdai gyfle i aelodau adlewyrchu ar y Cynllun Llesiant blaenorol wrth ystyried y cwestiynau canlynol:

**A. Edrych yn ôl ar Gynllun Llesiant 2017-22:**

- Sut wnaethom ni yn erbyn y ddau amcan/naw thema yn y cynllun blaenorol?
- Beth sydd wedi newid a dylanwadu ar lesiant ein cymunedau yn y pum mlynedd diwethaf?

**B. Edrych ymlaen at Gynllun Llesiant 2023-28:**

- Gan edrych ar yr asesiadau llesiant wedi'u diweddaru ar gyfer 2022, beth yw'r blaenoriaethau allweddol ar gyfer y BGC?
- A oes blaenoriaethau lle mae gweithredu eisoes yn digwydd yn effeithiol tu allan i sgôp y BGC?
- Beth allwn ni ei wneud i sicrhau bod y BGC yn ychwanegu gwerth gyda'i gilydd yn hytrach na gweithio ar wahân?
- Beth fyddai'n sicrhau bod y Cynllun Llesiant newydd yn llwyddiant?

Wrth i'r Bwrdd feddwl am yr amcanion lleol i'r dyfodol dilynwyd argymhellion Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol sydd yn dweud:

'*Wrth bennu ei amcanion lleol, rhaid i fwrdd hefyd ystyried yr Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol diweddaraf a baratowyd gan y Comisiynydd. Bydd hwn yn rhoi asesiad o'r gwelliannau y dylai cyrff cyhoeddus eu gwneud er mwyn gosod a bodloni amcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.'*

Penderfynodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y dylid canolbwyntio ar y meysydd hynny lle mae angen cydweithio ynddynt er mwyn gwneud gwir wahaniaeth. Ar ôl dadansoddi'r prif negeseuon a ddaeth i'r amlwg yn yr Asesiad Llesiant ac ystyried casgliadau ymchwil ac asesiadau eraill maent wedi blaenoriaethu tri maes penodol er mwyn gwireddu'r weledigaeth yma. Mewn cyfnod o leihad sylweddol yn adnoddau'r sector cyhoeddus, credwn fod y rhain yn feysydd lle gallwn gydweithio yn well i sicrhau'r canlyniadau gorau i drigolion Gwynedd a Môn.

## 6. Y camau nesaf

Mae'r Cynllun Llesiant yn ddogfen fyw fydd yn newid a datblygu dros amser. Er ein bod wedi cadarnhau ein hamcanion llesiant a'r hyn fyddwn yn wneud er mwyn gwireddu'r amcanion hynny, amlinelliad sydd yn y cynllun hwn o'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud. Bydd gwaith pellach i wneud er mwyn datblygu ein rhaglenni gwaith.

Y cam nesaf fydd llunio rhaglenni gwaith manwl ac adnabod camau gweithredu Tymor Byr, Canolig a Hir ar gyfer yr amcanion llesiant. Bydd gwaith y Bwrdd yn cael ei wirio'n gyson gan Bwyllgorau Craffu a Sgrwtini Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn. Bydd adroddiad blynyddol ar gynnydd y cynllun hwn yn cael ei baratoi hefyd.

Mae'r cyhoedd wedi cael cyfle i roi eu barn trwy gydol y broses o ddatblygu'r Cynllun Llesiant, ac mae llawer o'r sylwadau a dderbyniwyd wedi eu hymgorffori yn y Cynllun terfynol.

Er bod y cyfnod ymgynghori ffurfiol wedi dod i ben rydym yn parhau i fod yn awyddus i glywed gennych. Er mwyn gwneud hynny neu dderbyn mwy o wybodaeth am waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn ewch i www.llesiantgwyneddamon.org.

post@llesiantgwyneddamon.org

Rhif ffôn: 01766 771000

Gofynnwch am:

Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn

Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor
Swyddfa'r Cyngor, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH

## ATODIAD 1 – Prif negeseuon o'r Asesiadau Llesiant 2022:

Mae'r llyfrynnau yn edrych ar lesiant yng nghyd-destun y pedwar prif bennawd yn y **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** – sef Cymdeithasol, Economaidd, Amgylcheddol a Diwylliannol. Mae pennawd ychwanegol wedi ei ychwanegu, sef 'Poblogaeth ac Iaith' gan fod y Bwrdd yn cydnabod pwysigrwydd y thema benodol yma i'r ardal.

**Poblogaeth ac Iaith:**

- Rhagwelir y bydd mwy o bobl dros 75 oed i'r dyfodol sy'n golygu bod angen cefnogi poblogaeth sy'n heneiddio a sicrhau bod unigolion yn aros yn iach am gyfnod hirach er lles yr economi a gwasanaethau iechyd a gofal.
- Ystyrir Ynys Môn a Gwynedd yn gadarnleoedd i'r Gymraeg ond gwelwyd gostyngiad yn y canran o siaradwyr dros y ddegawd ddiwethaf.
- Mae ein cymunedau yn poeni am yr effaith mae mudo, twristiaeth, argaeledd tai addas a fforddiadwy i bobl ifanc a theuluoedd yn ei gael ar y Gymraeg.

**Amgylcheddol:**

- Mae amgylchfyd naturiol amrywiol Ynys Môn a Gwynedd yn adnodd pwysig. Mae arfordir, llynnoedd ac afonydd, corsydd a choedwigoedd yn cael effaith bositif ar lesiant cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd.
- Mae newid hinsawdd yn her fyd-eang sy'n cael effaith ar lesiant ein trigolion. Mae'n arwain at gymunedau sydd o dan risg uchel o lifogydd, tywydd eithriadol a thirlithriadau ac yn rhoi ein byd natur a chynefinoedd o dan bwysau cynyddol.
- Mae gwarchod byd natur a bioamrywiaeth yn bwysig er mwyn datgarboneiddio. Yn Ynys Môn a Gwynedd ceir cynefinoedd a rhywogaethau amrywiol sy'n storio'r carbon sy'n cyfrannu at lefel nwyon tŷ gwydr.
- Mae amaethyddiaeth yn sector bwysig i Fôn a Gwynedd ac mae angen cefnogi ein ffermwyr i ddatblygu ffermio sy'n fwy cynaliadwy er mwyn cyfrannu at ddatgarboneiddio.
- Mae cynnal dyfodol gwyrdd yn flaenoriaeth i gymunedau Môn a Gwynedd. Mae sgyrsiau efo trigolion wedi amlygu'r awch am ardaloedd eco-gyfeillgar sy'n gwneud y mwyaf o'u hadnoddau naturiol.

**Cymdeithasol:**

- Mae pryder am lefel gordewdra ymysg plant 4-5 oed ar draws y rhanbarth, â'r canran uchaf o blith holl siroedd rhanbarth Gogledd Cymru yma yn ein hardal ni. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y ganran yn debygol o godi o ganlyniad i effaith Covid-19 a'r cyfnod clo.
- Mae Covid-19 yn debygol o gael effaith hirdymor ar iechyd y boblogaeth. Mae hyn yn cynnwys yr effaith ar iechyd meddwl a chorfforol (er enghraifft, Covid Hir) a gwaethygu nifer yr anghydraddoldebau iechyd oedd eisoes yn bodoli.
- Amlygwyd diffyg trafnidiaeth gyhoeddus fel her enfawr i gymunedau cefn gwlad. Roedd amlder gwasanaethau bws yn golygu ei bod yn anodd i drigolion gyrraedd cyfleusterau a gwasanaethau, ac mae'n debygol o effeithio'n waeth ar rai grwpiau, er enghraifft, pobl anabl, pobl ifanc a phobl hŷn.
- Mae ysbryd cymunedol yn un o brif asedau'r ddwy sir ac amlygwyd hyn ym mharodrwydd trigolion i helpu ei gilydd yn ystod cyfnod Covid-19.
- Mae diffyg cyswllt digidol yn rhwystr i bobl a busnesau'r ddwy sir. Mae gweithio ac addysgu o bell yn ystod cyfnod Covid-19 wedi amlygu pwysigrwydd argaeledd band-eang.

**Economaidd:**

- Rhagwelir newidiadau mewn sectorau gwaith ac yn y patrwm gwaith i'r dyfodol. Mae angen sicrhau cyfleoedd hygyrch i bawb mewn galwedigaethau fel gwyddoniaeth a thechnoleg.
- Mae canran uchel o bobl Ynys Môn a Gwynedd yn gweithio yn y galwedigaethau crefftau medrus (sy'n cynnwys ffermwyr a gweithwyr amaeth). Mae Brexit a'r lleihad mewn grantiau a chymorth ariannol wedi cael effaith ar y sector yma.
- Mae tlodi o bob math yn bryder ar draws y ddwy sir. Mae gennym un o'r canrannau uchaf yng Nghymru o dlodi tanwydd. Roedd yr ymateb i'r llyfrynnau drafft yn amlygu pryder am dlodi, mewn cyfnod ble mae costau byw o bob math yn codi.
- Mae swyddi cyflogau isel yn bryder mawr ac roedd sicrhau swyddi gwerth uchel yn flaenoriaeth i gymunedau a thrigolion y ddwy sir. Yn ogystal â'i effaith ar yr economi, mae hefyd yn ei gwneud yn anodd cadw pobl ifanc yn y sir, ac felly'n effeithio ar yr iaith Gymraeg.
- Mae prisiau a fforddiadwyedd tai yn un o brif bryderon cymunedau lleol ar draws y ddwy sir ac yn cael effaith negyddol ar lesiant cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac economaidd ardaloedd. Pryder arall y mae cymunedau wedi sôn amdano yw'r sefyllfa ail dai / tai haf. Un dangosydd yw'r cynnydd mewn 'troseddau casineb' sydd wedi ei adrodd gan yr Heddlu.
- Mae twristiaeth yn cyfrannu at economïau Môn a Gwynedd ac yn sector gwaith pwysig, ond hefyd yn her ychwanegol i wasanaethau lleol a byd natur. Fe gafodd Covid-19 effaith negyddol ar sector llety a bwyd y wlad o ganlyniad i'r cyfyngiadau, ac mae hyn wedi bod yn fwy amlwg mewn ardaloedd sy'n dibynnu ar dwristiaeth.
- Mae pryder am gyflwr economi leol y 'stryd fawr' neu 'ganol y dref'. Amlygwyd hyn ym Mangor, Caergybi a sawl tref arall.
- O'i gymharu â ffigwr Cymru gyfan, mae canran uchel o ymadawyr ysgol blwyddyn 11 yn ein hardal yn NEET (pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant).
- Mae darpariaeth gofal plant yn ddarpariaeth bwysig i economi ein hardaloedd. Mae diffyg darpariaeth gynaliadwy yn effeithio ar gymunedau mewn rhai ardaloedd yn y ddwy sir a cheir pryder hefyd am nifer y darpariaethau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael.

**Diwylliannol:**

- Mae'r amgylchedd naturiol yn adnodd hollbwysig sy'n cyfrannu at lesiant ac iechyd gan ei bod yn galluogi ein trigolion i fod yn actif yn yr awyr iach.
- Mae diffyg gweithgareddau i blant a phobl ifanc yn bryder i gymunedau Ynys Môn a Gwynedd ac mae pryder bod hyn yn arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Mae mannau gwyrdd yn hollbwysig i lesiant trigolion, ond mae angen gwneud yn siŵr fod mynediad hygyrch atynt fel bod modd i bawb eu defnyddio.
- Mae Safleoedd Treftadaeth y Byd yn cynnig cyfle i fagu balchder mewn bro a hanes (y Dirwedd Llechi a Chestyll Edward I), ond mae pryder ynghylch eu heffaith ar dwristiaeth a bod angen sicrhau buddion i gymunedau lleol.
- Roedd trigolion yn mynegi balchder bod gennym ddiwylliant cryf, bywiog sy'n cael ei adlewyrchu yn y nifer o gymdeithasau, eisteddfodau, Clybiau Ffermwyr Ifanc, sioeau a chyngherddau sy'n cael eu cynnal yn lleol.

Linc i'r wefan: [www.llesiantgwyneddamon.org/cy](http://www.llesiantgwyneddamon.org/cy)

## Atodiad 2: Sut byddwn yn gweithredu i'r dyfodol?

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn yn gweithredu yn unol â saith egwyddor arweiniol. Mae pump o'r rhain yn cydymffurfio â'r **pum ffordd o weithio** a amlinellir yn y Ddeddf a dau wedi eu hychwanegu gan y Bwrdd yn lleol. Bydd yr egwyddorion yma yn ein helpu i gydweithio'n well, osgoi ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol ac yn mynd i'r afael â rhai o'r heriau yr ydym yn eu hwynebu i'r dyfodol:

| | |
|---|---|
| ***Hyrwyddo'r iaith Gymraeg*** | *Mae'r iaith Gymraeg yn llinyn euraidd sy'n rhedeg drwy'r cynllun. Mae'n amcan sy'n torri ar draws holl waith y Bwrdd a rydym yn hyrwyddo'r defnydd o'r iaith ym mhob maes o'n gwaith ac yn gweithio gyda chymunedau i ddatblygu gwasanaethau a gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg.* |
| ***Lleihau anghydraddoldeb*** | *Byddwn yn parhau i dargedu adnoddau lleol a chenedlaethol o bwys i daclo anghydraddoldeb ac anfantais er mwyn cau'r bwlch sylweddol rhwng y cymunedau mwyaf breintiedig a'r cymunedau mwyaf difreintiedig.* |
| **Meddwl am y tymor hir** | Byddwn yn parhau i gasglu data i gael gwell dealltwriaeth o sut mae cymunedau yn edrych ar hyn o bryd, a sut y byddant yn edrych yn y dyfodol o ganlyniad i ffactorau fel newid demograffeg. Byddwn hefyd yn edrych i weld pa newidiadau cenedlaethol a rhyngwladol sydd ar y gorwel a cheisio dadansoddi'r effaith ar ein cymunedau ni. Drwy hyn gallwn gydweithio fel partneriaid a thrigolion i gynllunio'r gwasanaethau fydd eu hangen ar gyfer y dyfodol. |
| **Atal problemau** | Byddwn yn defnyddio data tueddiadau i adnabod y problemau fydd yn wynebu ein cymunedau yn y dyfodol ac yn datblygu a gweithredu cynlluniau i'w hatal. Byddwn yn cydweithio gyda chymunedau i'w galluogi i wneud mwy i atal problemau rhag datblygu a chefnogi rhaglenni all wneud gwahaniaeth go iawn yn y tymor hir. |
| **Cydweithio yn well** | Byddwn yn ceisio cael gwared â'r rhwystrau sy'n atal cydweithio effeithiol. Byddwn hefyd yn rhannu gwybodaeth ac arfer dda rhwng aelodau'r Bwrdd a'n trigolion am yr hyn sy'n cael ei wneud i wireddu amcanion a blaenoriaethau. Byddwn yn ystyried aelodaeth y Bwrdd yn rheolaidd ac yn sicrhau bod y partneriaid cywir yn cael eu cynnwys er mwyn cyflawni ein hamcanion. |
| **Integreiddio** | Byddwn yn gweithredu mewn ffordd fydd yn cyfrannu at fwy nag un amcan ble bo'n briodol ac yn unol ag amcanion llesiant cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Byddwn yn ceisio integreiddio gwasanaethau os bydd tystiolaeth yn dangos y byddai hyn yn sicrhau'r canlyniadau gorau i'n cymunedau. Byddwn yn ystyried strategaethau a chynlluniau lleol a rhanbarthol eraill sy'n gweithio tuag at yr un amcanion neu amcanion tebyg ac yn cydweithio er mwyn eu cyflawni. |
| **Cynnwys ein cymunedau** | Mae gan ein trigolion a'n cymunedau rôl bwysig i'w chwarae wrth gynllunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol a byddwn yn sicrhau bod eu safbwyntiau a'u profiadau'n ganolog i'r broses o gynllunio gwaith y Bwrdd. Byddwn yn mabwysiadu'r Safonau Cyfranogi Cenedlaethol ar gyfer pob oedran ac yn sicrhau bod y Bwrdd yn gweithio o fewn y safonau hynny. Byddwn yn sicrhau bod pobl yn gallu cyfathrebu â'r Bwrdd yn eu hiaith a'u cyfrwng o'u dewis. |

**1.0 Cyflwyniad**

Bu i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn (BGC) gynnal ymgynghoriad ar eu Cynllun Llesiant Drafft (2023-2028) er mwyn darganfod a oedd pobl yn credu y bydd y cynlluniau sydd ganddynt yn helpu i wneud pethau'n well i bobl a'u cymunedau. Roeddent hefyd eisiau gwybod os oedd gan bobl unrhyw syniadau eraill am sut y gallent weithio gyda'i gilydd er budd ein cymunedau.

Roedd yr ymgynghoriad ar agor rhwng 12 Rhagfyr 2022 a 6 Mawrth 2023.

Roedd modd ymateb i'r holiadur ar wefannau ymgynghoriadau Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn. Cafodd ei hyrwyddo drwy 'pop-up' ar wefan Cyngor Gwynedd wrth i bobl ymweld â'r wefan. Roedd copïau papur hefyd ar gael ym mhob llyfrgell yng Ngwynedd a Môn ac yn Siopau Gwynedd a Chyswllt Môn. Bu datganiad i'r wasg yn hyrwyddo'r ymgynghoriad ac anfonwyd e-byst i holl gynghorwyr Gwynedd a Môn. Cafodd yr ymgynghoriad ei hyrwyddo ar gyfryngau cymdeithasol y Bwrdd hefyd. Cafodd yr holiadur ei yrru yn ogystal i banel trigolion Cyngor Gwynedd i ganfod eu barn.

Cafwyd 499 o ymatebion i'r holiadur. Cafwyd 395 (79.2%) ymateb yn gyhoeddus ar y we, 102 (20.4%) gan Banel Trigolion Cyngor Gwynedd, a 2 (0.4%) ar ffurf copi papur.

Fel rhan o'r ymgynghori ar y cynllun, fe gynhaliwyd grwpiau ffocws gyda grwpiau allweddol yn y gymuned. Roedd rhain yn cynnwys digwyddiadau gyda Cyngor Pobl Hŷn Ynys Môn, Grŵp Llandrillo Menai Pwllheli, Grŵp Llandrillo Menai Llangefni a Clwb LHDTC+ Gisda.


## 2.0 Amdanoch Chi

**Cwestiwn 1:** Ydych chi'n ymateb i'r ymgynghoriad yma...

Gweler o'r tabl isod (Tabl 1) fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r holiadur wedi ateb fel unigolyn (92.6%, N=462). Cafwyd ymateb gan 12 (3.6%) sefydliad, grŵp neu fusnes, 5 (1.5%) cynghorydd sir a 3 (0.9%) Cyngor Tref neu Gymuned.

*Tabl 1 – Nifer a chanran o'r ymatebwyr atebodd yr ymgynghoriad fel unigolyn, Cynghorydd Sir, ar ran sefydliad, grŵp neu fusnes, neu ar ran Cyngor Tref / Cymuned yn ogystal a'r nifer ddewisodd i beidio ateb y cwestiwn.*

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Fel unigolyn | 462 | 92.6 |
| Fel Cynghorydd Sir | 7 | 1.4 |
| Ar ran sefydliad, grŵp neu fusnes | 17 | 3.4 |
| Ar ran Cyngor Tref / Cymuned | 5 | 1.0 |
| Dim ateb | 8 | 1.6 |
| **Cyfanswm** | **499** | **100.0** |




*Graff 1 – Canran o'r ymatebwyr atebodd yr ymgynghoriad fel unigolyn, Cynghorydd Sir, ar ran sefydliad, grŵp neu fusnes, neu ar ran Cyngor Tref / Cymuned yn ogystal a'r nifer ddewisodd i beidio ateb.*

**Cwestiwn 2:** Ym mha ardal llesiant ydych chi'n byw?


Gweler fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn byw yng Ngwynedd (67.1%, N=335), gyda bron i chwarter (23.8%, N=119) yr ymatebwyr yn byw ym Môn. Roedd yna gynrychiolaeth o bob ardal llesiant, er bod y niferoedd yn fychan iawn mewn rhai, fel y gwelir o'r tabl isod.

*Tabl 2 – Nifer a chanran yr ymatebwyr oedd yn byw ym mhob awdurdod.*

| Awdurdod | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ynys Môn | 119 | 23.8 |
| Gwynedd | 335 | 67.1 |
| Tu allan i Wynedd a Môn | 15 | 3.0 |
| Dim ateb | 30 | 6.0 |
| **Cyfanswm** | **499** | **100.0** |


*Tabl 3 – Nifer a chanran yr ymatebwyr oedd yn byw ym mhob Ardal Llesiant.*

| Ardal Llesiant | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Aethwy a Seiriol | 15 | 3.0 |
| Bro Aberffraw a Bro Rhosyr | 14 | 2.8 |
| Caergybi ac Ynys Cybi | 47 | 9.4 |
| Canolbarth Môn a Llifon | 24 | 4.8 |
| Lligwy a Twrcelyn | 14 | 2.8 |
| Talybolion | 5 | 1.0 |
| Bangor | 69 | 13.8 |
| Caernarfon | 85 | 17.0 |
| Dolgellau | 50 | 10.0 |
| Ffestiniog | 17 | 3.4 |
| Llŷn | 45 | 9.0 |
| Penllyn | 9 | 1.8 |
| Porthmadog | 34 | 6.8 |
| Tywyn | 26 | 5.2 |
| Tu allan i Wynedd a Môn | 15 | 3.0 |
| Heb ateb | 30 | 6.0 |
| **Cyfanswm** | **499** | **100.0** |





*Graff 2 – Nifer yr ymatebwyr oedd yn byw ym mhob awdurdod.*

Mae'n debyg ei bod yn well edrych ar y nifer sydd wedi ateb fesul 1,000 poblogaeth (ffigyrau Cyfrifiad 2021) ym mhob ardal. Fesul 1,000 o'r boblogaeth, ardal Caergybi ac Ynys Cybi sydd uchaf ym Môn ac ardal Dolgellau yng Ngwynedd.




*Graff 3 – Nifer ymatebion fesul 1,000 o'r boblogaeth 15 oed a throsodd Ynys Môn fesul Ardal Llesiant.*




*Graff 4 – Nifer ymatebion fesul 1,000 o'r boblogaeth 15 oed a throsodd Gwynedd fesul Ardal Llesiant.*

## 3.0 Amcanion Llesiant

Wrth ddefnyddio'r dystiolaeth yn yr Asesiadau Llesiant, mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi adnabod tri Amcan Llesiant drafft:

- Rydym am weithio gyda'n gilydd i liniaru effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau.
- Rydym am weithio gyda'n gilydd i flaenoriaethu lles a llwyddiant ein plant a phobl ifanc.
- Rydym am weithio gyda'n gilydd i gefnogi ein cymunedau i symud tuag at sero net carbon.


Bydd yr iaith Gymraeg yn llinyn euraidd sy'n rhedeg drwy'r cynllun.

**Cwestiwn 3.1:** Gan ystyried Amcan Llesiant 1 "Rydym am weithio gyda'n gilydd i liniaru effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau" yn eich barn chi ydy'r uchelgais a'r hyn gallem ei wneud i gyflawni'r amcan dros y pum mlynedd nesaf yn gyraeddadwy?

Roedd ychydig dros hanner o'r ymatebwr (52.9%, N=264) yn meddwl bod amcan llesiant 1 yn gyraeddadwy. Roedd ychydig dros draean o'r ymatebwyr (34.1%, N=170) yn anghytuno a 13.0% (N=65) o'r ymatebwyr hefo dim barn neu heb ateb.

*Tabl 4 – Nifer a chanran ymatebion os ydy'r uchelgais a'r hyn gall ei wneud i gyflawni'r amcan dros y pum mlynedd nesaf yn gyraeddadwy gan ystyried Amcan Llesiant 1.*

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ydy | 264 | 52.9 |
| Nac ydy | 170 | 34.1 |
| Dim barn | 51 | 10.2 |
| Dim ateb | 14 | 2.8 |
| **Cyfanswm** | **499** | **100.0** |





*Graff 5 – Canran ymatebion os ydy'r uchelgais a'r hyn gall ei wneud i gyflawni'r amcan dros y pum mlynedd nesaf yn gyraeddadwy gan ystyried Amcan Llesiant 1.*

**Cwestiwn 3.2:** Gan ystyried Amcan Llesiant 2 “Rydym am weithio gyda’n gilydd i flaenoriaethu lles a llwyddiant ein plant a phobl ifanc” yn eich barn chi ydy’r uchelgais a’r hyn gallem ei wneud i gyflawni’r amcan dros y pum mlynedd nesaf yn gyraeddadwy?

Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr (58.5%, N=292) yn meddwl fod amcan llesiant 2 yn gyraeddadwy, gydag ychydig o dan draean (29.3%, N=146) yn anghytuno a 12.2% (N=61) o’r ymatebwyr hefo dim barn neu heb ateb.

*Tabl 5 – Nifer a chanran ymatebion os ydy’r uchelgais a’r hyn gall ei wneud i gyflawni’r amcan dros y pum mlynedd nesaf yn gyraeddadwy gan ystyried Amcan Llesiant 2.*

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ydy | 292 | 58.5 |
| Nac ydy | 146 | 29.3 |
| Dim barn | 45 | 9.0 |
| Dim ateb | 16 | 3.2 |
| **Cyfanswm** | **499** | **100.0** |





*Graff 6 – Canran ymatebion os ydy’r uchelgais a’r hyn gall ei wneud i gyflawni’r amcan dros y pum mlynedd nesaf yn gyraeddadwy gan ystyried Amcan Llesiant 2.*

**Cwestiwn 3.3:** Gan ystyried Amcan Llesiant 3 "Rydym am weithio gyda'n gilydd i gefnogi ein cymunedau i symud tuag at Sero Net Carbon" yn eich barn chi ydy'r uchelgais a'r hyn gallem ei wneud i gyflawni'r amcan dros y pum mlynedd nesaf yn gyraeddadwy?

Ychydig iawn o wahaniaeth oedd rhwng y rhai oedd yn meddwl bod amcan 3 yn gyraeddadwy ai peidio. Roedd bron i hanner yr ymatebwyr (44.9%, N=224) o'r farn ei fod yn gyraeddadwy gyda bron yr hanner arall (43.9%, N=219) ohonynt yn anghytuno. Nid oedd gan (11.2% (N=56) o'r ymatebwyr farn neu heb ateb y cwestiwn.

*Tabl 6 – Nifer a chanran ymatebion os ydy'r uchelgais a'r hyn gall ei wneud i gyflawni'r amcan dros y pum mlynedd nesaf yn gyraeddadwy gan ystyried Amcan Llesiant 3.*

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ydy | 224 | 44.9 |
| Nac ydy | 219 | 43.9 |
| Dim barn | 43 | 8.6 |
| Dim ateb | 13 | 2.6 |
| **Cyfanswm** | **499** | **100.0** |




*Graff 7 – Canran ymatebion os ydy'r uchelgais a'r hyn gall ei wneud i gyflawni'r amcan dros y pum mlynedd nesaf yn gyraeddadwy gan ystyried Amcan Llesiant 3.*

**Cwestiwn 3.3.1:** Manylwch unrhyw wybodaeth ychwanegol i gefnogi eich ymatebion os gwelwch yn dda.

Roedd 253 wedi nodi gwybodaeth ychwanegol. Mae'r tabl isod yn nodi rhai o'r prif themâu gododd o'r sylwadau hynny. Noder fod yr rhan fwyaf o'r sylwadau sy'n ymwneud ag amddiffyn yr amgylchedd naturiol yn cael eu gwneud gan bobl sy'n cyfeirio at Parc Arfordirol Penrhos yn Ynys Môn.

***Noder mai prif themâu gyda 10 neu fwy mewn nifer yn ymateb sydd wedi eu cynnwys ar gyfer Tablau ar y tudalennau nesaf.***

*Tabl 7–Y prif themâu a nodwyd fel ymateb i'r cyfle i nodi unrhyw wybodaeth ychwanegol i gefnogi'r ymatebion i'r cwestiwn.*

| Thema |
|---|
| Angen pwyslais ar amddiffyn ein hamgylchedd naturiol a bywyd gwyllt sy'n gwella llesiant pobl |
| Uchelgeisiol, anodd eu gwireddu yn y sefyllfa bresennol (e.e. Oes cyllideb ar gael) |
| Anodd cyrraedd y targedau yma mewn ardal wledig lle nad oes cyfleusterau a gwaith |
| Angen mwy o gyngor am yr argyfwng hinsawdd (sero net carbon) cyn gweithredu |
| Dylid gadael pethau fel hinsawdd / net zero i'r Llywodraethau Cenedlaethol |
| Dim posib i'r cynllun lwyddo efo'r sefyllfa Costau Byw |
| Canmol / cytuno gyda'r amcanion |
| Angen mwy o wybodaeth er mwyn rhoi barn / gallu mesur |
| Angen buddsoddiad er mwyn cyrraedd yr amcanion |
| Gwaith a swyddi gwerth uchel ddylai fod y flaenoriaeth |
| Cynlluniau Net Zero am wneud rhai trigolion yn fwy tlawd |
| Angen mwy o ffocws ar blant a phobl ifanc |
| Angen buddsoddiad mewn ynni adnewyddadwy |
| Angen gweithredoedd pendant, nid geiriau |
| Angen gweithredoedd i ddelio gyda tlodi presennol |


## 4.0 Prif Negeseuon Asesiadau Llesiant

**Cwestiwn 4:** O ystyried Atodiad 1 o'r ddogfen drafft Cynllun Llesiant 'Prif negeseuon o'r Asesiadau Llesiant a gwblhawyd yn 2022' yn eich barn chi oes unrhyw amcanion llesiant wedi eu colli sydd angen ystyriaeth?

Roedd bron i draean yr ymatebwyr (35.5%, N=177) yn meddwl fod yna amcanion llesiant wedi eu colli ac angen ystyriaeth. Roedd bron i chwarter (22.4%, N=112) yn meddwl nad oedd yna amcanion llesiant ar goll, tra roedd mwyafrif o'r ymatebwyr (36.9%, N=184) heb farn.

*Tabl 8 – Nifer a chanran ymatebion os oes unrhyw amcanion llesiant wedi eu colli sydd angen ystyriaeth.*

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Oes | 177 | 35.5 |
| Nag oes | 112 | 22.4 |
| Dim barn | 184 | 36.9 |
| Dim ateb | 26 | 5.2 |
| **Cyfanswm** | **499** | **100.0** |




*Graff 8 – Canran ymatebion os oes unrhyw amcanion llesiant wedi eu colli sydd angen ystyriaeth*

**Cwestiwn 4.1:** Manylwch unrhyw wybodaeth ychwanegol i gefnogi eich ymatebion os gwelwch yn dda

Roedd 151 o'r ymatebwyr wedi nodi gwybodaeth ychwanegol. Mae'r tabl isod yn nodi rhai o'r prif themâu a gododd o'u hymatebion. Cafwyd nifer o sylwadau yn ymwneud â gwarchod ardaloedd gwyrdd / natur lleol (rhai yn ymwneud â safleoedd penodol yn arbennig safle arfordirol Penrhos). Fel arall roedd y prif themâu yn ymwneud â iechyd, newid hinsawdd / yr amgylchedd lleol, a gwella chyflogaeth ac incwm yn yr ardal.

*Tabl 9 –Y prif themâu a nodwyd fel ymateb i'r cyfle i nodi unrhyw wybodaeth ychwanegol i gefnogi'r ymatebion i Gwestiwn 4.*

| Thema |
|---|
| Amddiffyn ardaloedd gwyrdd, natur ar gyfer llesiant, coedwigoedd, mynediad i natur |
| Iechyd - iechyd meddwl, gordewdra, darpariaeth i bawb, gwasanaethau cymdeithasol / ataliol, addysg iechyd |
| Angen sylw i newid hinsawdd a gwarchod yr amgylchedd lleol |
| Gwella swyddi / incwm / cyflogau / cefnogaeth i fusnesau yn yr ardal |
| Angen cynnwys yr holl gymuned a grwpiau oedran wrth lunio'r Cynllun ac yn y cynlluniau |
| Trafnidiaeth gyhoeddus cynaliadwy a dibynadwy / problemau parcio / teithio llesol |
| Amheuon a fydd y Cynllun yn cyflawni / angen mwy o fanylder / angen meddwl ar raddfa llai |


Ymchwil Gwynedd

## 5.0 Themâu yn codi o'r grwpiau ffocws

Ydach chi'n cytuno gyda'r amcanion arfaethedig?

Ar y cyfan roedd y grwpiau ffocws yn cytuno gyda'r amcanion gan nodi eu bod yn canolbwyntio ar broblemau sy'n bodoli ym mywydau pawb. Cafwyd rhai pryderon am fanylder y cynlluniau ar hyn o bryd a'r angen am fesurau penodol i sicrhau monitro'r amcanion. Nodwyd hefyd na ddylai amcanion fod yn annibynnol ar ei gilydd ond yn hytrach yn dylanwadu ar ei gilydd. Roedd peth aneglurder am yr iaith Gymraeg fel llinyn euraidd sy'n rhedeg drwy'r cynllun gyda rhai yn awgrymu dylai'r iaith Gymraeg fod yn amcan ar ei ben ei hun.

Beth sydd ar goll?

Dyma restr o'r hyn roedd y grwpiau ffocws yn gredu oedd ar goll.

- Strategaeth ar gyfer pobl hŷn a'r angen i fod yn gymuned oed gyfeillgar
- Gwelliannau i wasanaethau iechyd meddwl
- Taclo unigrwydd yn enwedig mewn cymunedau gwledig
- Digartrefedd
- Gweithio gyda theuluoedd
- Blaenoriaethu cynhyrchwyr a ffermwyr lleol
- Canolbwyntio ar dai fforddiadwy
- Ffocws penodol ar yr hinsawdd
- Hyfforddiant i gyrff cyhoeddus ar faterion sensitif
- Angen helpu'r rheiny sydd mewn gwaith ond yn cael trafferthion ariannol
- Cymorth i gymunedau helpu eu hunain oresgyn tlodi
- Taclo'r broblem ail gartrefi / cartrefi gwyliau
- Hwyluso a hybu pobl i brynu ceir trydan
- Cyfleon am brofiadau gwaith yn brin
- Cynlluniau am ddyfodol ein hysgolion
- Angen llawer mwy o bwyslais ar greu swyddi i gadw pobl ifanc yn eu cymunedau

Roedd sylwad hefyd nad oedd cynrychiolaeth ar y Bwrdd gan bobl ifanc.

Ydi rhain yn gyraeddadwy?

Roedd rhai amheuon bod yr amcanion braidd yn rhy uchelgeisiol o fewn cyfnod o 5 mlynedd ond roedd hefyd consensws os byddai pawb yn cyd-weithio yn effeithiol y byddai hyn yn bosibl. Nodwyd hefyd bod angen bod yn glir ar sut roedd modd dal y Bwrdd i gyfrif am yr hyn fyddant yn weithredu ac fel nodwyd yn barod, bod angen mesurau clir i fesur llwyddiant gan gynnwys yr elfennau meddal.

Ydyn nhw ddigon uchelgeisiol?

O ran bod yn ddigon uchelgeisiol roedd y mwyafrif o'r grwpiau ffocws yn cytuno eu bod yn ddigon uchelgeisiol o ystyried yr hinsawdd ariannol ar hyn o bryd. Roedd ambell sylwad y gallai fod yn fwy uchelgeisiol drwy gynnwys rhai o'r materion oedd yn cael eu hystyried ar goll uchod.

## 6.0 Cydweithio


**Cwestiwn 5:** Rydym am i bawb fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun i'r dyfodol, sut ydych yn meddwl y gallwch chi a'ch cymunedau ein helpu i gyflawni'r tri Amcan Llesiant dros y bum mlynedd nesaf?

Roedd hwn yn gwestiwn aml-ddewisol felly roedd posib dewis mwy nag un opsiwn yma. Gweler mai'r ddau opsiwn mwyaf poblogaidd oedd yr opsiynau oedd yn ymwneud â'r gymuned sef "cynnal grwpiau ffocws Cymunedol a grymuso cymunedau" (58.7%, N=293), a "chynnal digwyddiadau a chyflawni prosiectau Cymunedol" (55.7%, N=278). Roedd 42.3% (N=211) eisiau "cyd-rannu gwybodaeth gyda'r Bwrdd", 40.9% (N=204) eisiau "dilyn gwaith y bwrdd ar gyfryngau cymdeithasol", ac 20.8% (N=104) "eisiau mynychu cyfarfodydd y Bwrdd".

*Tabl 10 – Nifer a chanran ymatebion ynglŷn a sut gall yr ymatebwyr a'u cymunedau helpu i gyflawni'r tri Amcan Llesiant dros y bum mlynedd nesaf.**

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cyd-rannu gwybodaeth gyda'r Bwrdd | 211 | 42.3 |
| Cynnal digwyddiadau a chyflawni prosiectau cymunedol | 278 | 55.7 |
| Mynychu cyfarfodydd y Bwrdd | 104 | 20.8 |
| Dilyn gwaith y bwrdd ar gyfryngau cymdeithasol | 204 | 40.9 |
| Cynnal grwpiau ffocws cymunedol a grymuso cymunedau | 293 | 58.7 |
| Arall | 77 | 15.4 |

**Roedd modd i'r ymatebwyr ddewis mwy nac un opsiwn.*




*Graff 9 – Canran ymatebion ynglŷn a sut gall yr ymatebwyr a'u cymunedau helpu i gyflawni'r tri Amcan Llesiant dros y bum mlynedd nesaf.**

Nododd 15.4% (N=77) y byddent yn gallu helpu cyflawni'r tri amcan llesiant mewn ffordd arall. Roedd y ffyrdd eraill yma yn cynnwys y themâu â nodwyd yn y tabl isod.

*Tabl 11 – Nifer a chanran y prif themâu a nodwyd fel ymateb i'r cyfle i nodi unrhyw wybodaeth ychwanegol ar ôl dewis 'Arall' fel ymateb i Gwestiwn 5.*

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Sicrhau bod y gymuned yn cael llais - gan gynnwys pawb | 29 | 40.8 |
| Dal y Bwrdd i gyfrif / Herio bod y cynllun gael ei gwblhau | 13 | 18.3 |
| Dim pwynt - byth yn gwrando | 8 | 11.3 |
| Sicrhau bod busnesau lleol yn cael mewnbwn | 8 | 11.3 |

## 7.0 Sylwadau Pellach

**Cwestiwn 6:** Nodwch isod os oes gennych unrhyw sylwadau pellach am Gynllun Llesiant Drafft Gwynedd a Môn 2023-28 os gwelwch yn dda.

Roedd gan 138 o'r ymatebwyr sylwadau ychwanegol i'w gwneud. Mae rhai o'r prif themâu â godwyd yn cael eu nodi yn y tabl isod. Noder fod yr rhan fwyaf o'r sylwadau sy'n ymwneud â amddiffyn yr amgylchedd naturiol yn cael eu gwneud gan bobl sy'n cyfeirio at Parc Arfordirol Penrhos yn Ynys Môn.

*Tabl 12 – Nifer a chanran y prif themâu a nodwyd fel ymateb i'r cyfle i nodi unrhyw sylwadau pellach.*

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Angen pwyslais ar amddiffyn ein hamgylchedd naturiol / safleoedd gwyrdd a natur | 39 | 28.3 |
| Angen cynnwys cymunedau i wneud penderfyniadau | 19 | 13.8 |
| Dylid sicrhau ei fod yn cael ei weithredu | 18 | 13.0 |
| Angen sicrhau cyfleon cyfartal i bawb | 10 | 7.2 |
| Angen llawer mwy o fanylion yn y cynllun | 10 | 7.2 |


## 8.0 Effaith ar y Gymraeg

**Cwestiwn 7:** Beth ydych chi'n credu byddai effaith y gwaith hwn ar y Gymraeg, y cyfleoedd i'w ddefnyddio a'i statws o fewn y gymuned?

Roedd hanner yr ymatebwyr (50.1%, N= 250) yn meddwl byddai'r cynllun yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg, 28.9% (N=144) yn meddwl y byddai'n cael effaith niwtral a 6.4% (N=32) yn meddwl y byddai'n cael effaith negyddol. Nid oedd gan 14.6% (N=73) o'r ymatebwyr farn ar effaith y cynllun ar yr iaith Gymraeg.

*Tabl 13 – Nifer a chanran ymatebion ynglŷn ag effaith y gwaith hwn ar y Gymraeg, y cyfleoedd i'w ddefnyddio a'i statws o fewn y gymuned.*

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Effaith gadarnhaol | 134 | 26.9 |
| Ychydig o effaith gadarnhaol | 116 | 23.2 |
| Niwtral | 144 | 28.9 |
| Ychydig o effaith negyddol | 5 | 1.0 |
| Effaith negyddol sylweddol | 27 | 5.4 |
| Dim barn | 58 | 11.6 |
| Dim ateb | 15 | 3.0 |
| **Cyfanswm** | **499** | **100.0** |




*Graff 10 – Canran ymatebion ynglŷn ag effaith y gwaith hwn ar y Gymraeg, y cyfleoedd i'w ddefnyddio a'i statws o fewn y gymuned.*

**Cwestiwn** : Unrhyw sylwadau i esbonio eich barn?

Roedd gan 122 o'r ymatebwyr sylwadau pellach i'w gwneud. Mae rhai o'r themâu a godwyd i'w gweld yn y tabl isod.

*Tabl 14 – Nifer a chanran y prif themâu a nodwyd fel ymateb i'r cyfle i nodi unrhyw sylwadau pellach i esbonio eu barn.*

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cyfleon i unigolion ddysgu Cymraeg a bod yn rhan o gymuned ddwyieithog | 33 | 27.0 |
| Dathlu'r iaith a chefnogi cymunedau i ddefnyddio'r iaith | 26 | 21.3 |
| Pam bod angen pwyslais ar yr iaith Gymraeg - mwy o gost di-angen | 23 | 18.9 |
| Mwy o gyfleoedd gwaith yn yr ardal i gadw ein pobl ifanc yn eu cymunedau | 20 | 16.4 |
| Y ffaith bod yr Iaith yn cael ystyriaeth drwy'r cynllun | 16 | 13.1 |
| Cadw unigolion/teuluoedd yn eu cymunedau Cymraeg drwy dai fforddiadwy | 11 | 9.0 |
| Anodd dweud heb weld y cynllun gweithredu | 10 | 8.2 |

**Cwestiwn** : Oes yna unrhyw gyfleoedd yn eich barn chi i addasu'r hyn sydd yn cael ei gynnig er mwyn cael effaith fwy cadarnhaol ar y Gymraeg a defnydd ohoni, neu i gael gwared ar unrhyw effeithiau negyddol?

Atebodd 96 o'r ymatebwyr y cwestiwn yma. Mae'r tabl isod yn nodi'r prif themâu a godwyd o'r ymatebion.

*Tabl 15 – Nifer a chanran y prif themâu a nodwyd fel ymateb i'r cyfle i nodi unrhyw gyfleoedd i addasu'r hyn sydd yn cael ei gynnig er mwyn cael effaith fwy cadarnhaol ar y Gymraeg a defnydd ohoni, neu i gael gwared ar unrhyw effeithiau negyddol.*

| Thema | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Darparu gwersi Cymraeg / hybu pobl di-Gymraeg i siarad Cymraeg | 33 | 34.4 |
| Gŵyl ar gyfer yr iaith Gymraeg i hybu diwylliant Cymreig | 19 | 19.8 |
| Peidio gorfodi Cymraeg ar bawb | 14 | 14.6 |
| Cyfathrebu yn ddwyieithog | 11 | 11.5 |

# Asesiad Effaith Cydraddoldeb (AEC) (yn cynnwys yr Iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol)

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Enw'r Polisi neu'r Ymarfer** | Cynllun Llesiant BGC Gwynedd ac Ynys Môn 2023-28 | | |
| **Swyddog Cyfrifol / Pennaeth Adran** (yn gyfrifol am y Polisi neu'r Ymarfer) | Sandra Lynne Thomas, Rheolwr Rhaglen, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn | | |
| **Gwasanaeth / Adran** | Tîm Arweinyddiaeth, Cyngor Gwynedd | **Dyddiad Dechrau'r Asesiad** | Rhagfyr 2022 |

| **Enw'r swyddog(ion) (a phartneriaid) sy'n llenwi'r AEC** | | |
|---|---|---|
| **Enw(au)** | **Teitl(au) Swydd** | **Llofnod(ion)** |
| Cyngor Gwynedd | Prif Weithredwr | |
| Cyngor Sir Ynys Môn | Prif Weithredwr | |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru | Prif Swyddog | |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Prif Weithredwr | |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | Prif Weithredwr | |

*Ystyriwch ddefnyddio teitlau swydd yn unig wrth gyhoeddi

| Fersiwn y Ddogfen | Dyddiad Adolygu | Disgrifiwch y Newidiadau'n Fras | | AEC wedi'i Gymeradwyo gan Swyddog Cyfrifol / Pennaeth Adran / Gwasanaeth / Pwyllgor | |
|---|---|---|---|---|---|
| **V1 – V3** | **12/22 – 03/23** | Drafftiau cynnar, ymgynghori gyda partneriaid | | **Dyddiad y Cwblhawyd yr AEC** | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **V4** | **17/04/23** | Fersiwn iw gyfieuthu | | | |
| **V5** | **25/04/23** | Fersiwn gorffenedig | | | |
| | | | | | |

## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn declyn aml-ddefnydd sy'n sicrhau y gweithredir camau priodol i gydymffurfio â deddfwriaeth Asesiad Effaith Cydraddoldeb, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac i ddangos ein bod wedi rhoi ystyriaeth briodol i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol dan y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol. Mae hefyd yn sicrhau ein bod yn cymryd camau priodol i gydymffurfio efo gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Adran 44: Mesur yr Gymraeg (Cymru) 2011) i ystyried effaith penderfyniadau strategol a pholisi ar yr iaith.

Wrth gynllunio i gyflwyno polisi neu ymarfer newydd, neu adolygu un sy'n bodoli eisoes, newid neu dorri gwasanaeth neu wneud penderfyniadau strategol, mae gofyn i ni ystyried a fydd y penderfyniad yn effeithio'n anghymesur ar bobl sy'n rhannu un neu fwy o nodweddion gwarchodedig neu a fyddai'n medru creu canlyniadau anghyfartal yn sgil anfanteision economaidd-gymdeithasol. Os yw'n debygol y bydd hyn yn digwydd, rhaid i ni weithredu'n briodol. Nid ein hatal rhag gwneud pethau yw bwriad y broses AEC, ond yn hytrach sicrhau ein bod wedi ystyried yr effaith. Mae'n ein helpu i ganolbwyntio ar y camau y gallwn eu gweithredu i ddileu a/neu liniaru unrhyw effaith anghymesur neu wahaniaethol a chyflwyno mesurau i weld cynnydd mewn cyfleoedd cyfartal.

I gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gyffredinol a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, rhaid rhoi 'sylw ddyledus' (neu ystyried yr angen yn gydwybodol) i: ddileu gwahaniaethu, gweld cynnydd mewn cyfleoedd cyfartal a meithrin perthnasau da a'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Po fwyaf perthnasol a phosib yw'r effaith, po fwyaf yw'r gofyn i ystyried y ddyletswydd. Bydd y Ddyletswydd Gyffredin yn fwy perthnasol i rai swyddogaethau nag eraill ac fe allant hefyd fod yn fwy perthnasol i rai nodweddion gwarchodedig nac eraill. Rhaid cyflawni'n dyletswydd yn fanwl, gyda meddwl agored a rhaid ei hystyried ar adeg y bydd yn gwneud gwahaniaeth i'n penderfyniadau. Rhaid asesu effaith polisïau sydd o berthnasedd uchel bob amser, megis penderfyniadau cyllidebol strategol, rhaglenni grantiau, newidiadau i ddarpariaeth gwasanaeth (yn cynnwys atal neu ad-drefnu gwasanaethau), a pholisïau recriwtio neu dâl. Gweler Canllawiau Asesu Effaith y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) a'r am arweiniad pellach. Ni ellir dirprwyo ein dyletswydd i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth hon.

Dylai'r ffurflen hon ddangos pa gamau a gymerwyd i gynnal yr asesiad yn cynnwys gwaith ymgysylltu/ymgynghori perthnasol, y wybodaeth a gafodd ei hystyried, canlyniadau'r asesiad ac unrhyw benderfyniadau a wnaed yn sgil y canlyniadau hynny. Dylid cyhoeddi'r AEC os yw'n dangos y bydd effaith sylweddol (neu debygol) ar ein gallu i gyflawni'r Ddyletswydd Gyffredinol.

**Manteision cynnal AEC:**

- Cael gwell dealltwriaeth o'r bobl fyddai'n cael eu heffeithio gan y polisi neu'r ymarfer
- Medru diwallu anghenion gwahanol yn well a bod yn fwy hygyrch a chynhwysol
- Galluogi cynllunio i lwyddo - mae'n nodi'r peryglon posib a chanlyniadau anfwriadol cyn gwneud unrhyw ddifrod
- Galluogi gwell cynllunio fydd yn gwneud penderfyniadau rhagweithiol yn hytrach na rhai adweithiol, gan osgoi gorfod dadwneud penderfyniadau fyddai â goblygiadau ar gostau ac ar enw da
- Dangos fod penderfyniadau wedi cael eu gwyntyllu'n llawn ac wedi ystyried barn y bobl fydd yn cael eu heffeithio
- Ein galluogi ni i reoli disgwyliadau wrth egluro'r cyfyngiadau yr ydym yn gweithio oddi mewn iddynt (e.e. cyllideb)
- Helpu i osgoi risgiau a gwella canlyniadau i unigolion
- Gwneud i ffwrdd ag ymarferion amhriodol neu newidiol a dileu gwahaniaethu sefydliadol
- Sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal a bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg.

Mae'r ddogfen hon yn ymddangos yn un hir, ond yn ogystal â chynnwys camau angenrheidiol y broses, mae hefyd yn cynnwys nodiadau canllaw yn y meysydd allweddol i'ch cynorthwyo wrth gynnal AEC. Ceir dolenni ychwanegol i wybodaeth bellach hefyd i'ch cynorthwyo. Ceir mwy o wybodaeth ar GIG/CLlLC PSED/ AEC fan hyn.



**Camau Asesu Effaith Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg**

Cam 1 - Nodi Prif Nodau ac Amcanion y Polisi neu'r Ymarfer
Cam 2 - Data, Ymgysylltu ac Asesu'r Effaith
Cam 3 - Caffael a Phartneriaethau
Cam 4 - Ymdrin ag Effaith Andwyol neu Anghyfreithlon a Chryfhau'r Polisi neu'r Ymarfer
Cam 5 - Penderfynu Mynd Ymlaen
Cam 6 - Camau Gweithredu a Threfniadau i Fonitro'r Canlyniadau ac Adolygu Data
Cam 7 - Cyhoeddi'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb

**Nodyn Pwysig i'r Swyddog/ion sy'n cynnal yr asesiad:**

Mae'n bwysig fod yr AEC yn cael ei gwblhau pan fo'r polisi neu'r ymarfer yn cael ei ddatblygu er mwyn medru defnyddio darganfyddiadau'r AEC i ddylanwadu ar y polisi neu'r ymarfer a'i siapio. Argymhellir fel isafswm i'r asesiad gael ei gwblhau gan swyddog arweiniol sy'n gyfrifol am y polisi neu'r ymarfer, arbenigwr yn y maes a chyfaill beirniadol gydag o leiaf un person sydd wedi derbyn hyfforddiant ffurfiol ar AEC. Fel rhan o'r broses wneud penderfyniadau, mae angen cyflwyno'r ddogfen hon i'r sawl sy'n gwneud y penderfyniad ynghyd â drafft o'r polisi neu'r ymarfer.

Os ydych yn datblygu strategaeth neu gynllun lefel uchel nad yw'n cynnwys digon o fanylion i ddangos sut y bydd yn effeithio ar unigolion neu grwpiau (h.y. pan fydd cynlluniau a gweithrediadau'n gorwedd o dan y strategaeth fydd yn penderfynu hyn), dylech barhau i gynnal yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb llawn. Efallai y bydd angen i chi gwblhau Asesiadau Effaith Cydraddoldeb eraill ar y cynlluniau a'r camau gweithredu sydd

o dan y strategaeth lefel uchel. Bydd hyn yn sicrhau eich bod yn dangos eich bod wedi rhoi ystyriaeth briodol i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gyffredinol, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, Safonau'r Iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol.

Os yw eich polisi neu ymarfer yn deillio o gyfarwyddyd gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru neu Awdurdod Lleol, dylech barhau i asesu effaith hyn yn lleol i nodi unrhyw effaith wahaniaethol yn sgil gwahaniaeth lleol**.**

Dylech ystyried p'un ai yw digwyddiadau eraill, megis Covid-19, Brexit, Black Lives Matter ac ati wedi tynnu sylw at anghydraddoldebau neu wedi eu dwysáu sy'n gofyn i chi roi sylw iddynt wrth i chi weithio trwy'r AEC.

## CAM 1 - Nodi Prif Nodau ac Amcanion y Polisi neu'r Ymarfer

**1. Beth sy'n cael ei asesu?** *(Cliciwch ddwywaith ar y bocs(ys) perthnasol (x) a dewiswch 'wedi'i dicio' fel sy'n briodol)*

☐ Polisïau, ymarfer neu weithdrefnau newydd neu sy'n cael eu hadolygu (sy'n addasu darpariaeth gwasanaeth neu arferion cyflogaeth)

☐ Adolygiad gwasanaeth neu gynigion ad-drefnu sy'n effeithio ar y gymuned a/neu staff, e.e. darpariaeth blynyddoedd cynnar, gofal, addysg

☐ Cynigion effeithlonrwydd neu arbedion, e.e. sy'n arwain at newid cyfleusterau cymunedol, cyfleoedd cefnogaeth neu gyflogaeth

☐ Gosod dyraniadau cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd a chynllunio ariannol strategol

☐ Penderfyniadau sy'n effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr neu'r gymuned ehangach yn cynnwys comisiynu/digomisiynu neu adolygu gwasanaethau

☐ Cynigion prosiect newydd sy'n effeithio ar staff, cymunedau neu ar hygyrchedd i'r amgylchedd adeiledig, e.e. gwaith adeiladu newydd neu addasiadau i adeiladau presennol, symud i wasanaethau ar-lein, hunanwasanaeth, newid lleoliad

☐ Digwyddiadau Cyhoeddus Mawr

☑ Gweithredu Strategaeth/Cynlluniau/Deddfwriaeth Genedlaethol yn lleol (cyfeiriwch at unrhyw AEC cenedlaethol ac ystyried effaith leol)

☑ Cyfarwyddeb a bwriad strategol, yn cynnwys y rhai y mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn eu datblygu sy'n effeithio ar swyddogaethau cyrff cyhoeddus

☑ ☐ Cynlluniau tymor canolig i'r tymor hir (er enghraifft, cynlluniau corfforaethol, cynlluniau datblygu, darparu gwasanaeth a chynlluniau gwella)

☑ Gosod amcanion (er enghraifft, amcanion llesiant, amcanion cydraddoldeb, strategaeth Iaith Gymraeg)

☐ Penderfyniadau caffael a chomisiynu mawr

☑ Penderfyniadau sy'n effeithio ar y gallu (yn cynnwys gan bartneriaid allanol) i gynnig cyfleoedd a gwasanaethau yn y Gymraeg

☐ Eraill, eglurwch yn y bocs isod:

| |
|---|
| |

**2. Beth yw nodau, amcanon a chanlyniadau arfaethedig y polisi neu'r ymarfer?**

| |
|---|
| Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi creu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cydweithio i greu gwell dyfodol i bobl Cymru. Mae Gwynedd ac Ynys Môn yn cydweithio fel un Bwrdd. |

Mae BGC Gwynedd ac Ynys Môn yn cynnwys y ddau Gyngor Sir, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyfoeth Naturiol Cymru ynghyd â nifer o sefydliadau eraill, e.e. Grŵp Llandrillo Menai, Heddlu Gogledd Cymru, Mantell Gwynedd, Medrwn Môn, Prifysgol Bangor, cynrychiolwyr y sector tai, ac ati.

Bob pum mlynedd, mae asesiad o lesiant lleol yn cael ei gyhoeddi ac yn cynnwys ymchwil manwl ar faterion economaidd, cymdeithasol a diwylliannol. Mae hefyd yn gyfle i drigolion ddweud beth sy'n dda am eu cymunedau a beth sydd ddim cystal. Cynhaliwyd yr Asesiadau Llesiant diwethaf yn ystod 2022. Mae'r Asesiadau Llesiant ar gael ar ein Gwefan.

Un o brif swyddogaethau statudol y BGC dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) yw cynhyrchu Cynllun Llesiant a fydd yn nodi sut fydd y BGC yn cydweithio i wella llesiant y bobl a'r cymunedau yng Ngwynedd ac Ynys Môn nawr ac yn y dyfodol. Mae'r Cynllun Llesiant yn cynrychioli'r gwerth ychwanegol a ellir ei gyflwyno drwy weithio yn arloesol ac ar y cyd fel partneriaid. Mae cyfnod y cynllun llesiant presennol 2018-2023 yn dirwyn i ben a bydd ein cynllun llesiant newydd yn ei le am y pum mlynedd nesaf 2023-2028.

Gan ddefnyddio'r dystiolaeth yn y gweithdai Asesiad Llesiant gydag aelodau'r BGC a'r ymgynghoriad cyhoeddus, mae'r BGC wedi adnabod **tri Amcan Llesiant:**

- Rydym am weithio gyda'n gilydd i liniaru effaith **tlodi** ar lesiant ein cymunedau.
- Rydym am weithio gyda'n gilydd i wella lles a llwyddiant **ein plant a'n pobl ifanc** er mwyn gwireddu eu llawn botensial**.**
- Rydym am weithio gyda'n gilydd i gefnogi ein gwasanaethau a'n cymunedau i symud tuag at **Sero Net Carbon.**

Yn ogystal, mae'n bwysig nodi bod y **Gymraeg** yn linyn euraidd sy'n rhedeg drwy'r cynllun. Rydym yn hyrwyddo'r defnydd o'r iaith ymhob agwedd o'n gwaith a byddwn yn gweithio gyda chymunedau i ddatblygu gwasanaethau a gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gyfle i rannu arfer dda, hybu'r iaith a sicrhau bod gan drigolion y ddwy sir fynediad at yr holl wasanaethau cyhoeddus drwy gyfrwng y Gymraeg. Enghraifft o hyn yw'r gwaith a gwblhawyd yn ddiweddar i annog a grymuso cwsmeriaid i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus. Byddwn hefyd yn ystyried datrysiadau i annog siaradwyr Cymraeg i chwilio am swyddi lle mae Cymraeg yn sgil allweddol. Manylir ar gamau pellach mewn perthynas â'r iaith Gymraeg o dan bob un o'r amcanion.

Ar gyfer pob amcan, mae camau a deilliannau cadarn ynghylch sut all y BGC gyflawni a sut mae'n cyfrannu at bob un o'r Nodau Llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.



### 3. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghorol (budd-ddeiliaid)?

*Noder: Ystyriwch gymunedau buddiant neu gymunedau lleoedd (lle mae pobl wedi'u grwpio efo'i gilydd oherwydd nodweddion penodol neu oherwydd lle maen nhw'n byw)*

Y prif grwpiau ymgynghori ar gyfer Cynllun Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn yw:

- Trigolion Gwynedd ac Ynys Môn – mae'r rhain wedi cael eu grwpio yn ardaloedd llesiant drwy'r Asesiadau Llesiant a gynhaliwyd yn 2021 a nodweddion penodol ar gyfer pob un o'r 14 ardal llesiant a ellir eu gweld yn yr asesiadau ar ein gwefan www.llesiantgwyneddamon.org Adnabuwyd ffactorau megis nodweddion y boblogaeth ac iaith, yr amgylchedd, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.
- Mae holl aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – Statudol a gwahoddedigion, hefyd yn ran-ddeiliaid, ac maent yn cynnwys Grŵp Llandrillo Menai, Heddlu Gogledd Cymru, Mantell Gwynedd, Medrwn Môn, Prifysgol Bangor, cynrychiolwyr y sector tai, ac ati.

Ymysg y grwpiau yr ymgysylltwyd yn benodol â nhw yn ystod yr ymgynghoriad oedd:

- Grwpiau Cydraddoldeb gan gynnwys GISDA LGBTQ+
- Fforymau a grwpiau â diddordeb sy'n cynrychioli neu'n gweithio gyda phobl a/neu blant gyda nodweddion cydraddoldeb
- Pobl ifanc (Myfyrwyr Coleg Menai)
- Y Fforwm Pobl Hŷn a'r Cyngor Pobl Hŷn
- Panel Trigolion Cyngor Gwynedd
- Cynghorau Tref a Sir
- Cwmni Bro Ffestiniog

Rhyngweithio ar y cyfryngau cymdeithasol (Facebook a Twitter) – gwefannau partneriaid y BGC, gwefan Cyngor Gwynedd, gwefan Cyngor Sir Ynys Môn, e-newyddlenni aelodau etholedig a staff y Cyngor.



**4. Ydi'r polisi'n ymwneud â, wedi'i ddylanwadu gan, neu wedi'i effeithio gan bolisïau neu feysydd gwaith eraill (mewnol neu allanol), e.e. AEC strategol os yw hwn yn AEC gweithredol neu i'r gwrthwyneb?**

*Noder: Ystyriwch hyn o ran gofynion statudol, polisïau lleol, penderfyniadau (partneriaeth) rhanbarthol, polisïau cenedlaethol, diwygio lles.*
Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb hwn yn ystyried y Cynllun yn ei gyfanrwydd. Bydd pob menter yn y Cynllun yn gofyn am Asesiad Effaith ar wahân naill ai ar y fenter yn ei chyfanrwydd neu ar rannau penodol ohono. Mae'n ddyletswydd ar yr arweinwyr prosiect unigol neu'r grŵp sy'n gyfrifol am y fenter i ymgymryd â'r Asesiad(au).
Rydym hefyd wedi cynnal adolygiad o gynlluniau strategol yr holl bartneriaid strategol yn enwedig mewn perthynas â'r Gymraeg, llesiant a newid hinsawdd. Mae ymarferiad tebyg ar y gweill ar gyfer y partneriaid anstatudol.

## CAM 2 - Data, Ymgysylltu ac Asesu'r Effaith

Wrth lenwi'r adran hon, rhaid i chi ystyried a oes gennych ddigon o wybodaeth i lenwi'ch AEC, neu a oes angen cwblhau cyfnod o ymgysylltu/ ymgynghori cyn parhau. Mae'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r broses AEC yn gofyn i chi **ymgysylltu â phobl sy'n cynrychioli budd y sawl sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig a'u cynnwys yn y broses *a'r* sawl sydd â buddiant yn y modd yr ydych yn**

**cyflawni eich swyddogaethau**. Mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn gofyn i ni **ystyried lleisiau'r bobl yn y gymuned yn cynnwys y rhai hynny sydd wedi byw â phrofiad o anfantais economaidd-gymdeithasol**. Dylech ymgysylltu gyda chymunedau buddiant neu gymunedau lleoedd i ddeall a yw'ch cynigion yn effeithio mwy arnynt neu yn eu rhoi dan fwy o anfantais. Mae angen i hyn fod yn gymesur â'r polisi neu'r ymarfer sy'n cael ei asesu. Cofiwch y gall budd-ddeiliaid hefyd gynnwys ein staff ein hunain yn ogystal â sefydliadau partner.

Cyn cynnal gweithgarwch ymgysylltu penodol, dylech yn gyntaf ddefnyddio'r data o waith ymgynghori, ymgysylltu ac ymchwilio diweddar. Gall hyn fod ar bolisi perthnasol diweddar neu asesiadau diweddar a gynhaliwyd gan gydweithwyr neu ffynonellau eraill, e.e. A yw Cymru'n Decach?, Dogfen Data Cefndirol Gogledd Cymru, InfoBase Cymru, MALlC. Gall hyn helpu i fagu hyder ymysg grwpiau a chymunedau ein bod yn gweithredu ar yr hyn y maen nhw wedi'i ddweud. Os nad oes gennych fawr o wybodaeth, neu ddim hyd yn oed, o ymgysylltu blaenorol sy'n berthnasol i'r AEC hwn, dylech ymgymryd â rhywfaint o waith ymgysylltu gyda'ch budd-ddeiliaid a chyda grwpiau cynrychioli perthnasol i sicrhau nad ydych yn anghofio anghenion pob grŵp gwarchodedig heb yn wybod i chi. Yn arferol nid yw hi'n dderbyniol i nodi'n y bydd polisi yn fanteisiol/anfanteisiol i bawb yn gyffredinol, ac felly bydd unigolion yn cael eu heffeithio'n gyfartal waeth beth fo'u nodweddion. Dylai'r dadansoddiad hwn fod yn fwy cadarn na hyn, yn dangos eich bod wedi ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael ac wedi rhoi sylw i unrhyw fylchau neu wahaniaethau. Efallai y bydd angen camau penodol i ymdrin ag anfantais sy'n bodoli neu i ddiwallu gwahanol anghenion.

Gall **Egwyddorion Gunning**, a sefydlwyd o achosion llys blaenorol, helpu i sicrhau ein bod yn defnyddio tegwch wrth ymgysylltu ac ymgynghori:

Egwyddor 1: Rhaid ymgynghori pan fo'r cynigion dal yn cael eu ffurfio. Ni ddylech fod wedi penderfynu yn barod.
Egwyddor 2: Rhaid cyflwyno rhesymau digonol i ganiatáu ystyriaeth ac ymateb deallus. Ydi'r bobl wedi cael y wybodaeth a'r cyfle i ddylanwadu?
Egwyddor 3: Rhaid rhoi digon o amser i ystyried ac ymateb. A yw'r ymgynghoriad yn ddigon hir o gofio'r amgylchiadau?
Egwyddor 4: Rhaid mynd ati'n gydwybodol i ystyried cynnyrch yr ymgynghori wrth benderfynu'n derfynol.

**5. Ydych chi wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgysylltu yn unol â'r hyn a ddisgrifir uchod ac a ydych wedi derbyn digon o wybodaeth i fynd ymlaen?**

Do X ☐ Naddo ☐ ***(dileer fel sy'n briodol X)***

**6. Os do, pa weithgarwch wnaethoch chi ei gynnal a gyda phwy?**

| |
|---|
| Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar y cynllun Llesiant drafft o 13 Rhagfyr 2022 hyd 6 Mawrth 2023 i gyflwyno ac egluro'r blaenoriaethau drafft i'r cyhoedd, partneriaid a sefydliadau lleol a chodi ymwybyddiaeth o'r cyfle iddynt gymryd rhan yn yr ymarferiad drwy gwblhau holiadur ar-lein byr ar wefan Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn gan gysylltu â holiadur Limesurvey a lwyfannwyd ar wefan Cyngor Gwynedd.<br>*Cynllun Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn (llesiantgwyneddamon.org)*<br><br>Hefyd, roedd copïau papur ar gael mewn llyfrgelloedd ac ardaloedd derbynfa cyhoeddus yng Ngwynedd ac Ynys Môn ac roedd copïau ar ffurfiau eraill ar gael ar gais. |

Tudalen 64

Fe ymatebodd 499 i'r holiadur (gan gynnwys Panel Trigolion Gwynedd):

*Tabl 1 – Nifer a chanran o'r ymatebwyr atebodd yr ymgynghoriad fel unigolyn, Cynghorydd Sir, ar ran sefydliad, grŵp neu fusnes, neu ar ran Cyngor Tref / Cymuned yn ogystal a'r nifer ddewisodd i beidio ateb y cwestiwn.*

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Fel unigolyn | 462 | 92.6 |
| Fel Cynghorydd Sir | 7 | 1.4 |
| Ar ran sefydliad, grŵp neu fusnes | 17 | 3.4 |
| Ar ran Cyngor Tref / Cymuned | 5 | 1.0 |
| Dim ateb | 8 | 1.6 |
| **Cyfanswm** | **499** | **100.0** |

Cafodd cynifer o bobl â phosib yng Ngwynedd ac Ynys Môn eu hannog i gwblhau a dychwelyd yr holiadur. Rhyddhawyd datganiad i'r wasg ar 16 Ionawr 2023. Cafodd hwn ei ryddhau gan y ddau Gyngor, gyda'r neges hefyd yn cael ei rhaeadru drwy bartneriaid y BGC, ar y cyfryngau cymdeithasol ac e-newyddlenni. Cafodd aelodau etholedig a chynghorau cymuned eu hysbysu drwy e-bost uniongyrchol a bu i staff yn y ddau Gyngor hefyd dderbyn gwybodaeth mewn rhai bwletinau staff.

**Cwestiwn 2:** Ym mha ardal llesiant ydych chi'n byw?

Gweler fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn byw yng Ngwynedd (67.1%, N=335), gyda bron i chwarter (23.8%, N=119) yr ymatebwyr yn byw ym Môn. Roedd yna gynrychiolaeth o bob ardal llesiant, er bod y niferoedd yn fychan iawn mewn rhai, fel y gwelir o'r tabl isod.

*Tabl 2 – Nifer a chanran yr ymatebwyr oedd yn byw ym mhob awdurdod.*

| Awdurdod | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Ynys Môn | 119 | 23.8 |
| Gwynedd | 335 | 67.1 |
| Tu allan i Wynedd a Môn | 15 | 3.0 |
| Dim ateb | 30 | 6.0 |
| **Cyfanswm** | **499** | **100.0** |

*Tabl 3 – Nifer a chanran yr ymatebwyr oedd yn byw ym mhob Ardal Llesiant.*

| Ardal Llesiant | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Aethwy a Seiriol | 15 | 3.0 |
| Bro Aberffraw a Bro Rhosyr | 14 | 2.8 |
| Caergybi ac Ynys Cybi | 47 | 9.4 |

| | | |
|---|---|---|
| Canolbarth Môn a Llifon | 24 | 4.8 |
| Lligwy a Twrcelyn | 14 | 2.8 |
| Talybolion | 5 | 1.0 |
| Bangor | 69 | 13.8 |
| Caernarfon | 85 | 17.0 |
| Dolgellau | 50 | 10.0 |
| Ffestiniog | 17 | 3.4 |
| Llŷn | 45 | 9.0 |
| Penllyn | 9 | 1.8 |
| Porthmadog | 34 | 6.8 |
| Tywyn | 26 | 5.2 |
| Tu allan i Wynedd a Môn | 15 | 3.0 |
| Heb ateb | 30 | 6.0 |
| **Cyfanswm** | **499** | **100.0** |



Bu i ni gysylltu â chynifer o grwpiau â diddordeb â phosib, a grwpiau sy'n cynrychioli neu'n gweithio â phobl a/neu blant gyda nodweddion cydraddoldeb i'w hysbysu o'r ymgysylltiad a gofyn iddynt roi gwybod i'w defnyddwyr am yr holiadur.

Yn ogystal, bu i ni gynnig mynychu cyfarfodydd gwahanol grwpiau cymunedol a grwpiau â diddordeb i gynnal trafodaethau wyneb-yn-wyneb a chael barn wahanol. Roedd hwn yn gyfle i edrych mewn rhagor o fanylder ar beth oedd pobl yn ei feddwl am y cynllun. Bu i ni siarad â thua 200 o bobl yn gyffredinol yn y grwpiau hyn. Yn eu mysg oedd:

- Arweinydd Tîm Prosiect Ieuenctid LGBTQ+ GISDA
- Dau grŵp o fyfyrwyr Grŵp Llandrillo Menai (Pwllheli a Llangefni)
- Y Fforwm Pobl Hŷn – Ardal De Meirionnydd, Gwynedd
- Grŵp Trydydd Sector – Gwynedd
- Fforwm Pobl Hŷn – Ynys Môn
- Fforwm Cyngor Tref a Chymuned – Ynys Môn
- Cwmni Bro Ffestiniog
- Gwneuthurwyr Newid Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 100 (Will Stewart, Cyngor Môn a Dafydd Gruffydd, Menter Môn)

**7.** **Os mai Na yw eich ateb, efallai y byddwch yn dymuno ystyried atal y gwaith er mwyn i chi gynnal gweithgarwch ymgysylltu (pellach) y gallwch ei gynnwys yn y cynllun gweithredu isod.** Cynhwyswch unrhyw wybodaeth a gafwyd o'r gweithgarwch ychwanegol hwn yn y bocsys yng nghwestiwn 8.

| Gweithrediad | Dyddiadau | Amserlen | Cyfrifoldeb Arweiniol | Gwybodaeth wedi'i hychwanegu i'r AEC ( ) |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |





8. **Pa wybodaeth sydd gennych am yr effaith ar bob un o'r nodweddion a'r ystyriaethau/dyletswyddau statudol a ganlyn o'ch profiad chi o'r ddarpariaeth gwasanaeth fel mae'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd, adc o'r gwaith ymgysylltu neu ymgynghori diweddar?** Cynhwyswch unrhyw ddata perthnasol ychwanegol; gwybodaeth o ymchwil a rheoli perfformiad; arolygon; astudiaethau gan Lywodraeth, corff proffesiynol neu sefydliad; Data Cyfrifiad; A yw Cymru'n Decach? (Data CCHD[1]); gwybodaeth o sgrinio cychwynnol; cwynion/clod; data ac adborth defnyddwyr gwasanaeth; arolygon/archwiliadau; data economaidd-gymdeithasol yn cynnwys data WIMD[2]. Efallai y byddwch yn dymuno cynnwys isdeitlau i ddangos o ble y daw pob elfen o'ch data, e.e., data cenedlaethol, data lleol, data'r sefydliad, ymarferion ymgysylltu cyffredinol neu benodol ac ati.


   Ystyriwch unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol yn cynnwys tueddiadau mewn data, daearyddiaeth (materion trefol neu wledig), demograffeg, materion mynediad, rhwystrau ac ati. Cynhwyswch hefyd unrhyw feysydd eraill lle ceir canlyniadau anghyfartal sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol neu unrhyw faterion perthnasol a nodwyd gan gymunedau buddiant neu gymunedau lleoedd (h.y. lle mae budd-ddeiliaid, defnyddwyr gwasanaeth, staff, cyrff cynrychioladol, ac ati wedi eu grwpio gyda'i gilydd oherwydd nodweddion penodol neu oherwydd lle maen nhw'n byw) ac unrhyw faterion a nodwyd ar gyfer pobl sy'n byw mewn amgylchiadau cymdeithasol a /neu economaidd llai ffafriol.

| Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig | Data Perthnasol | Effaith gadarnhaol a/neu negyddol | Prompt (nid yw hon yn rhestr gyflawn) **Ystyriwch:** |
|---|---|---|---|
| **Hil** | O ganlyniad i gamgymeriad yn holiadur yr ymgynghoriad ar-lein, nid oedd data hil ar gael. Fodd bynnag, mynychodd nifer o unigolion | Effaith gadarnhaol | Sut mae eich cynnig yn ystyried:<br>Ethnigrwydd<br>Cenedl |


| Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig | Data Perthnasol | Effaith gadarnhaol a/neu negyddol | Prompt<br>(nid yw hon yn rhestr gyflawn)<br>**Ystyriwch:** |
|---|---|---|---|
| | lleiafrifoedd ethnig y sesiynau ymgynghori wyneb yn wyneb a chymryd rhan yn y sesiynau grŵp.<br><br>Cadarnhaodd yr ymatebion i'r holiaduron fod tlodi'n effeithio ar bob sector o'n cymdeithas. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y byddai cymryd camau gyda'n gilydd i fynd i'r afael â thlodi, gwella lles ein plant a'n pobl ifanc a chymryd camau i liniaru newid yn yr hinsawdd yn effeithio'n gadarnhaol ar bawb.<br><br>Mae'r cynllun yn cynnwys deall a mynd i'r afael â rhwystrau i gael mynediad at wasanaethau yn ogystal â hyrwyddo amrywiaeth ddiwylliannol. | | Sipsiwn / Teithwyr<br>Iaith: darparu cyfieithydd<br>Ffoaduriaid / Ceiswyr Lloches<br>Mudwyr<br>Gweithredu Cadarnhaol<br>Digwyddiadau ymwybyddiaeth<br>Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddiddymu Pob Math o Wahaniaethu ar Sail Hil (UNCERD)<br>Ystyriwch faterion croesdoriadaeth<br>Cyd-gynhyrchu |
| **Anabledd** | Anabledd<br><br>Gan ddefnyddio'r diffiniad Adran 6 (1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl? | Effaith gadarnhaol | Sut mae eich cynnig yn ystyried model cymdeithasol anabledd?<br>Ystyriwch rwystrau fel Symudedd / Medrusrwydd<br>Pobl ddall neu sydd â nam ar eu golwg<br>Pobl F/fyddar neu â nam clyw<br>Iechyd Meddwl<br>Anableddau Dysgu<br>Dementia<br>Gwahaniaeth niwrolegol / Awtistiaeth<br>Cyd-gynhyrchu<br>Mynediad i adeiladau / cyfleusterau<br>Dulliau cyfathrebu<br>Gofalwyr<br>Cyflyrau iechyd tymor hir eraill<br>Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau (UNCRPD)<br>Ystyriwch faterion croesdoriaethaeth |


| **Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig** | **Data Perthnasol** | **Effaith gadarnhaol a/neu negyddol** | **Prompt**<br>(nid yw hon yn rhestr gyflawn)<br>**Ystyriwch:** |
|---|---|---|---|
| | <br>*Graff 18 – Canran ymatebwyr wedi eu rhannu yn ôl eu hymateb i'r cwestiwn uchod.*<br><br>Er ein bod wedi cymryd camau i gyrraedd pobl gydag amhariad corfforol neu iechyd meddwl ac mae eu barn wedi'u hadlewyrchu yn yr holiaduron, roeddem yn siomedig na fu i ni fynychu Hwb Mencap yn Llangefni, er i ni gael cynnig dau ddyddiad i'w mynychu. Rydym yn y broses o drefnu ymweliad – tebygol o drafod y fersiwn sydd wedi'i chyhoeddi ac nid y drafft yn sgil yr amseriad, ond byddwn yn eu hannog i weithio â ni dros oes y cynllun mewn rôl fonitro a chraffu. | | |
| **Rhyw** | Rhyw | | Sut mae eich cynnig yn ystyried<br>Dynion / Merched<br>Hunaniaeth Rhywedd<br>Cyfleusterau toiled / newid babi<br>Gofal plant<br>Bwlch Tâl Rhwng y Rhywiau |


| Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig | Data Perthnasol | Effaith gadarnhaol a/neu negyddol | Prompt<br>(nid yw hon yn rhestr gyflawn)<br>**Ystyriwch:** |
|---|---|---|---|
| | <br>*Graff 11 – Canran ymatebwyr wedi eu rhannu yn ôl rhyw.* | | Gweithwyr rhyw<br>[Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddiddymu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Merched (UNCEDAW)]<br>Ystyriwch faterion croesdoriaethaeth<br>Cyd-gynhyrchu |
| **Oedran** | <u>Grŵp oedran</u> | Effaith gadarnhaol | Sut mae eich cynnig yn ystyried oedran<br>Pobl Hŷn<br>Plant<br>Pobl Ifanc<br>Pobl o Oed Gweithio<br>Teuluoedd Ifanc<br>Demograffeg<br>DS: Os oes plant / pobl ifanc yn cael eu heffeithio, cwblhewch y Rhestr Wirio Hawliau Plant<br>['Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)] |

| Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig | Data Perthnasol | Effaith gadarnhaol a/neu negyddol | Prompt<br>(nid yw hon yn rhestr gyflawn)<br>**Ystyriwch:** |
|---|---|---|---|
| | <br><br>*Graff 12 – Canran ymatebwyr wedi eu rhannu yn ôl grwp oedran.*<br><br>Mae'r Cynllun yn gosod allan sut y byddwn yn cyd-gynllunio gwasanaethau a gweithgareddau ataliol i gefnogi teuluoedd cyn i'r angen am wasanaethau dwys godi. Byddwn yn annog plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i wella eu hiechyd er mwyn iddynt allu byw yn iach ac yn annibynnol o fewn eu cymunedau i'r hir dymor. Byddwn yn gweithio i sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc yn cael profiadau cadarnhaol yn ystod eu plentyndod ac yn rhoi blaenoriaeth i gefnogi teuluoedd er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.<br><br>Mae'r Fforymau Pobl Hŷn yn y ddwy sir wedi nodi y byddant yn gweithio gyda ni wrth symud ymlaen i fonitro ein cynnydd a chynghori ar faterion sy'n effeithio arnynt. | | Cyfrifoldebau gofalu<br>Ystyriwch faterion croesdoriaethaeth<br>Cyd-gynhyrchu |

Tudalen 72

| Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig | Data Perthnasol | Effaith gadarnhaol a/neu negyddol | Prompt<br>(nid yw hon yn rhestr gyflawn)<br>**Ystyriwch:** |
|---|---|---|---|
| | Mae cynhwysiant digidol yn gam gweithredu allweddol yn Amcan 1 ynghylch mynd i'r afael â thlodi. | | |
| **Crefydd a Chred** | <u>Crefydd</u><br><br><br>*Graff 15 – Canran ymatebwyr wedi eu rhannu yn ôl crefydd.* | | Sut mae eich cynnig yn ystyried crefydd, cred neu ddiffyg cred?<br>Cymunedau ffydd<br>Dim Cred<br>Gofynion diet<br>Bwydlysyddiaeth / Feganiaeth<br>Credoau athronyddol eraill<br>Cod gwisg / gwisgoedd ffurfiol<br>Gwyliau/gweithgareddau crefyddol<br>Cyd-gynhyrchu<br>Ystyriwch faterion<br>Croesdoriaethaeth |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | <u>Rhywioldeb</u> | | Sut mae eich cynnig yn ystyried cyfeiriadedd rhywiol?<br>Hoyw<br>Lesbiaidd<br>Deurywiol<br>Heterorywiol<br>Terminoleg<br>Cyfrinachedd ynghylch rhywioldeb<br>Cyplau yr un rhyw<br>Pethynas agosaf (next of kin)<br>Cyd-gynhyrchu |

| **Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig** | **Data Perthnasol** | **Effaith gadarnhaol a/neu negyddol** | **Prompt**<br>(nid yw hon yn rhestr gyflawn)<br>**Ystyriwch:** |
|---|---|---|---|
| | <br>*Graff 16 – Canran ymatebwyr wedi eu rhannu yn ôl rhywioldeb.* | | Ystyriwch faterion croesdoriaethaeth |
| **Ail-bennu Rhywedd** | <u>Hunaniaeth Rhywedd</u><br><br>Ydi eich hunaniaeth rhywedd wedi newid o'r hyn a bennwyd adeg eich geni? (er enghraifft rydych chi'n drawsrywiol neu trans ayyb) | | Sut mae eich cynnig yn ystyried y gymuned trans?<br>Person sy'n bwriadu, wedi dechrau neu wedi gorffen newid eu hunaniaeth rhywedd<br>Trawsryweddol<br>Defnyddio iaith yn briodol, h.y. rhagenwau priodol<br>Cyfleusterau newid a thoiledau sy'n niwtral o ran rhywedd<br>Cyd-gynhyrchu<br>Ystyriwch faterion croesdoriaethaeth |

| Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig | Data Perthnasol | Effaith gadarnhaol a/neu negyddol | Prompt (nid yw hon yn rhestr gyflawn) **Ystyriwch:** |
|---|---|---|---|
| | <br>*Graff 17 – Canran ymatebwyr wedi eu rhannu yn ôl eu hymateb i'r cwestiwn uchod.* | | |
| **Priodas a Phartneriaeth sifil** | | | Statws priodasol<br>Statws partneriaeth sifil<br>Ystyriwch faterion croesdoriaethaeth<br>Cyd-gynhyrchu |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | Mae Amcan 2 yn gosod gweithred penodol lle byddwn ni'n cwmpasu datblygiad Strategaeth Blynyddoedd Cynnar ac yn gweithredu cynlluniau i fynd i'r afael â bylchau o ran darparu gwasanaethau a chymorth i sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd. | Effaith gadarnhaol | Mamau beichiog<br>Pobl sydd â hawl i absenoldeb mamolaeth a thadolaeth<br>Maethu / Mabwysiadu<br>Mamau sy'n bwydo o'r fron<br>Ystyriwch faterion croesdoriaethaeth<br>Cyd-gynhyrchu |
| **Yr iaith Gymraeg** | **Cwestiwn 7:** Beth ydych chi'n credu byddai effaith y gwaith hwn ar y Gymraeg, y cyfleoedd i'w ddefnyddio a'i statws o fewn y gymuned? | Effaith gadarnhaol | Sicrhau statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg. |

<table>
<tr>
<th>Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig</th>
<th>Data Perthnasol</th>
<th>Effaith gadarnhaol a/neu negyddol</th>
<th>Prompt<br>(nid yw hon yn rhestr gyflawn)<br>Ystyriwch:</th>
</tr>
<tr>
<td></td>
<td>
Roedd hanner yr ymatebwyr (50.1%, N= 250) yn meddwl byddai'r cynllun yn cael effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg, 28.9% (N=144) yn meddwl y byddai'n cael effaith niwtral a 6.4% (N=32) yn meddwl y byddai'n cael effaith negyddol. Nid oedd gan 14.6% (N=73) o'r ymatebwyr farn ar effaith y cynllun ar yr iaith Gymraeg.<br><br>
Tabl 13 – Nifer a chanran ymatebion ynglŷn ag effaith y gwaith hwn ar y Gymraeg, y cyfleoedd i'w ddefnyddio a'i statws o fewn y gymuned.<br><br>
<table>
<tr><th></th><th>Nifer</th><th>Canran</th></tr>
<tr><td>Effaith gadarnhaol</td><td>134</td><td>26.9</td></tr>
<tr><td>Ychydig o effaith gadarnhaol</td><td>116</td><td>23.2</td></tr>
<tr><td>Niwtral</td><td>144</td><td>28.9</td></tr>
<tr><td>Ychydig o effaith negyddol</td><td>5</td><td>1.0</td></tr>
<tr><td>Effaith negyddol sylweddol</td><td>27</td><td>5.4</td></tr>
<tr><td>Dim barn</td><td>58</td><td>11.6</td></tr>
<tr><td>Dim ateb</td><td>15</td><td>3.0</td></tr>
<tr><td>Cyfanswm</td><td>499</td><td>100.0</td></tr>
</table>
<br>
Mae'r Gymraeg yn llinyn euraidd sy'n rhedeg drwy ein cynllun. Rydym yn hybu'r defnydd o'r iaith ymhob agwedd o'n gwaith ac yn gweithio gyda chymunedau i ddatblygu gwasanaethau a gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gyfle i rannu arferion da, hyrwyddo'r iaith a sicrhau bod gan drigolion y ddwy sir fynediad at yr holl wasanaethau cyhoeddus drwy gyfrwng y Gymraeg. Manylir ar y camau pellach mewn perthynas â'r Gymraeg o dan bob un o'r amcanion.<br><br>
Mae'r BGC yn cynnal ei holl gyfarfodydd drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda gwasanaeth cyfieithu i'r Saesneg ar gael. Mae'r Is-grŵp y
</td>
<td></td>
<td>
Argaeledd gwasanaethau, gweithgareddau a gwybodaeth a mynediad atynt.<br>
Technoleg<br>
Hawliau unigolion i ofn am wasanaethau yn y Gymraeg.<br>
Yr effaith ar gymunedau Cymraeg, yn cynnwys:<br>
Effeithiau cadarnhaol / negyddol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.<br>
Newidiadau posib i nifer/canran y siaradwyr Cymraeg<br>
Mudo<br>
Cyfleoedd gwaith / newidiadau staffio.<br>
Anghenion a chyfleoedd hyfforddi<br>
Argaeledd addysg cyfrwng Cymraeg<br>
Ystyriwch faterion croesdoriaethaeth<br>
Cyd-gynhyrchu
</td>
</tr>
</table>

| Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig | Data Perthnasol | Effaith gadarnhaol a/neu negyddol | Prompt<br>(nid yw hon yn rhestr gyflawn)<br>**Ystyriwch:** |
|---|---|---|---|
| | Gymraeg wedi gweithio'n benodol ar brosiectau i hybu'r Gymraeg ac mae gennym gynlluniau yn eu lle i barhau â gwaith yr Is-grŵp yn ystod oes y cynllun llesiant newydd. Enghraifft o'r gwaith a gwblhawyd gyda chomisiwn gyda Iaith Cyf oedd annog a grymuso cwsmeriaid i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus. Ar hyn o bryd, mae gennym gynnig i ystyried datrysiadau i annog siaradwyr Cymraeg i chwilio am swyddi lle mae'r Gymraeg yn sgil allweddol. | | |
| **Ystyriaethau Economaidd-gymdeithasol** | Mae'r Cynllun Llesiant yn nodi'n benodol y bwriad i fynd i'r afael â thlodi ar draws ein cymunedau fel blaenoriaeth (Amcan 1). Bydd rhai o'r gweithrediadau yn effeithio nifer o barthau fel:<br>• Byddwn yn gweithredu caffael cyhoeddus sy'n gymdeithasol gyfrifol, er budd y gadwyn gyflenwi leol a hyrwyddo economi gylchol yn lleol.<br>• Byddwn yn cynnig swyddi amrywiol, o safon, gyda chyflogau da sydd yn rhan allweddol o gadw pobl yn eu cymunedau, ac o ganlyniad yn cael effaith gadarnhaol ar gynnal yr iaith Gymraeg.<br>• Byddwn yn ymrwymo i ddatblygu meddylfryd gwaith teg, rhoi gwaith teg wrth wraidd polisïau a chynlluniau, creu gwaith teg a bod yn esiamplau o waith teg yng Ngwynedd a Môn gan arddangos gwerth dull gweithredu o'r fath i fusnesau a'r gymuned a hyrwyddo mynediad i waith teg i bawb.<br>• Byddwn yn cefnogi cynhwysiant digidol ac yn hyrwyddo gwytnwch i droseddu seiber drwy rannu gwybodaeth am sgamiau ar-lein. | Effaith gadarnhaol | Pobl sy'n byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol nag eraill sy'n byw yn yr un gymdeithas. Gall nifer o ffactorau bywyd bob dydd waethygu anfantais, nid dim ond ffiniau trefol neu wledig. Ystyriwch faterion croesdoriaethaeth – lle mae hunaniaeth yn cymhlethu statws economaidd-gymdeithasol, e.e. rhieni sengl (menywod yn aml), pobl anabl, rhai grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Ystyriwch y gall yr effaith fod mewn nifer o barthau, er enghraifft: Anghydraddoldebau mewn Addysg, Iechyd, Safonau Byw. Gwaith, Cyfiawnder a Diogelwch a Chyfranogiad.<br>Esiamplau |

Tudalen 76

| Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig | Data Perthnasol | Effaith gadarnhaol a/neu negyddol | Prompt<br>(nid yw hon yn rhestr gyflawn)<br>**Ystyriwch:** |
|---|---|---|---|
| | Mae Amcan 2 yn benodol yn cyfeirio at wella lles a llwyddiant plant a phobl ifanc. Gyda nifer o weithrediadau yn cynnwys:<br>• Byddwn yn ymrwymo i gynlluniau'r Bwrdd Bregusrwydd a Cham-fanteisio Gogledd Cymru sy'n cwmpasu'r gweithgarwch i amddiffyn poblogaeth gogledd Cymru gan gynnwys gwaith penodol i ddiogelu pobl ifanc.<br>• Byddwn yn cefnogi'r Strategaeth Genedlaethol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.<br>• Byddwn yn gweithio i sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd, gan gynnwys y rhai sy'n agored i niwed neu yn ein gofal, yn wydn ac yn barod ar gyfer cyflogaeth, addysg bellach neu hyfforddiant. Mae hyn yn cynnwys edrych ar Sgiliau Gwyrdd a sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer y dyfodol.<br>• Byddwn yn codi ymwybyddiaeth yn y system am effeithiau Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod (ACE) a thrawma, a'r cyfleoedd i atal amlygiad, lliniaru risgiau a mynd i'r afael a niwed.<br>• Rydym yn ymrwymo i fod yn Fwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus sy'n Wybodus am Drawma. | | |
| **Hawliau Dynol** | Rydym wedi asesu effaith y Cynllun arfaethedig ar wahanol grwpiau cydraddoldeb gan gynnwys casglu a dadansoddi data perthnasol ac ymgynghori â phobl sy'n debygol o gael eu heffeithio. Byddwn yn adolygu ac yn diwygio'r polisïau yng ngoleuni'r asesiad a'r ymgynghoriad yn barhaus. | Effaith gadarnhaol | Gweler Erthyglau Hawliau Dynol<br>Ystyriwch faterion croesdoriaeth |
| **Arall (nodwch os gwelwch yn dda)** | | | E.e., Caethwasiaeth Fodern, Diogelu, Effeithiau eraill Covid, Gofalwyr, Cyn-droseddwyr, Cyn aelodau'r lluoedd arfog, Pobl sy'n |

| Nodwedd / Grŵp Gwarchodedig | Data Perthnasol | Effaith gadarnhaol a/neu negyddol | **Prompt**<br>(nid yw hon yn rhestr gyflawn)<br>**Ystyriwch:** |
|---|---|---|---|
| | | | Gadael Gofal, Cam-drin Sylweddau, y Digartref<br>Ystyriwch faterion croesdoriadaeth |

| | |
|---|---|
| **Deddf Hawliau Dynol 1998**<br>• Erthygl 2 Yr hawl i fyw<br>• Erthygl 3 Y rhyddid rhag arteithio a thriniaeth annynol neu ddiraddiol<br>• Erthygl 4 Y rhyddid rhag Caethwasiaeth a llafur gorfodol<br>• Erthygl 5 Yr hawl i ryddid a diogelwch<br>• Erthygl 6 Yr hawl i brawf teg<br>• Erthygl 7 Yr hawl i beidio â chael eich cosbi ac eithrio dan gyfraith droseddol | • Erthygl 8 Yr hawl i barch i fywyd, teulu, cartref a gohebiaeth breifat<br>• Erthygl 9 Yr hawl i ryddid meddwl, cred a chrefydd<br>• Erthygl 10 Yr hawl i ryddid mynegiant<br>• Erthygl 11 Yr hawl i Ymgynnull ac ymgysylltu'n rhydd ag Eraill<br>• Erthygl 12 Yr hawl i briodi a sefydlu teulu<br>• Erthygl 13 Yr hawl i gael mynediad i unioni effeithiol os caiff eich hawliau eu torri<br>• Erthygl 14 Gwarchod rhag gwahaniaethu |



**9. Oes yna unrhyw fylchau data neu wybodaeth ac os felly beth yw'r rhain a sut ydych yn bwriadu ymdrin ag hwy?**

Er ein bod wedi cymryd camau i gyrraedd pobl gydag amhariad corfforol neu iechyd meddwl ac mae eu barn wedi'u hadlewyrchu yn yr holiaduron, roeddem yn siomedig na fu i ni fynychu Hwb Mencap yn Llangefni, er i ni gael cynnig dau ddyddiad i'w mynychu. Rydym yn y broses o drefnu ymweliad – tebygol o drafod y fersiwn sydd wedi'i chyhoeddi ac nid y drafft yn sgil yr amseriad, ond byddwn yn eu hannog i weithio â ni dros oes y cynllun mewn rôl fonitro a chraffu.

Mae'r ystadegau ynghylch yr ymatebion gan leiafrifoedd ethnig ar goll o'r dadansoddiad o'r holiaduron a gwblhawyd. Rydym yn ymchwilio a byddwn yn sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu.

Mae Amcan 1 yn benodol yn gwneud cyfeiriadau at gynnal dadansoddiad GAP i adnabod grwpiau daearyddol a chymunedol sy'n cael eu heffeithio gan dlodi.

Noder: Os nad yw'n bosib cael y wybodaeth hon nawr, dylech gynnwys hyn yn eich cynllun gweithredu yng Ngham 6 er mwyn i'r wybodaeth hon fod ar gael ar gyfer AEC yn y dyfodol.

**10. Os ydych yn diweddaru'r AEC hwn o fersiwn flaenorol o bolisi neu ymarfer tebyg, a gafodd canlyniadau arfaethedig y cynnig hwnnw eu cyflawni neu a oedd yna ganlyniadau eraill?** (Rhowch fanylion, er enghraifft, oedd yr effaith wedi'i chyfyngu i'r bobl yr oeddech wedi meddwl fyddai'n cael eu heffeithio'n wreiddiol, neu a gafodd bobl eraill eu heffeithio? Os felly, sut?)

Do, cynhyrchwyd AEC ar gyfer Cynllun Llesiant 2018. Ers hynny, mae'r pedwar (bellach yn dri) BGC yng Ngogledd Cymru wedi cydweithio i gomisiynu gwaith ymchwil i gyrraedd cymunedau anodd i'w cyrraedd ac ymgysylltu â nhw ar yr Asesiadau Llesiant a'r broses Cynllunio Llesiant. Bellach mae hwn yn ymarfer sydd wedi'i ymgorffori ar gyfer y BGC ac wedi'i adlewyrchu wrth osod y gyllideb a'r cylch comisiynu ar gyfer defnyddio cronfeydd rhanbarthol.

Mae'r cynllun newydd hwn yn adlewyrchu'r profiad a'r dysgu a wnaed gan BGC Gwynedd ac Ynys Môn dros y pum mlynedd diwethaf ac yn canolbwyntio'n benodol ar yr ardaloedd lle mae partneriaid y BGC yn teimlo y gallant weithio gyda'i gilydd i wneud gwahaniaeth. Mae llai o amcanion allweddol o gymharu â'r cynllun diwethaf (3 yn lle 7), ac maent wedi cael eu dilysu yn erbyn amcanion strategol sefydliadau partner y BGC fel y gall y BGC ychwanegu gwerth a hyrwyddo cydweithio rhwng y partneriaid.

Roedd rhai o'r grwpiau yr ymgysylltwyd â nhw yn ystod yr ymgynghoriad wedi dangos yr hoffent ddiweddariadau rheolaidd ar gynnydd ac rydym wedi cytuno i gysylltu â nhw'n fwy rheolaidd gyda nhw gyda'r bwriad o gael mewnbwn ffurfiol ganddynt ar yr asesiadau effaith sy'n parhau.

**Cwestiwn 5:** Rydym am i bawb fod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun i'r dyfodol, sut ydych yn meddwl y gallwch chi a'ch cymunedau ein helpu i gyflawni'r tri Amcan Llesiant dros y bum mlynedd nesaf?

Roedd hwn yn gwestiwn aml-ddewisol felly roedd posib dewis mwy nag un opsiwn yma. Gweler mai'r ddau opsiwn mwyaf poblogaidd oedd yr opsiynau oedd yn ymwneud â'r gymuned sef "cynnal grwpiau ffocws Cymunedol a grymuso cymunedau" (58.7%, N=293), a "chynnal digwyddiadau a chyflawni prosiectau Cymunedol" (55.7%, N=278). Roedd 42.3% (N=211) eisiau "cyd-rannu gwybodaeth gyda'r Bwrdd", 40.9% (N=204) eisiau "dilyn gwaith y bwrdd ar gyfryngau cymdeithasol", ac 20.8% (N=104) "eisiau mynychu cyfarfodydd y Bwrdd".

*Tabl 10 – Nifer a chanran ymatebion ynglŷn a sut gall yr ymatebwyr a'u cymunedau helpu i gyflawni'r tri Amcan Llesiant dros y bum mlynedd nesaf.**

| | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Cyd-rannu gwybodaeth gyda'r Bwrdd | 211 | 42.3 |
| Cynnal digwyddiadau a chyflawni prosiectau cymunedol | 278 | 55.7 |
| Mynychu cyfarfodydd y Bwrdd | 104 | 20.8 |
| Dilyn gwaith y bwrdd ar gyfryngau cymdeithasol | 204 | 40.9 |
| Cynnal grwpiau ffocws cymunedol a grymuso cymunedau | 293 | 58.7 |
| Arall | 77 | 15.4 |

**Roedd modd i'r ymatebwyr ddewis mwy nac un opsiwn.*

**11. Beth mae eich cynnig yn ei gynnwys i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin cysylltiadau da a chydlyniant cymunedol ehangach; fel y mae'r 3 nod yn ei gwmpasu. o'r Ddyletswydd Gyffredinol yn Neddf Cydraddoldeb 2010)?**

Bwriad yr amcanion arfaethedig a'r meysydd blaenoriaeth yn y Cynllun Llesiant yw cael effaith bositif ar y ddyletswydd. Mae'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn drosolwg ond byddwn yn cynnal asesiadau mwy manwl o'r cynlluniau prosiect unigol i adnabod p'un a oes materion penodol i'w hystyried.

Byddwn hefyd yn cynnal cyswllt rheolaidd gyda'r grwpiau a ymgysylltodd â ni yn ystod yr ymgynghoriad i'w diweddaru ar gynnydd ac i feithrin perthnasau da parhaus. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys Mencap Môn a GISDA LGBTQ+.

Mae gan y BGC gysylltiadau cryf gyda Thim Cydlyniant Cymunedol Gogledd-Orllewin Cymru sydd yn ein cefnogi i roi sylw dyledus i faterion fel aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin cysylltiadau da.

**12. Sut mae eich cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau canlyniad o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig.)**



Amcanion allweddol y cynllun yw i bartneriaid y BGC gydweithio i liniaru tlodi yn ein cymunedau a gwella deilliannau i blant a phobl ifanc. Mae'r rhain yn **enghreifftiau** o'r camau y mae'r BGC yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion hyn dros gyfnod y **cynllun pum mlynedd**:

- Byddwn yn cydweithio i wneud y mwyaf o'r data sydd ar gael i ennyn dealltwriaeth fanwl o'r goblygiadau o fyw mewn tlodi yn ein cymunedau. Dylai hyn gynnwys:
  - Deall y grwpiau yn y boblogaeth a'r ardaloedd daearyddol sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan dlodi a'r mecanweithiau y mae hyn yn digwydd drwyddynt
  - Mapio'r gwasanaethau cefnogi (beth yw'r cynnig o gefnogaeth nawr) i daclo tlodi ar draws y ddwy sir
  - Cynnal dadansoddiad GAP ac adnabod beth sy'n cyfrannu at ddulliau cyffredinol a dulliau wedi'u targedu
- Byddwn yn gweithredu fel llais i'r rhai sydd wedi'u heffeithio gan dlodi a chaledi yng Ngwynedd ac Ynys Môn gan wybod beth yw anghenion cymunedau a dinasyddion a'r wybodaeth sydd gan bartneriaid.
- Byddwn yn codi ymwybyddiaeth yn y system ynghylch effeithiau Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod (ACE) a thrawma, a chyfleoedd i atal amlygiad at hyn, lliniaru risgiau a mynd i'r afael â niwed.
- Byddwn yn ymrwymo i fod yn Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) sy'n Ymwybodol o Drawma.
- Byddwn yn sgopio datblygiad Strategaeth Blynyddoedd Cynnar ac yn gweithredu cynlluniau i ymdrin â bylchau yn y ddarpariaeth gwasanaeth a chefnogaeth i sicrhau fod pob plentyn yn cael y cychwyn gorau yn eu bywydau.

**13. Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Hefyd sut i**

**weithredu i fanteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**



Mae'r Gymraeg yn llinyn euraidd sy'n rhedeg drwy ein cynllun. Rydym yn hybu'r defnydd o'r iaith ymhob agwedd o'n gwaith ac yn gweithio gyda chymunedau i ddatblygu gwasanaethau a gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gyfle i rannu arferion da, hyrwyddo'r iaith a sicrhau bod gan drigolion y ddwy sir fynediad at yr holl wasanaethau cyhoeddus drwy gyfrwng y Gymraeg. Manylir ar y camau pellach mewn perthynas â'r Gymraeg o dan bob un o'r amcanion.

Mae'r BGC yn cynnal ei holl gyfarfodydd drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda gwasanaeth cyfieithu i'r Saesneg ar gael. Mae'r Is-grŵp y Gymraeg wedi gweithio'n benodol ar brosiectau i hybu'r Gymraeg ac mae gennym gynlluniau yn eu lle i barhau â gwaith yr Is-grŵp yn ystod oes y cynllun llesiant newydd. Enghraifft o'r gwaith a gwblhawyd gyda chomisiwn gyda Iaith Cyf oedd annog a grymuso cwsmeriaid i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus. Ar hyn o bryd, mae gennym gynnig i ystyried datrysiadau i annog siaradwyr Cymraeg i chwilio am swyddi lle mae'r Gymraeg yn sgil allweddol.

Mae urddas a pharch siaradwyr Cymraeg yn ganolog i ddarpariaeth y gwasanaeth yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Mae BGC Gwynedd ac Ynys Môn a'i bartneriaid wedi ymrwymo i safonau'r Gymraeg dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac mae'n cael ei yrru gan ddymuniad i wella ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i drigolion yn eu hiaith gyntaf. Mae holl bartneriaid statudol y Bwrdd a nifer o'r aelodau sydd wedi'u gwahodd yn gweithredu dan Safonau'r Gymraeg. Mae nifer o gyrff gan gynnwys y ddau awdurdod lleol, Awdurdod y Parc Cenedlaethol a Phrifysgol Bangor hefyd yn gweithredu cynlluniau hyrwyddo o fewn y sefydliadau ac felly maent wedi gwneud ymrwymiadau o blaid y Gymraeg.

Mae cyswllt clir rhwng llesiant pobl a chymunedau a'r iaith ar draws y ddwy sir, ac mae'r cynllun llesiant yn ymdrin â nifer o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar y defnydd o iaith a ffyniant, sef ffactorau cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.

Mae'r Gymraeg yn cyd-fynd â'r amcanion yn y cynllun sy'n cynnwys cynnig swyddi amrywiol o ansawdd gyda chyflogau da yn rhan o gadw pobl yn eu cymunedau, ac o ganlyniad mae'n cael effaith bositif ar gynnal yr iaith. Dylid cofio bod y Gymraeg yn sgil a chymhwyster allweddol mewn sawl maes. Hefyd, mae grwpiau cymunedol yn allweddol i ymestyn cyfleoedd swyddi lleol.

Mae cynnig cyfleoedd a phrofiadau i bobl ifanc drwy gyfrwng y Gymraeg yn allweddol i lesiant ac mae'n bwysig os ydym am sicrhau defnydd yr iaith i'r dyfodol a sicrhau nad yw'r iaith yn cael ei gweld fel iaith addysg yn unig. Mae cyfleoedd cymdeithasol a diwylliannol yn eu cymunedau lleol yn allweddol i lesiant, ac mae cael y rhain yn Gymraeg yn bwysicach fyth. Mae'n hanfodol edrych ar lle mae'r cyfleoedd ar gael i bobl ifanc, a sicrhau bod partneriaid allweddol yn y maes, megis yr Urdd, a gwasanaethau ieuenctid yr awdurdodau, yn cydweithio i sicrhau nad yw'r cymunedau gwledig yn cael eu hamddifadu o gyfleoedd.

**Roedd cwestiynau penodol ynghylch yr iaith Gymraeg yn yr holiadur ymgynghori ar-lein, gweler yr ymatebion isod:**

<u>1. Beth ydych chi'n gredu fydd effaith y gwaith hwn ar yr iaith Gymraeg, y cyfleoedd i'w defnyddio a'i statws yn y gymuned?</u>

Roedd hanner yr ymatebwyr (50.1%, N=250) yn credu y byddai’r cynllun yn cael effaith bositif ar y Gymraeg, 28.9% (N=144) yn credu y byddai’n cael effaith niwtral a 6.4% (N=32) yn credu y byddai’n cael effaith negyddol. Nid oedd gan 14.6% (N=73) farn ar effaith y cynllun ar y Gymraeg.

Ymysg rhai o’r themâu gan yr Ymatebwyr oedd:

- Cyfleoedd i’r unigolion ddysgu Cymraeg a bod yn rhan o gymuned ddwyieithog
- Dathlu’r iaith a chefnogi cymunedau i ddefnyddio’r iaith
- Mwy o gyfleoedd gwaith yn yr ardal i gadw ein pobl ifanc yn eu cymunedau
- Cadw unigolion/teuluoedd yn eu cymunedau Cymraeg gyda thai fforddiadwy
- Cynyddu’r ddarpariaeth addysg Gymraeg yn ein hysgolion/prifysgolion

2. Yn eich barn chi, a oes cyfleoedd i addasu’r hyn sy’n cae; ei gynnig er mwyn cael effaith mwy positif ar yr iaith Gymraeg a’i defnydd neu i waredu unrhyw effeithiau negyddol?
Atebodd 96 o’r ymatebwyr y cwestiwn hwn. Nodir isod rai o’r themâu positif sy’n codi yn yr ymatebion hyn.

- Cynnal gŵyl ar gyfer y Gymraeg i hybu diwylliant Cymreig
- Gwersi Cymraeg / annog pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg i siarad Cymraeg
- Mwy o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, e.e. y Gwasanaeth Iechyd
- Polisi Addysg sy’n rhoi mwy o bwyslais ar yr iaith



**14. Beth yw effaith gronnus y cynnig hwn ar wahanol grwpiau gwarchodedig wrth ystyried penderfyniadau allweddol eraill sy'n effeithio ar y grwpiau hyn a wnaed gan y sefydliad?** (Efallai y byddwch angen trafod hyn gyda'ch Pennaeth Gwasanaeth neu Aelod Cabinet i ystyried yn ehangach a fydd y cynnig hwn yn effeithio ar grwpiau penodol yn fwy andwyol oherwydd penderfyniadau eraill y mae'r sefydliad yn eu gwneud, e.e. effaith ariannol/tlodi, colli aml wasanaethau a p'un ai yw hyn yn rhoi'r un grwpiau dan anfantais, e.e., pobl anabl, pobl hŷn, rhieni sengl (merched yn bennaf), ac ati)

Pwrpas y BGC, fel y manylir arno yn y cynllun, yw sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn cydweithio i greu gwell dyfodol i bobl Ynys Môn a Gwynedd. Nid yw partneriaid y BGC yn credu y bydd y Cynllun Llesiant yn rhoi grwpiau penodol dan anfantais yn sgil penderfyniadau eraill sy’n cael eu gwneud yn eu sefydliadau unigol.
Yn ogystal, bydd pob prosiect yn cael ei asesu a’i fonitro ar wahân i sicrhau fod yr holl bartneriaid yn gweithio tuag at y nodau y cytunwyd arnynt.

**15. Sut mae'r cynnig hwn yn diwallu 7 nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cynnwys creu Cymru sy'n Fwy Cyfartal? (Rhowch grynodeb o'ch darganfyddiadau os ydych wedi ystyried hyn eisoes fel rhan o'r broses sgrinio)**

I gael mwy o wybodaeth, gweler: Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015
Mae Cynllun Llesiant y BGC yn ddyletswydd allweddol o’r Ddeddf hon, sy’n amlinellu sut fydd partneriaid yn cydweithio i gyflawni eu dyletswyddau. Mae’r cynllun yn gwneud cyfeiriad penodol at gwrdd â’r saith nod llesiant. Mae pob amcan yn manylu ar gyswllt â’r saith nod Llesiant ynghyd â’r Pum Ffordd o Weithio y manylir arnynt yn y Ddeddf.

**16. Disgrifiwch unrhyw effaith negyddol bwriadol a nodwyd gennych ac eglurwch pam eich bod yn credu fod gennych gyfiawnhad dros weithredu fel hyn** (er enghraifft, ar sail gwella cyfle cyfartal neu fagu perthnasau da rhwng y sawl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r sawl sydd ddim neu oherwydd cyfiawnhad gwrthrychol[1] neu weithred gadarnhaol[2])

| |
|---|
| Dim effeithiau negyddol bwriadol wedi'u nodi.<br><br>Mae Amcan 2 yn y Cynllun yn fwriadol wedi ei anelu at blant sydd mewn lle bregus iawn, ac ar aelwydydd ansefydlog er mwyn eu cefnogi i gyrraedd eu llawn potensial.  Serch hynny, mae Aelodau'r Bwrdd yn awyddus i beidio anghofio plant a phobl ifanc sydd ddim yn disgyn i'r categorïau yma a'u datblygiad hwy. |

**Noder: [1]: Cyfiawnhad Gwrthrychol** - rhoi amddiffyniad ar gyfer defnyddio polisi, rheol neu ymarfer fyddai fel arall yn cyfrif fel gwahaniaethu anghyfreithlon uniongyrchol neu anuniongyrchol. I ddibynnu ar yr amddiffyniad cyfiawnhad gwrthrychol, rhaid i'r cyflogwr, y darparwr gwasanaeth neu sefydliad arall ddangos fod ei bolisi neu reol wedi'i ddefnyddio am reswm da - ei fod yn 'fodd cymesur o gyflawni nod ddilys'. Y '**nod ddilys'** yw'r rheswm am y gwahaniaethu ac ni ddylai fod yn wahaniaethol ynddi ei hun a rhaid iddi fod yn rheswm didwyll neu'n rheswm go iawn, e.e. iechyd, diogelwch neu les unigolion.  Os mai lleihau costau yw'r nod yn syml, am ei fod yn rhatach gwahaniaethu, ni fydd hyn yn ddilys. Ystyriwch a yw pwysigrwydd y nod yn gorbwyso unrhyw effeithiau gwahaniaethol y driniaeth anffafriol a sicrhewch nad oes unrhyw fesurau eraill ar gael fyddai'n cyflawni'r nod heb lawer o anhawster (yn gymesurol) ac yn osgoi'r effaith wahaniaethol hon.



**Noder: [2]: Gweithredu Cadarnhaol** – Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn caniatáu gweithredu cadarnhaol tuag at grp penodol os oes tystiolaeth digonol o angen.  Er enghraifft, pan fo cyflogwr yn cymryd camau penodol i wella cydraddoldeb yn y gweithle i roi sylw i unrhyw anghydbwysedd rhwng cyfleoedd, i leihau anfantais neu gynyddu faint sy'n cyfrannu at weithgarwch penodol, drwy efallai gynyddu nifer y bobl anabl mewn swyddi uwch lle maent yn cael eu tangynrychioli wrth dargedu grwpiau penodol gyda hysbysebion swyddi neu gynnig hyfforddiant i helpu creu cyfleoedd i grwpiau penodol. Mae disgwyl i'r sector cyhoeddus ystyried defnyddio gweithredu positif i'w helpu i gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

**17. A fydd unrhyw un o'r effeithiau negyddol a nodwyd yn cyfrif fel gwahaniaethu anghyfreithlon ond y tybir eu bod yn anorfod (e.e. lleihau cyllid)?**

Bydd ☐ Na fydd X ☐ Ansicr ☐ *(Cliciwch ddwywaith ar y bocs(ys) perthnasol (x) a dewiswch 'wedi gwirio' fel sy'n briodol)*

**18. Os mai 'Bydd' neu 'Ansicr' oedd eich ateb i gwestiwn 15, nodwch isod, i ba grwpiau gwarchodedig mae hyn yn berthnasol ac eglurwch pam (yn cynnwys ardrawiad neu effeithiau tebygol y dewis arfaethedig hwn)**

| |
|---|
| |

**19. Os ydych wedi ateb 'Na fydd' i gwestiwn 15, a ydych wedi nodi unrhyw rwystrau sydd gyfystyr ag effaith wahaniaethol i grwpiau penodol a beth ydynt?**

| |
|---|
| Lle y canfyddir y gallai fod risg bod effeithiau negyddol yn codi neu ganlyniadau anfwriadol, bydd rhain yn cael eu fflagio yn yr AEC perthnasol. Bydd angen i gynlluniau unigol barhau i'w hadolygu, a chynnal asesiadau effaith mwy penodol wrth i brosiectau a mentrau fynd rhagddynt. |

## CAM 3 - Caffael a Phartneriaethau

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) yn gofyn i'r holl awdurdodau cyhoeddus ystyried anghenion nodweddion gwarchodedig wrth ddylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys pan wneir hyn mewn partneriaeth â sefydliadau eraill neu drwy gaffael gwasanaethau. Mae Safonau'r Iaith Gymraeg hefyd yn gofyn i'r holl awdurdodau cyhoeddus ystyried effeithiau unrhyw benderfyniad polisi neu newid mewn darpariaeth gwasanaeth, ar yr iaith Gymraeg sy'n cynnwys unrhyw waith a wneir mewn partneriaeth neu gan drydydd parti. Rhaid i ni hefyd sicrhau ein bod yn ystyried y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol wrth gynllunio penderfyniadau caffael a chomisiynu mawr i ystyried sut all trefniadau o'r fath leihau canlyniadau anghyfartal a achosir gan anfantais economaidd-gymdeithasol.

Tudalen 84

Wrth gaffael gwaith, nwyddau neu wasanaethau gan sefydliadau eraill (ar sail cytundeb perthnasol), rhaid ystyried yn ofalus a fyddai'n briodol:

- i feini prawf gosod y cytundeb hwnnw gynnwys ystyriaethau i helpu cyflawni'r Ddyletswydd Gyffredinol (i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthnasau da);
- gosod amodau sy'n ymwneud â pherfformiad y contract i helpu cyflawni tair nod y Ddyletswydd Gyffredinol.

Dim ond yn berthnasol i drefniadau contract sy'n "gytundebau perthnasol" sydd un ai'n golygu gosod 'contract cyhoeddus' neu ganlyniad 'cytundeb fframwaith' mae hyn yn berthnasol, y mae'r ddau yn cael eu rheoleiddio gan y Gyfarwyddeb Sector Cyhoeddus (2004/18/EC) sy'n rheoleiddio trothwyon penodol yr UE. Ceir mwy o wybodaeth fan hyn.

Rhaid i ni ystyried sut all trefniadau o'r fath wella cyfleoedd cyfartal a lleihau canlyniadau anghyfartal, yn arbennig ar benderfyniadau caffael a chomisiynu mawr. Mae'r PSED yn berthnasol i'r gwaith y mae sefydliadau sector cyhoeddus yn ei gyflawni wrth ddarparu swyddogaeth gyhoeddus ar ein rhan. Felly, mae angen i ni sicrhau bod y sefydliadau hynny yn arfer y swyddogaethau hynny drwy sicrhau bod y modd yr ydym yn caffael a monitro'r gwasanaethau hynny yn cydymffurfio â'r Ddyletswydd Gyffredinol dan Adran 149, Deddf Cydraddoldeb 2010. Yn yr un modd, mae Safonau'r Iaith Gymraeg yn berthnasol i unrhyw waith a wneir ar ran, ac yn enw, cyrff cyhoeddus sydd ei hunain yn destun y Safonau, ac felly dylid ystyried sut mae'r gofynion hyn yn cael eu monitro a'u cyfathrebu trwy ddogfennau caffael. Nid yw'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn pasio i drydydd parti trwy gaffael comisiynu na allanoli. Felly, pan fyddwn yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff sydd ddim yn rhan o'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, nid yw'r ddyletswydd ond yn berthnasol i ni fel y corff cyhoeddus perthnasol.

**20. A fydd y polisi neu'r ymarfer hwn yn cael ei gyflawni'n llwyr neu'n rhannol gan gontractwyr neu mewn partneriaeth â sefydliad(au) eraill?**

Bydd ☐ Na fydd X☐ *(Cliciwch ddwywaith ar y bocs(ys) perthnasol (x) a dewiswch 'wedi gwirio' fel sy'n briodol)*

Os mai 'Na fydd' yw eich ateb, ewch ymlaen i Gam 4

**21. Os ateboch 'Bydd', pa gamau fyddwch chi'n eu gweithredu i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Gydraddoldeb Gyffredinol, Hawliau Dynol a deddfwriaeth yr iaith Gymraeg a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol o ran caffael a / neu partneriaethau? Meddyliwch am:**

**Caffael**

- Gosod disgwyliadau cydraddoldeb clir mewn dogfennau Tendro a Manylebau, gan ddangos sut y gellir adeiladu hyrwyddo cydraddoldeb i mewn i brosiectau caffael unigol.
- Ar beth wnaethoch chi seilio eich penderfyniadau yn y broses o osod y contract yn cynnwys ystyried cyflogaeth foesegol a chod ymarfer cadwyn gyflenwi
- Sicrhau bod cymalau contractau'n cynnwys Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 a gofynion economaidd-gymdeithasol yn ogystal â Dyletswyddau'r Iaith Gymraeg (cofiwch fod unrhyw ddyletswyddau o Fesur yr Iaith Gymraeg 2011 a Safonau'r Iaith Gymraeg hefyd yn berthnasol i wasanaethau a ddarperir ar eich rhan dan gontract gan gyrff allanol). Mae mesurau Perfformiad a Monitro wedi'u cynnwys i fonitro cydymffurfiaeth, rheoli a gorfodi contractau

**Partneriaethau**

Byddwch yn glir ynghylch pwy sy'n gyfrifol am:

- Fonitro Cydraddoldeb data perthnasol
- Asesiadau Effaith Cydraddoldeb
- Cyflawni camau gweithredu'r AEC
- Sicrhau bod pob partner yn cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb, hawliau dynol a'r Iaith Gymraeg
- Dangos fod y Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol wedi derbyn ystyriaeth ddyledus

| |
|---|
| Nod y cynllun llesiant yw gwella canlyniadau ar draws nifer fach o feysydd partneriaeth, lle bydd sefydliadau BGC yn cydweithio i wella canlyniadau. Bydd hyn yn ychwanegu gwerth at ble mae'r sefydliadau ar wahân eisoes yn gweithio gyda chymunedau trwy eu cynlluniau corfforaethol eu hunain. |

## CAM 4 - Ymdrin ag Effaith Andwyol neu Anghyfreithlon a Chryfhau'r Polisi neu'r Ymarfer

**22. Wrth ystyried cymesuredd, a yw'r polisi neu'r ymarfer yn achosi effaith gadarnhaol neu negyddol sylweddol neu'n creu canlyniadau anghyfartal yn deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol?** (Rhowch y manylion yn fras)

| Effaith gadarnhaol sylweddol | Effaith negyddol sylweddol |
|---|---|

Tudalen 85

| | |
|---|---|
| Mae'r Cynllun Llesiant wedi'i fwriadu'n benodol i gael effaith bositif ynghyd â lleihau anghyfartaledd sy'n dod o ganlyniad i anfantais cymdeithasol-economaidd.<br>Mae mynd i'r afael ag anghydraddoldeb ac adeiladu tegwch wrth wraidd y cynllun, a bydd yn ganlyniad trawsbynciol allweddol ar draws yr holl gamau gweithredu, boed yn gyffredinol o ran cydweithio i geisio cael dealltwriaeth fanwl o'r goblygiadau o fyw mewn tlodi yn ein cymunedau neu yn fwy penodol, cael darlun manwl o ble mae'r diffyg mynediad at wasanaethau yn fwy heriol oherwydd tlodi | Dim wedi'u nodi |

**23. Mae'n bwysig eich bod yn cofnodi'r camau lliniaru y byddwch yn eu gweithredu i ddatblygu eich drafft polisi/ymarfer terfynol. Yma, cofnodwch pa fesurau neu newidiadau y byddwch yn eu cyflwyno i'r polisi neu'r ymarfer yn y drafft terfynol allai leihau neu ddileu unrhyw effaith anghyfreithlon neu negyddol neu anfantais a/neu wella cyfleoedd cyfartal/gyflwyno newid positif; neu leihau canlyniadau anghyfartal yn deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol?** (Gall hyn hefyd gyfrannu at y Cynllun Gweithredu yn C30)



| Effaith Anghyfreithlon neu Negyddol a Nodwyd | Camau Lliniaru / Gweithrediadau Cadarnhaol yn y Polisi/Ymarfer | Cwblhawyd (✓ ) |
|---|---|---|
| | Er nad oes unrhyw effeithiau negyddol wedi'u hadnabod, cydnabyddir bod angen gwneud gwaith pellach i gryfhau a hybu ymgysylltu rheolaidd gyda gwahanol grwpiau o rhanddeiliaid a grwpiau cymunedol. | |
| | | |
| | | |

**24. A fydd y mesurau hyn yn cael gwared ag unrhyw effaith neu anfantais anghyfreithlon?**

Bydd ☐ Na fydd ☐ *(Cliciwch ddwywaith ar y bocs(ys) perthnasol (x) a dewiswch 'wedi gwirio' fel sy'n briodol)*

**25. Os 'Na fydd', pa gamau gweithredu allech chi eu defnyddio i gyflawni'r un nod mewn ffordd arall?**

Amherthnasol ar hyn o bryd.

**26. Pa fesurau neu newidiadau eraill allech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach; fel yr ymdrinnir â nod wella yn Nyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010)**

**b) lleihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol;**

**c) cynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a lleihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gall y polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Bydd BGC Gwynedd ac Ynys Môn yn cynnal gwaith sgrinio Asesiad Effaith yn ystod oes y Cynllun. Yn ogystal, bydd pob prosiect yn cael ei asesu gan roi ystyriaeth ddyledus i'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus yn unigol. Mae rhagor o ymgysylltu parhaus wedi'i gynllunio gyda'r grwpiau sydd wedi ymgysylltu yn ystod yr ymgynghoriad, ac rydym yn gobeithio agor i grwpiau eraill ymhen amser.

**27. Pa fesurau neu newidiadau eraill allech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau canlyniad o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol;**

Bydd BGC Gwynedd ac Ynys Môn yn cynnal gwaith sgrinio Asesiad Effaith yn ystod oes y Cynllun. Yn ogystal, bydd pob prosiect yn cael ei asesu gan roi ystyriaeth ddyledus i'r anfantais cymdeithasol-economaidd yn unigol. Mae rhagor o ymgysylltu parhaus wedi'i gynllunio gyda'r grwpiau sydd wedi ymgysylltu yn ystod yr ymgynghoriad.



**28. Pa fesurau neu newidiadau eraill allech chi eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a lleihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gall y polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Mae BGC Gwynedd ac Ynys Môn wedi ymrwymo i gyflawni'r mesurau sydd wedi'u nodi ym **Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.**

- Rydym yn arwain ar ran BGC Gogledd Cymru ar brosiectau iaith Gymraeg, Mae adnoddau'r cyfarfod ar gael yn y ddwy iaith.
- Mae'r BGC wedi cwblhau prosiect llwyddiannus ar annog siaradwyr Cymraeg i gael mynediad at wasanaethau rheng flaen drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda'r canfyddiadau a'r adnoddau yn cael eu rhannu ledled Cymru.
- Mae'r BGC ar fin dechrau prosiect arall i wella dulliau recriwtio siaradwyr Cymraeg i rolau sydd wedi'u dynodi fel rhai lle mae'r Gymraeg yn ofyniad.

- Mae'r Gymraeg yn linyn euraidd drwy'r Cynllun Llesiant ac mae gan yr amcanion unigol fesurau a chamau gweithredu penodol i gynyddu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

**29. A oes gennych chi ddigon o wybodaeth i lunio barn gytbwys?**

Oes X ☐ Nac oes ☐ *(Cliciwch ddwywaith ar y bocs(ys) perthnasol (x) a dewiswch 'wedi gwirio' fel sy'n briodol)*

**26. Os ateboch 'Oes', nodwch eich cyfiawnhad dros hyn:**

Mae'r Cynllun Llesiant yn adeiladu ar y sylfaen dystiolaeth a ddarparwyd gan yr asesiadau llesiant ac yn cael ei ategu gan gyfres o sgyrsiau cymunedol ac ymgynghoriadau eang a roddodd ddarlun cyfoethog o anghenion amrywiol ein cymunedau, yn ddaearyddol ac o ddiddordeb. Nod y Cynllun Llesiant yw gwella canlyniadau ar draws nifer o feysydd, lle bydd ein partneriaid BGC yn cydweithio i wella canlyniadau.
Byddwn yn adolygu'r adborth o'r ymgynghoriad yn rheolaidd ac yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n codi drwy gynyddu ein hymgysylltiad â gwahanol rhanddeiliaid a grwpiau cymunedol.



**27. Os ateboch 'Na', pa wybodaeth sydd ei hangen arnoch a beth sydd angen i chi ei wneud i allu penderfynu?**
(Noder: A ddylech gynnwys gasglu data yn y cynllun gweithredu (Cam 6)?)

**[Efallai y bydd angen i chi oedi fan hyn nes eich bod wedi cael y wybodaeth ychwanegol]**

## CAM 5 - Penderfynu Mynd Ymlaen

**32. Gan ddefnyddio'r wybodaeth yr ydych wedi'i chasglu yng Nghamau 1-4 uchod, nodwch yn y tabl isod a ydych yn medru mynd ymlaen â'r polisi neu'r ymarfer ai peidio, ac os felly, ar ba sail?**

*(Cliciwch ddwywaith ar y bocs(ys) perthnasol (x) a dewiswch 'wedi'i dicio' fel sy'n briodol)*

| **Penderfyniad** |
| --- |

| | |
|---|---|
| ☐ Ie | Parhau â'r polisi neu'r ymarfer yn ei ffurf bresennol |
| ☐ Ie | Parhau â'r polisi neu'r ymarfer ond gydag addasiadau i wella neu i gael gwared o'r meysydd o effaith andwyol a nodwyd yng Ngham 4. |
| ☐ Ie | Dal ati gyda'r cynllun am fod modd cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol |
| ☐ Na | Peidio â pharhau â'r polisi neu'r ymarfer am nad oes modd ymdrin â'r effaith andwyol. Ystyried ffyrdd eraill o ymdrin â'r materion. |

**33. A oes unrhyw argymhellion terfynol o ran canlyniad yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb hwn?**

| |
|---|
| |



## CAM 6 - Camau Gweithredu a Threfniadau i Fonitro Canlyniadau ac Adolygu Data

Mae'r broses AEC yn un barhaus ac nid yw yn dod i ben pan fo'r polisi/ymarfer a'r AEC wedi'u cytuno a'u gweithredu. Mae dyletswydd gyfreithiol benodol i fonitro effaith y polisïau/ymarferion ar gydraddoldeb ar sail barhaus i adnabod a yw'r canlyniadau wedi newid ers i chi gyflwyno neu addasu'r polisi neu ymarfer newydd hwn. Os nad yw'r data perthnasol gennych chi, dylech fod yn gweithredu i gywiro hyn yn eich cynllun gweithredu. I weld canllawiau EHRC ar gasglu data gallwch adolygu eu Fframwaith Fesur.

**34. Amlinellwch isod unrhyw gamau gweithredu a nodwyd yng Nghamau 1-5 neu unrhyw waith casglu data ychwanegol fydd yn eich helpu i fonitro eich polisi/ymarfer pan gaiff ei weithredu:**

| Gweithrediad | Dyddiadau | Amserlen | Cyfrifoldeb Arweiniol | Ychwanegu i'r Cynllun Gwasanaeth (✓) |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

**35.** **Amlinellwch isod pa drefniadau fyddwch chi'n eu gwneud i fonitro ac adolygu effaith barhaus y polisi neu'r ymarfer hwn yn cynnwys amserlenni ar gyfer pryd y dylid ei adolygu'n ffurfiol:**

| **Trefniadau Monitro ac Adolygu**<br>(yn cynnwys lle fydd y canlyniadau'n cael eu cofnodi) | **Amserlen ac Amlder** | **Cyfrifoldeb Arweiniol** | **Ychwanegu i'r Cynllun Gwasanaeth (✓)** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## CAM 7 - Cyhoeddi'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Ar ôl ei gwblhau, trefnwch i'r AEC hwn gael ei gymeradwyo gan eich Pennaeth Gwasanaeth/Adran a threfnu iddo gael ei gyfieithu a'i gyhoeddi gan anfon copi i'r Swyddog Cydraddoldeb.

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | CYNGOR SIR YNYS MÔN |
| Dyddiad: | 23ain Mai, 2023 |
| Pwnc: | Hunan Asesiad Corfforaethol 2023 |
| Deilydd Portffolio: | Cyng. Carwyn E Jones |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Carys Edwards, Pennaeth Proffesiwn AD & Thrawsnewid |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | Gethin Morgan<br>01248 752111<br>gethinmorgan@ynysmon.llyw.cymru |
| Aelodau Lleol: | D/B |

| A –Argymhelliad/Argymhellion a rheswm/rhesymau |
|---|
| Fel rhan o ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 cydnabyddir y dyletswydd canlynol ar Gyngor Sir Ynys Môn –<br><br>**…….. i adolygu ei berfformiad yn barhaus**<br><br>(1) Rhaid i brif gyngor adolygu'n barhaus i ba raddau—<br><br>(a) y mae'n arfer ei swyddogaethau yn effeithiol,<br><br>(b) y mae'n defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol, ac<br><br>(c) y mae ei drefniadau llywodraethu yn effeithiol o ran cyflawni'r materion a nodir ym mharagraffau (a) a (b)<br><br>**ac, mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol,**<br><br>lunio adroddiad sy'n nodi ei gasgliadau ynglŷn ag i ba raddau y gwnaeth fodloni'r gofynion perfformiad (a, b & c uchod) yn ystod y flwyddyn ariannol honno.<br><br>I ddiwallu'r disgwyliad uchod, yr hyn sydd wrth law yw Hunan-Asesiad 2021/22 y Cyngor Sir. Mae'n tystiolaethu allbwn y fframwaith cynllunio corfforaethol a rheoli perfformiad y Cyngor Sir ac yn ddiweddglo proses sydd yn cyd-blethu amryw o wahanol agweddau at ei gilydd.<br><br>Ystyriwyd y drafft gan y Tîm Arweinyddiaeth yn ystod wythnos Mai 4ydd – 12fed.<br><br>**Argymhellir felly bod y Cyngor Sir yn mabwysiadu'r ddogfen sydd ynghlwm fel drafft ac yn gwahodd ystyriaeth bellach o'i chynnwys gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 29 Mehefin, 2023.** |

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Ni ystyriwyd opsiynau eraill gan fod y disgwyliad yma'n un o newidiadau creiddiol y ddeddfwriaeth newydd – Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 |

| C – Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
| --- |
| Mae'r broses hwn i ennyn sylw a sylwadau'r Pwyllgor Gwaith ynghyd a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cyn i ddrafft o'r Hunanasesiad gael ei ystyried a'i fabwysiadu gan y Cyngor Sir llawn ym mis Medi eleni.<br><br>Mae'n broses sydd yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
| --- |
| Ydi - bydd ordinhad gwahanol i'r hyn a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ym mis Ebrill llynedd, pan fabwysiadwyd newidiadau i'r Cyfansoddiad ar sut mae'r Cyngor i ymdrin â'r Hunan Asesiad yn creu risg llywodraethu. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
| --- |
| Rhagwelir bod y rhaglen waith cysylltiedig â'i wireddiad dan arweinyddiaeth a pherchnogaeth y Tîm Arweinyddiaeth (TA) o fewn amser yn unol â blwyddyn gyllidol y Cyngor Sir am 2023/24. |

| Dd – Asesu'r effaith bosib (os yn berthnasol): | | |
| --- | --- | --- |
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir drwy gydnabod meysydd cysylltiedig sydd angen sylw pellach fel corfforaeth. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir a fydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Yn rhannol – ydi, parthed y gwelliannau disgwyliedig sydd ei angen mewn perfformiad rhai meysydd a.y.y.b. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio gyda sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Mae rhan penodol o'r hunanasesiad yn cydnabod yr holl waith cydweithio sydd yn digwydd ar draws ystod y gwasanaethau. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae'u rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen? Esboniwch sut. | Mae dinasyddion Ynys Môn drwy'r pwyllgorau sgriwtini corfforaethol yn cael cyfle chwarterol i fynegi barn a herio'r gorfforaeth ar ei berfformiad. Mae'r cynnwys hefyd yn datgan sut bod y gwasanaethau gwahanol yn cynnwys dinasyddion yn ei penderfyniadau. |

| Dd – Asesu'r effaith bosib (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| | | Bydd ymgynghoriad ar gynnwys yr hunan asesiad drafft gyda'r Undebau Llafur dros y misoedd nesaf cyn i'r drafft terfynol gael ei fabwysiadu'n llawn gan y Cyngor Sir ym mis Medi 2023. |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei chael ar y grwpiau a ddiogelir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Ni rhagwelir bod y rhaglen waith yn cael effaith ar y grwpiau a ddiogelir dan ddeddf cydraddoldeb 2010. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad yn ei chael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | D/B |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei chael ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg ddim llai ffafriol na'r iaith Saesneg. | D/B |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth ddywedon nhw? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Tim Arweinyddol (TA) (gorfodol) | Mae sylwadau'r PW / TA wedi'i cynnwys yn yr adroddiad cyfredol. |
| 2 | Cyllid / Adran 151 (gorfodol) | Mae sylwadau'r Swyddog 151 fel aelod cyflawn o'r TA wedi'i cynnwys yn ogystal. |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Mae sylwadau'r Swyddog Monitro fel aelod cyflawn o'r TA wedi'i cynnwys yn ogystal. |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Sylwadau wedi cynnwys yn yr adroddiad |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | |
| 9 | Aelodau Lleol | Dim yn berthnasol |

| F - Atodiadau: |
| --- |
| Hunan-Asesiad Drafft Cyngor Sir Ynys Môn - 2023 |

| Ff – Papurau cefndirol (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad i gael unrhyw wybodaeth bellach): |
| --- |
| • Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021<br>• Meysydd Gwelliant Hunan-Asesiad 2022<br>• Cofnod o benderfyniad gweithredol a wnaed gan yr Arweinydd, 12 Mai 2023 |

# Hunanasesiad - 2023

Hunanasesiad y Cyngor Sir, fel y disgwylir o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau 2021

DRAFFT

**Paratowyd gan –** Y Gwasanaeth Trawsnewid

**Dyddiad Cyhoeddi:** Ebrill 2023

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

## Hunanasesiad y Cyngor o ganlyniad i –

## Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth (APGau) / Adroddiadau Perfformiad / Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLlB) / Adolygiadau Allanol / Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

| Categori'r Hunanasesiad | Perfformiad | Rhesymeg |
|---|---|---|
| Rheoli Perfformiad | Da | Perfformiad da yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol sydd wedi'u hamlygu yn yr Adroddiad Cerdyn Sgorio Corfforaethol chwarterol<br><br>Darpariaeth gwasanaeth i gwsmeriaid sy'n cael ei wella a'i foderneiddio'n barhaus drwy'r CRM newydd |
| Defnyddio Adnoddau | Da | Cynnydd islaw chwyddiant yn y Dreth Gyngor, cyllideb gytbwys a balansau iach yn ystod yr argyfwng costau byw presennol<br><br>Cydweithio i wella'r raddfa ragorol yn ystod y flwyddyn flaenorol |
| Rheoli Risg | Da | Nifer o adroddiadau cadarnhaol gan arolygwyr allanol ar ddarpariaeth y Cyngor drwyddo draw yn cynnwys Estyn, Arolygiaeth Gofal Cymru ac Archwilio<br><br>Strategaeth rheoli risg newydd ar waith |

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu ail hunanasesiad Cyngor Sir Ynys Môn fel y disgwylir o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae'n adlewyrchu allbwn y fframwaith cynllunio a rheoli perfformiad corfforaethol ac yn darparu sail dystiolaethol o ran -

- y modd y mae'r Cyngor wedi perfformio
- gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddo wrth
- reoli a llinau risgiau cysylltiedig

yn ystod cyfnod heriol ac ansicr i lywodraeth leol.

Bwriad y fframwaith perfformiad a llywodraethu cenedlaethol newydd yw cefnogi newid diwylliannol a sefydliadol o fewn llywodraeth leol. Y nod yw adeiladu ar gryfderau presennol a chreu sector mwy arloesol, agored, gonest, tryloyw ac uchelgeisiol, sy'n herio ei hun, a lle mae cynghorau ar y cyd yn mynd ati i wella canlyniadau a safonau mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt ledled Cymru. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn cydnabod ac yn cadw at ddisgwyliadau o'r fath ac mae'r adroddiad hwn wedi cael ei ddrafftio felly.

Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor adolygu'n barhaus i ba raddau y mae'n bodloni'r 'gofynion perfformiad', hynny yw, i ba raddau:

- y mae'n arfer ei swyddogaethau yn effeithiol;
- y mae'n defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol;
- y mae ei lywodraethiant yn effeithiol er mwyn cyflawni'r uchod.

Yr asesiad y llynedd oedd ein hasesiad cyntaf, ac mae camau breision wedi cael eu cymryd yn ystod 2022 i gyflawni'r gwelliannau cysylltiedig. Mae hyn yn galonogol ac yn dangos aeddfedrwydd y trafodaethau gwleidyddol a gweithredol a aeth rhagddynt yn gyflym yn ystod blwyddyn lle cafodd Tîm Arweinyddiaeth newydd ei sefydlu o fewn y Cyngor ynghyd â gweinyddiaeth newydd (clymblaid) dan arweiniad Plaid Cymru. Mae'r gwelliannau cysylltiedig i'w gweld mewn adroddiad diweddar a gafodd ei ystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ym mis Ebrill 2023.

Ar ôl ystyried yr adroddiad cydnabuwyd y bydd y ffrydiau gwaith canlynol yn parhau i gael eu gyrru yn eu blaen a'u datblygu fel rhan o'r Hunanasesiad hwn yn 2023 -

**Rheoli Perfformiad** -

- Gwella'r dangosydd o ran canran y gwastraff a gaiff ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio, a chyflawni targedau Llywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl
- Defnyddio meddalwedd i ddod yn fwy ymwybodol o ddata ac yn fwy gwybodus i wneud penderfyniadau hyd yn oed mwy effeithiol yn seiliedig ar dystiolaeth
- Moderneiddio ein dulliau gweithio, o wasanaethau i gwsmeriaid i brofiad mwy cyflawn i gwsmeriaid
- Datblygu modd i gyfathrebu perfformiad y Cyngor i gynulleidfa ehangach o ran staff

**Defnyddio Adnoddau** -

- Lleihau’r achosion o fethu â chwblhau gwaith ar yr hawliadau Cymhorthdal Budd-dal Tai yn y dyfodol trwy gytuno ar amserlen gyda’r archwilwyr allanol, ynghyd ag adolygu capasiti o ran staff

- Rhoi mwy o gyfleoedd i breswylwyr a rhanddeiliaid i sicrhau y clywir eu llais trwy fabwysiadu strategaeth cyfranogiad y cyhoedd sydd wedi’i hadolygu a’i hailwampio ar gyfer y cyfnod ar ôl y pandemig

**Rheoli Risg** -

- Gweithredu'r model 'tair llinell sicrwydd' fel un dull o gasglu gwybodaeth i gynorthwyo i fapio sicrwydd i'r Cyngor

Wrth ddod i gasgliadau ynglŷn â’r asesiad ar gyfer eleni, unwaith eto fe ddefnyddiodd y Cyngor elfennau craidd y Fframwaith Cynllunio a Rheoli Perfformiad Corfforaethol (CPPMF), ac roedd swyddogaeth a phwrpas y broses adolygu perfformiad gwasanaethau yn greiddiol i’r trefniadau llywodraethu corfforaethol cryf a fabwysiadwyd.

Mae hunanwerthuso’n rhan annatod o unrhyw broses sydd ar waith i wella sefydliad, a’i brif bwrpas yw gweithredu fel modd o hunan sicrhau; fodd bynnag, cydnabyddir o fewn Cyngor Sir Ynys Môn, trwy hunanwerthuso mewn modd effeithiol, y gall hefyd roi sicrwydd i gynulleidfaoedd allanol, gan gynnwys partneriaid, rheoleiddwyr ac, yn wir, preswylwyr.

Gofynnwyd i bob Gwasanaeth (y mae gan Gyngor Sir Ynys Môn naw ohonynt) gwblhau hunanasesiad - gan sgorio eu perfformiad yn ôl meysydd a nodwyd yr ystyriwyd eu bod yn bwysig o ran mesur perfformiad cyffredinol gwasanaethau. Gofynnwyd iddynt werthuso eu perfformiad yn erbyn y pedwar maen prawf isod ac wedi hynny cawsant eu herio ynghylch eu canfyddiadau gan grŵp o swyddogion ac aelodau etholedig::

1. Rhagorol – Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arferion rhagorol
2. yn y sector
3. Da – Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella’n sylweddol
4. Digonol – Cryfderau yn gorbwyso’r meysydd i’w gwella
5. Anfoddhaol – Meysydd pwysig i’w gwella yn gorbwyso’r cryfderau

Trwy gydol y naw mlynedd diwethaf, bu’r Cyngor yn gwella ac yn aeddfedu’r modd y mae’n esblygu’r fframwaith rheoli perfformiad.

Mae’r hunanasesiad hwn yn crynhoi casgliad y gwaith hwnnw ar gyfer 2022/23, ac yn gwerthuso perfformiad cyffredinol y Cyngor, drwy ateb y cwestiynau canlynol yn y modd mwyaf syml -

- Sut hwyl ydym ni’n ei gael arni?
- Sut ydym ni’n gwybod hynny?
- Beth allwn ni ei wneud yn well a sut?

DRAFT

# A. Rheoli Perfformiad?

## Sut hwyl ydym ni'n ei gael arni?

Er mwyn cael darlun trylwyr, teg a chyflawn o ansawdd rheoli perfformiad o fewn y Cyngor, bydd yr adran hon o'r hunanasesiad yn dwyn ynghyd gwybodaeth am Adroddiadau Perfformiad, Gwasanaethau i Gwsmeriaid, a Llywodraethu a Chydymffurfiaeth. Trwy ddod â'r rhain ynghyd fel tystiolaeth yn 2022, mae ein perfformiad fel sefydliad, ein hawch i reoli newid ynghyd â'r gwelliannau diwylliannol yr ydym ni wedi'u mabwysiadu yn cefnogi'r casgliad cyffredinol bod y Cyngor Sir yn perfformio'n dda ac ar lefel y dylai staff, cynghorwyr a thrigolion fod yn falch ohono.

## Sut ydym ni'n gwybod hynny?

Mae tystiolaeth o'r adroddiadau a'r gweithgareddau a ganlyn a gyflawnwyd trwy gydol y flwyddyn yn dangos canlyniadau cadarnhaol ac yn pwysleisio'r diwylliant o lwyddo sydd wedi'i ymgorffori ar draws gweithlu sydd wedi gorfod ymdopi â mwy o bwysau gwaith a disgwyliadau uwch:

- Yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol
- Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Cod Llywodraethu Lleol
- Adolygiadau Gwasanaeth (allbynnau)
- Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn 2021/22
- Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar effeithlonrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021-22
- Adroddiad Cynnydd ar y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Canlyniadau arolwg STAR 2021
- Adroddiadau Chwarterol ar y Cerdyn Sgorio
- Lefelau presenoldeb y staff

Mae'r adroddiadau hyn yn dangos bod dangosyddion perfformiad allweddol yn gweithredu ar lefel briodol a chadarn. Mae cydymffurfiaeth staff â pholisïau a gweithdrefnau wedi gwella. Mae cydymffurfiaeth staff â hyfforddiant e-ddysgu hefyd wedi gwella tra bod cyfarfodydd ffurfiol y Cyngor yn cael eu darlledu ac mae'r 'sgwrs flynyddol' wedi'i hymgorffori ymhellach. Mae gennym hefyd dystiolaeth bod profiad y cwsmer yn gwella ar draws llu o wasanaethau.

Gallwn hefyd gadarnhau bod y pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith yn fodlon â'r cynnydd a'r gwelliannau hyd yma o ran y Gwasanaethau Cymdeithasol, ynghyd â pherfformiad cyfredol y Cyngor yn dilyn adroddiadau cadarnhaol gan Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW). Mae'r yr adroddiad yn nodi bod ansawdd ac effeithiolrwydd cadarn arweinwyr y Gwasanaeth Dysgu o fewn awdurdod Ynys Môn yn cyfrannu'n effeithiol iawn tuag at sicrhau gwasanaethau addysg o safon uchel.

Hefyd, bydd Cynllun newydd y Cyngor Sir yn arwain a chyfeirio'r sefydliad am gyfnod o bum mlynedd rhwng 2023-2028. Cafodd y Cynllun hwn ei ddatblygu a'i fabwysiadu yn dilyn ymarfer ymgysylltu ac ymgynghori hynod gynhwysfawr gyda thrigolion, partneriaid, staff ac aelodau etholedig newydd er mwyn cael eu barn a'u cynnwys.

## Beth allwn ni ei wneud yn well a sut?

Er bod hon yn stori gadarnhaol sy'n crynhoi'r ethos sy'n cael ei ddatblygu o dan Dîm Arweinyddiaeth a deinamig gwleidyddol newydd, mae'r Cyngor yn cydnabod bod ganddo bob amser le i wella. Mae'r gwelliannau a nodwyd ar gyfer 23/24 fel a ganlyn:



DRAFT

1. Adolygu a diwygio'r cerdyn sgorio corfforaethol i nodi'r dangosyddion perthnasol a blaenoriaethau a fydd yn cael eu tracio a'u rheoli yn ystod cyfnod y weinyddiaeth bresennol
2. Gwella'r dangosydd o ran canran y gwastraff a gaiff ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio, a chyflawni targedau Llywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl, yn ogystal ag adolygu a diwygio'r Cynllun Gwella Cynllunio i sicrhau newid cynaliadwy i'r dyfodol
3. Defnyddio meddalwedd i ddod yn fwy ymwybodol o ddata ac yn fwy gwybodus i wneud penderfyniadau hyd yn oed mwy effeithiol yn seiliedig ar dystiolaeth a thrwy ddefnyddio data o'r fath, cyfathrebu'n effeithiol â staff yr Awdurdod ynglŷn â lefelau perfformiad
4. Parhau i foderneiddio ein dulliau gweithio, o wasanaethau i gwsmeriaid i brofiad mwy cyflawn i gwsmeriaid
5. Adolygu a diwygio'r broses adolygiadau gwasanaeth i sicrhau ei bod yn gyfredol ac yn cyd-fynd â disgwyliadau'r Hunanasesiad Corfforaethol

DRAFFT

# B. Defnyddio Adnoddau

## Sut hwyl ydym ni'n ei gael arni?

Er mwyn cwrdd â'i gyfrifoldeb i ddefnyddio ei adnoddau'n ddarbodus ac effeithlon, mae'r Cyngor yn rhannu gwybodaeth ynglŷn â'r modd y mae'n rheoli ei bersonél, ei arian a'i bartneriaethau er mwyn cyrraedd y nod. Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd yn dangos perfformiad cadarn a llwyddiannus y Cyngor, yn enwedig wrth ymdopi ag argyfwng costau byw heriol

## Sut ydym ni'n gwybod hynny?

Roedd argyfwng y coronafeirws, a achosodd dristwch enbyd ledled y byd, yn gyfle i sefydliadau ddod ynghyd er lles y bobl. Mae'r argyfwng costau byw hefyd yn golygu costau uwch i bawb, yn cynnwys y Cyngor. Mewn ymateb does dim amheuaeth bod y Cyngor wedi mynd ati i wella ei bartneriaethau gwaith, cynllunio'n dda ar gyfer yr heriau o ran y gweithlu a rhoi nifer o fentrau arbed arian ar waith ers nifer o flynyddoedd ac felly er ei fod wedi dioddef ergyd ariannol, mae'r Cyngor mewn gwell sefyllfa na nifer o gynghorau eraill ar yr adeg hon.   Mae tystiolaeth ar gael drwy'r ffynonellau isod:

- Presenoldeb staff – ymysg y gorau wedi'i feincnodi yn erbyn Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru
- Cadw staff – trosiant yn is na'r safon ar gyfer y diwydiant, sef 8%
- Cynlluniau Datblygu ar gyfer y Gweithlu – cynlluniau yn eu lle ar gyfer pob gwasanaeth
- Y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2023/24 - Mae sefyllfa ariannol gyffredinol y Cyngor yn dal yn weddol gryf
- Y Datganiad o Gyfrifon - Cyfrifon terfynol ar gyfer 2021/22 yn cael eu cyhoeddi cyn y dyddiad cau
- Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'r Cod Llywodraethu Lleol - cyhoeddi yn unol â gofynion CIPFA ochr yn ochr â'r datganiad o gyfrifon, a'r Cod Llywodraethu Lleol sydd mewn lle
- Gwobrau Tai Cymru 2021 – Prosiectau Amgylcheddol Unigol a Grantiau Cartrefi Gwag i Brynwyr Tro Cyntaf, Gwobrau Rhagoriaeth Adeiladu Cymru - Cydnabyddiaeth Genedlaethol i'r gwasanaethau tai yn 2021/22
- Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn 2021/22 - mae'r adroddiad yn amlinellu llawer o brosiectau cydweithredol y mae'r Cyngor wedi cyfrannu atynt yn ystod y flwyddyn
- Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar effeithlonrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol 2021-22 - mae'r adroddiad yn nodi llawer o ganfyddiadau allweddol ac enghreifftiau o waith da a gyflawnwyd gan y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Arolwg Estyn o Gyngor Sir Ynys Môn - llawer o enghreifftiau o waith da neu well yn cael ei wneud gan y Cyngor fel y nodwyd gan Estyn
- Arolygiaeth Gofal Cymru – Arolwg Gwerthuso Perfformiad - amlygir llawer o enghreifftiau cadarnhaol drwy gydol yr adroddiad gan AGC

Mae'n amlwg bod gwasanaethau o'r farn bod eu dull cydweithredol ac integredig o weithio a darparu gwasanaethau er lles pob Ynys Môn yn rhagorol fel y gwelir yn y matrics isod. Hefyd, mae'r sylwadau canlynol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiadau uchod yn cefnogi'r casgliad hwn–

*"Mae ansawdd ac effeithiolrwydd cadarn arweinwyr y Gwasanaeth Dysgu o fewn awdurdod Ynys Môn yn cyfrannu'n effeithiol iawn tuag at sicrhau gwasanaethau addysg o safon uchel. Maent yn*

*gosod disgwyliadau uchel, yn arwain timau'n effeithiol ac yn cydweithio'n dda i yrru blaenoriaethau strategol.*

*Mae'r modd y mae arweinwyr, swyddogion ac adrannau gwahanol yr awdurdod yn ystyried y tymor hir ac yn gweithio yn agos iawn gydag ysgolion a phartneriaid allanol a'i gilydd yn nodwedd gref.*

*Mae gweledigaeth glir ynglŷn â gwella ansawdd addysg ac mae cyllidebau addysg wedi eu gwarchod rhag toriadau o gymharu ag adrannau eraill o fewn yr awdurdod."* Arolwg Estyn o Gyngor Sir Ynys Môn

"*Mae lleihau'r angen am ofal a chymorth ffurfiol yn amlwg yn flaenoriaeth gan GSYM a gwelwyd cyd weithio llwyddiannus ar lefel strategol i yrru'r agenda ataliol yn ei blaen.*

*Mae brwdfrydedd a pharodrwydd CSYM i weithio gyda phartneriaid yn gryf. Clywyd am sawl lwyddiant o gyd weithio â phartneriaid ar lefel strategol gyda chynlluniau wedyn yn cael eu gwireddu ar lefel weithredol er budd unigolion. Gwelwyd enghreifftiau da o gydweithio ar lefel weithredol.*"
Arolygiaeth Gofal Cymru – Arolwg Gwerthuso Perfformiad

*"Mae nifer o awdurdodau lleol yn canolbwyntio'u hymdrechion ar grynhoi capasiti cymunedol a grymuso cymunedau i adnabod eu hanghenion a'u blaenoriaethau eu hunain a chynhyrchu datrysiadau dichonadwy. Enghraifft dda o hyn yw gwaith Cyngor Sir Ynys Môn gyda Medrwn Môn, asiantaeth annibynnol sy'n rhoi cymorth a chyngor i fudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol. Dan y fenter 'rhwydwaith o gynghreiriau', mae Medrwn Môn yn helpu i greu system o gynghreiriau lleol ledled yr ynys a gaiff eu grymuso i adnabod y problemau yn eu hardal, yr asedau sydd ar gael i helpu i fynd i'r afael â'r problemau hyn a'r datrysiadau y mae eu hangen i fynd i'r afael â hwy."*
Archwilio Cymru, 'Gyda'n gilydd fe allwn ni' Cydnerthedd a Hunanddibyniaeth cymunedau

*"Mae'r Cyngor yn cydnabod ei fod yn 'methu â newid y byd ar ei ben ei hun' ac mae wrthi'n frwd yn ceisio partneru gyda sefydliadau a all ei helpu i ddwyn manteision gwirioneddol, ond mae'n cydnabod bod rhai partneriaethau'n darparu mwy o werth ychwanegol na'i gilydd."* Archwilio Cymru, Llamu Ymlaen

Mae sylwadau sy'n cefnogi ein defnydd da o adnoddau yn gyffredinol wedi'u nodi isod -

*"Clywsom neges gyson ganmoladwy gan y gweithlu am ansawdd yr arweinyddiaeth a'r diwylliant ar draws gwasanaethau plant ac oedolion. Clywsom fod rheolwyr yn weledol, hygyrch ac yn rhoi cyngor dibynadwy a rheolaidd, a bod cyfleoedd i ddatblygu yn broffesiynol … Mae'r nifer o weithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol oddi mewn i'r gwasanaethau yn bositif, gyda llai o drosiant na'r targed corfforaethol … Mae ymrwymiad CSYM i ddarparu gwasanaeth drwy'r iaith Gymraeg yn bositif. Gwelsom dystiolaeth gyson a chadarnhaol fod pobl yn cael y "Cynnig Gweithredol" i siarad Cymraeg, a bod dymuniadau pobl yn cael eu cymryd i ystyriaeth o ran eu dewis iaith."* Arolygiaeth Gofal Cymru - Arolwg Gwerthuso Perfformiad

"*Mae gan y Cyngor weledigaeth a themâu cyflawni allweddol ar gyfer ei weithlu a all gael eu cryfhau trwy ystyriaeth mwy amlwg o gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy gwreiddio ymhellach y gwersi a ddysgwyd o'r pandemig … Mae'r Cyngor o'r farn bod rheoli'r gweithlu'n effeithiol yn bwysicach nag erioed, yn enwedig yn ystod ac ar ôl y pandemig ac mae sicrhau parhad busnes yn rhan hanfodol o ddylunio gwasanaethau cydnerth.."* Archwilio Cymru, Llamu Ymlaen

## Beth allwn ni ei wneud yn well a sut?

Er bod yr uchod yn enghreifftiau cadarnhaol o berfformiad da o ran y modd y mae'r Cyngor yn defnyddio ei adnoddau ac yn gweithio mewn partneriaeth, mae'r gwelliannau a nodwyd ar gyfer 23/24 fel a ganlyn:

1. Gweithio gyda phartneriaid i liniaru effaith yr argyfwng costau byw ac amddiffyn y rheiny sydd mewn tlodi
2. Lleihau costau trydan ac ynni ledled y Cyngor a thrwy hynny lleihau allyriadau carbon y Cyngor er mwyn ei helpu i ddod yn gyngor sero net erbyn 2030
3. Nodi cyfleoedd i leihau costau/lefel gwasanaeth a chynyddu incwm drwy godi prisiau, gwella gwasanaethau a defnyddio grantiau lle bo hynny'n briodol
4. Datblygu Strategaeth Rheoli Asedau'r Cyngor er mwyn dangos ei fod yn ystyried egwyddorion datblygu cynaliadwy
5. Lleihau'r achosion o fethu â chwblhau gwaith ar yr hawliadau Cymhorthdal Budd-dal Tai yn y dyfodol trwy gytuno ar amserlen gyda'r archwilwyr allanol, ynghyd ag adolygu capasiti o ran staff
6. Rhoi mwy o gyfleoedd i breswylwyr a rhanddeiliaid i sicrhau y clywir eu llais trwy fabwysiadu strategaeth cyfranogiad y cyhoedd sydd wedi'i hadolygu a'i hailwampio ar gyfer y cyfnod ar ôl y pandemig

DRAFT

# C. Rheoli Risg

## Sut hwyl ydym ni'n ei gael arni?

Mae Rheoli Risg a'i ddefnydd o fewn sefydliad cymhleth fel Cyngor Sir yn angenrheidiol i sicrhau y cyflawnir penderfyniadau, lefelau perfformiad a darpariaeth gwasanaeth mewn modd mor effeithiol ac effeithlon â phosibl. Mae'r adran hon yn cyfuno canfyddiadau o Archwiliadau Mewnol a gynhaliwyd, ynghyd â gan Archwilwyr Allanol a Chymheiriaid, sy'n amlygu'r risgiau y mae angen eu lliniaru, yn ogystal â threfniadau'r Cyngor o ran Rheoli Risg a Diogelu Corfforaethol. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn nodi bod y Cyngor yn perfformio'n gadarn mewn perthynas â'i drefniadau rheoli risg

## Sut ydym ni'n gwybod hynny?

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi gwella'i ddefnydd o reoli risg  a'i drefniadau Diogelu Corfforaethol ac mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn yr adroddiadau canlynol yn rhoi sicrwydd ynglŷn â hyn:

- Adroddiad Diogelu Corfforaethol Blynyddol
- Cynllun Ariannol Tymor Canolig
- Datganiad Cyfrifon
- Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a Chod Llywodraethu Lleol
- Adolygiadau Gwasanaeth (allbwn)
- Adolygiadau cenedlaethol a'u hargymhellion cysylltiedig diweddariad Rhagfyr 2022
- Diweddariadau Archwilio Mewnol (adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio drwy gydol y flwyddyn) – Hyd at fis Mawrth 2023
- Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol – Mehefin 2022
- Materion a Risgiau sy'n weddill – Hyd at fis Mawrth 2023
- Crynodeb Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru 2022
- Arolwg Estyn o Gyngor Sir Ynys Môn
- Arolygiaeth Gofal Cymru – Arolwg gwerthuso perfformiad
- Arolwg o'r Fframwaith Rheoli Risg
- Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau

Mae gwasanaethau o'r farn bod rheoli risg, diogelu corfforaethol ac ymateb i adroddiadau archwilio yn dda. Mae sylwadau o'r adroddiadau a restrir uchod sy'n cefnogi'r sgôr da yn gyffredinol ar gael isod -

*"Am y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, barn y Pennaeth Archwilio a Risg yng Nghyngor Sir Ynys Môn yw bod gan y sefydliad fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol. Er nad ydw i'n ystyried unrhyw feysydd o bryder corfforaethol, mae angen cyflwyno neu wella rheolaethau mewnol mewn rhai meysydd er mwyn sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni, a'u bod yn cael eu monitro. Nid oes unrhyw amodau ar y farn hon."* Pennaeth Archwilio Mewnol, Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2021/22

*"Mae CSYM yn hybu diwylliant o fyfyrio a dysgu ac yn gweithredu systemau awdit. Gwelsom enghreifftiau o ymarfer da gyda gwaith awdit yn adnabod ymarfer da yn ogystal ac ymarfer sydd angen ei wella. Mae'r craffu corfforaethol yn gryf ac yn herio perfformiad ar draws yr awdurdod lleol."* Arolygiaeth Gofal Cymru – Arolwg gwerthuso perfformiad

*"Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu ei drefniadau i fodloni gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021."* Archwilio Cymru, Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (llythyr)

"Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod bod datganiadau ariannol y Cyngor yn gywir ac yn deg ar 31 Ionawr 2023." Archwilio Cymru, Archwiliad o Gyfrifon Cyngor Sir Ynys Môn 2021-22

*"Drwy brosesau hunanwerthuso agored, rheolaidd a thrylwyr, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r ddarpariaeth addysg ac yn adnabod yn synhwyrol y cryfderau a'r meysydd i'w gwella. Mae arweinwyr, gan gynnwys aelodau etholedig yn barod i gymryd penderfyniadau anodd ac amserol gan newid a mireinio cynlluniau a blaenoriaethau fel mae amgylchiadau'n gofyn. Er enghraifft, wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â moderneiddio ysgolion neu wrth ymateb i argyfwng pandemig COVID-19."* Arolwg Estyn o Gyngor Sir Ynys Môn

## Beth allwn ni ei wneud yn well a sut?

Parhau â'r daith tuag at welliant a'r trefniadau cadarnhaol sydd eisoes ar waith. Nodir y gwelliannau canlynol:

1. Rhoi cynlluniau gweithredu ôl arolwg ar waith yn dilyn adroddiadau Estyn, AGC ac Archwilio Cymru
2. Gweithredu'r model 'tair llinell sicrwydd' fel un dull o gasglu gwybodaeth i gynorthwyo i fapio sicrwydd i'r Cyngor
3. Mabwysiadu fframwaith rheoli risg newydd a sicrhau bod gweithdrefnau newydd yn cael eu rhoi ar waith a bod pob gwasanaeth yn eu dilyn
4. Cynyddu dealltwriaeth ynglŷn â'r model Ystyriol o Drawma a gwneud defnydd ehangach o'r model ledled yr ynys
5. Paratoi ar gyfer y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid
6. Darparu hyfforddiant a chanllawiau i swyddogion ynglŷn â'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol



DRAFT

# Datganiad Sefyllfa Gwasanaethau'r Cyngor – 2023

Sylwch ar ymateb pob gwasanaeth i'r categorïau tystiolaeth ar gyfer 2022/23:

| Categori Hunanasesu | Categorïau Tystiolaeth | Oedolion | Plant | Busnes y Cyngor | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | Tai | Dysgu | Adnoddau | Trawsnewid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoli Perfformiad | Adroddiadau Perfformiad | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Rhagorol |
| | Gwasanaeth Cwsmer | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Rhagorol | Digonol | Da |
| | Llywodraethu a Chydymffurfiaeth | Da | Da | Da | Da | Digonol | Da | Da | Da | Da |
| Defnyddio Adnoddau | Datblygu'r Gweithlu a Rheoli Pobl | Da | Da | Digonol | Da | Da | Da | Da | Da | Rhagorol |
| | Iechyd Ariannol | Da | Da | Da | Da | Rhagorol | Da | Rhagorol | Da | Rhagorol |
| | Cydweithio ac Integreiddio | Rhagorol | Rhagorol | Da | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Da | Rhagorol |
| Rheoli Risg | Adroddiadau rheoleiddio allanol / mewnbwn gan gymheiriaid | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Rhagorol | Digonol | Da |
| | Archwilio Mewnol | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Da |
| | Diogelu Corfforaethol | Rhagorol | Rhagorol | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Da |

## Meysydd Gwella a Nodwyd

Mae'r holl feysydd sydd angen eu gwella a'u monitor yn ystod 2023/24 wedi'u nodi isod

| Maes Gwella | Gwasanaeth Arweiniol |
|---|---|
| **1. Adolygu a diwygio'r cerdyn sgorio corfforaethol i nodi'r dangosyddion perthnasol a blaenoriaethau a fydd yn cael eu tracio a'u rheoli yn ystod cyfnod y weinyddiaeth bresennol** | Trawsnewid |
| **2. Gwella'r dangosydd o ran canran y gwastraff a gaiff ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio, a chyflawni targedau Llywodraeth Cymru cyn gynted â phosibl, yn ogystal ag adolygu a diwygio'r Cynllun Gwella Cynllunio i sicrhau newid cynaliadwy i'r dyfodol** | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo<br><br>Rheoleiddio a Datblygu Economaidd |
| **3. Defnyddio meddalwedd i ddod yn fwy ymwybodol o ddata ac yn fwy gwybodus i wneud penderfyniadau hyd yn oed mwy effeithiol yn seiliedig ar dystiolaeth a thrwy ddefnyddio data o'r fath, cyfathrebu'n effeithiol â staff yr Awdurdod ynglŷn â lefelau perfformiad** | Trawsnewid |
| **4. Parhau i foderneiddio ein dulliau gweithio, o wasanaethau i gwsmeriaid i brofiad mwy cyflawn i gwsmeriaid** | Trawsnewid |
| **5. Adolygu a diwygio'r broses adolygiadau gwasanaeth i sicrhau ei bod yn gyfredol ac yn cyd-fynd â disgwyliadau'r Hunanasesiad Corfforaethol** | Trawsnewid |
| **6. Gweithio gyda phartneriaid i liniaru effaith yr argyfwng costau byw ac amddiffyn y rheiny sydd mewn tlodi** | Trawsnewid / Tai |
| **7. Lleihau costau trydan ac ynni ledled y Cyngor a thrwy hynny lleihau allyriadau carbon y Cyngor er mwyn ei helpu i ddod yn gyngor sero net erbyn 2030** | Swyddfa'r Prif Weithredwr / Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo |
| **8. Nodi cyfleoedd i leihau costau/lefel gwasanaeth a chynyddu incwm drwy godi prisiau, gwella gwasanaethau a defnyddio grantiau lle bo hynny'n briodol** | Adnoddau |
| **9. Datblygu Strategaeth Rheoli Asedau'r Cyngor er mwyn dangos ei fod yn ystyried egwyddorion datblygu cynaliadwy** | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo |
| **10. Lleihau'r achosion o fethu â chwblhau gwaith ar yr hawliadau Cymhorthdal Budd-dal Tai yn y dyfodol** | Adnoddau |

| Maes Gwella | Gwasanaeth Arweiniol |
|---|---|
| **trwy gytuno ar amserlen gyda'r archwilwyr allanol, ynghyd ag adolygu capasiti o ran staff** | |
| **11. Rhoi mwy o gyfleoedd i breswylwyr a rhanddeiliaid i sicrhau y clywir eu llais trwy fabwysiadu strategaeth cyfranogiad y cyhoedd sydd wedi'i hadolygu a'i hailwampio ar gyfer y cyfnod ar ôl y pandemig** | Trawsnewid |
| **12. Rhoi cynlluniau gweithredu ôl arolwg ar waith yn dilyn adroddiadau Estyn, AGC ac Archwilio Cymru** | Pob Gwasanaeth |
| **13. Gweithredu'r model 'tair llinell sicrwydd' fel un dull o gasglu gwybodaeth i gynorthwyo i fapio sicrwydd i'r Cyngor** | Adnoddau / Trawsnewid |
| **14. Mabwysiadu fframwaith rheoli risg newydd a sicrhau bod gweithdrefnau newydd yn cael eu rhoi ar waith a bod pob gwasanaeth yn eu dilyn** | Adnoddau |
| **15. Cynyddu dealltwriaeth ynglŷn â'r model Ystyriol o Drawma a gwneud defnydd ehangach o'r model ledled yr ynys** | Dysgu / Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **16. Paratoi ar gyfer y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid** | Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **17. Darparu hyfforddiant a chanllawiau i swyddogion ynglŷn â'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol** | Busnes y Cyngor |

DRAFT